Arsyllfa Wledig Cymru
Wales Rural Observatory

# Gweithwyr Mudol yng Nghymru Wledig a Chymoedd De Cymru

Laura Jones a John Lever

Adroddiad Terfynol, Chwefror 2014

Gyda chyfraniadau gan Sophie-Wynne Jones, Jonathan Radcliffe a Michael Woods

Prifysgol Aberystwyth University

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# TABL CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Cynnwys | | 1 |
| Talfyriadau a ddefnyddiwyd | | 2 |
| Crynodeb Gweithredol | | 3 |
| ADRAN 1 | CYFLWYNIAD A METHODOLEG | 7 |
| ADRAN 2 | PROFFIL YSTADEGOL GWEITHWYR MUDOL | 17 |
| ADRAN 3 | TEULU A'R GYMUNED | 31 |
| ADRAN 4 | CYFLOGAETH A'R GWEITHLE | 40 |
| ADRAN 5 | BUSNESAU MUDOL AC ENTREPRENEURIAETH | 48 |
| ADRAN 6 | GWASANAETHAU AC ADDYSG | 51 |
| ADRAN 7 | CASGLIADAU AC ARGYMHELLION POLISI | 59 |
| Cyfeiriadau | | 66 |
| Atodiadau | | 68 |

# TALFYRIADAU

| | | |
|---|---|---|
| A8 | - | Gwledydd Derbyn yr A8 (y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia |
| A2 | - | Gwledydd Derbyn yr A2 (Rwmania a Bwlgaria) |
| CEE | - | Canol a Dwyrain Ewrop |
| SIY | - | Saesneg fel Iaith Ychwanegol |
| GLA | - | Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri |
| LMCN | - | Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli |
| AALl | | Awdurdod Addysg Lleol |
| MADF | - | Fforwm Amrywiaeth Amlasiantaethol |
| MELAP | - | Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig |
| MWF | - | Fforwm Gweithwyr Mudol |
| NINo | - | Rhif Yswiriant Gwladol |
| NWREN | - | Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru |
| PCVA | - | Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd |
| CYBLD | - | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| PWMA | - | Cymdeithas Cymry-Pwyliaid, Llanelli |
| SAWS | - | Cynllun Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol |
| SBS | - | Cynllun Seiliedig ar Sectorau |
| SEAL | - | Rhaglen Agwedd Gymdeithasol ac Emosiynol Dysgu |
| WAL | - | Cymraeg fel Iaith Ychwanegol |
| WRS | - | Cynllun Cofrestru Gweithwyr |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o'r ymchwil a gynhaliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru rhwng mis Mai 2012 a mis Hydref 2013 i ymchwilio i fudo economaidd rhyngwladol i Gymru wledig a Chymoedd De Cymru.

## Cefndir

Comisiynwyd Arsyllfa Wledig Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2012 i gynnal astudiaeth i'r sefyllfa a phrofiadau gweithwyr mudol rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ymchwil flaenorol a oedd yn edrych ar fudo o wledydd yr A8 i Gymru wledig (gweler Arsyllfa Wledig Cymru, 2008); gan ehangu canolbwynt yr ymchwiliad i gynnwys gweithwyr mudol gwledydd yr A2 o Fwlgaria a Romania, a ymunodd â'r UE ym mis Ionawr 2007, a gan ymestyn y cwmpas daearyddol i gynnwys Cymoedd De Cymru.

Mae'r ymchwil hon yn cynnwys y saith amcan canlynol:

i. Mesur mudo rhyngwladol i Gymru wledig a chymoedd De Cymru, nodi patrymau tymhorol cyraeddiadau ac ymadawiadau, a phatrymau daearyddol symudiad domestig/preswylio.
ii. Diweddaru arolwg 2008 o weithwyr mudol, gan nodi newidiadau yn nodweddion a bwriadau gweithwyr mudol, eu sefyllfa gymdeithasol ac economaidd, a’u rhyngweithiadau cymunedol.
iii. Gosod mudo llafur diweddar o aelod-wladwriaethau newydd yr UE yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol, gan gynnwys grwpiau mudo mwy hirsefydlog.
iv. Dadansoddi pwysau a goblygiadau mudo rhyngwladol ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a sut y mae awdurdodau cyfrifol yn mynd i'r afael â'r materion hyn.
v. Dadansoddi cyfraniad economaidd mudwyr rhyngwladol yng Nghymru wledig, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol ar farchnadoedd llafur lleol, a chyfraniadau i ddatblygu economaidd-gymdeithasol drwy entrepreneuriaeth.
vi. Dadansoddi rhyngweithio ac integreiddio mudwyr rhyngwladol â chymunedau lleol yng Nghymru wledig, gan gynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol o fynd i'r afael â thensiynau a gwahaniaethau diwylliannol, datblygu gweithgarwch diwylliannol newydd, a datblygu sgiliau iaith.

vii. Nodi enghreifftiau o arfer da a gwneud argymhellion ar gyfer mentrau i gynorthwyo entrepreneuriaeth fudol a hyrwyddo integreiddio cymunedol drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

## Dulliau Ymchwil:

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu data. Cafwyd data ystadegol eilaidd o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (y WRS), cofrestriadau Yswiriant Gwladol (NINo) a Chyfrifiad 2011. Roedd data sylfaenol yn ymwneud â thri phrif gam. Yn gyntaf, cynhaliwyd cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys asiantaethau llywodraeth cenedlaethol a lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, byrddau iechyd, Undebau Llafur, a chynrychiolwyr grwpiau mudol. Roedd y cam cyntaf hefyd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth o adroddiadau ar fudo rhyngwladol. Yn ail, cynhaliwyd arolwg holiadur gyda 109 o weithwyr mudol ar draws pedair ardal astudiaeth achos:

1) Cymoedd De Cymru - Merthyr Tudful;
2) Gogledd Cymru - Conwy, Ynys Môn a Gwynedd;
3) Sir Gaerfyrddin - Llanelli a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan;
4) Canolbarth Cymru – Y Trallwng.

Recriwtiwyd drwy sefydliadau'r trydydd sector ac ysgolion lleol yn yr astudiaethau achos. Roedd cam hwn y gwaith maes yn cynnwys recriwtio sawl entrepreneur mudol i gymryd rhan mewn cyfweliadau rhannol strwythuredig. Roedd trydydd cam y gwaith maes yn cynnwys nifer bach o ail gyfweliadau â sefydliadau blaenllaw cymorth i fudwyr er mwyn myfyrio ar ganfyddiadau allweddol.

## Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion:

***Tueddiadau mewn mudo rhyngwladol i Gymru wledig a chymoedd De Cymru:***

- I raddau helaeth, mae mudo o wledydd yr A8 wedi bod yn ffenomen wledig; ers ehangu'r UE, mae nifer cymharol o fudwyr gwledydd yr A8 wedi cofrestrui weithio yn siroedd gwledig a threfol Cymru.[1]
- Mae amrywiadau daearyddol o ran dosbarthu gweithwyr mudol gwledydd yr A8 ar draws Cymru wledig yn seiliedig ar gyflogaeth mewn sectorau cysylltiedig ag ardaloedd gwledig, megis prosesu bwyd a thwristiaeth.
- Mae mudo o Wlad Pwyl wedi parhau i fod amlycaf o ran mudo newydd o'r UE i Gymru wledig a Chymoedd De Cymru, gan gyfrif am dros dri chwarter o gofrestriadau gan wledydd yr A8 yn y ddwy ardal.

[1] Mewn cyferbyniad, mae cofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol a wnaed gan yr holl fudwyr (rhai nad ydynt yn wladolion Prydeinig o wledydd yr UE a gwledydd nad ydynt yn yr UE) i Gymru o 2002-2011 wedi eu cyfyngu yn fwy i ardaloedd trefol. Roedd tua 52% (14,640) o'r holl gofrestriadau NINo dros y cyfnod hwn mewn awdurdodau lleol trefol, o gymharu â 24% (6,850) mewn awdurdodau gwledig.

- Gwnaeth dyfodiad y dirwasgiad gyd-daro ag arafu o ran mudo o wledydd yr A8. Mae'r niferoedd tebygol a fydd yn cyrraedd Cymru o Rwmania a Bwlgaria (‘A2’) o 2014 yn ansicr.

***Diweddaru arolwg 2008 o weithwyr mudol:***

- Mae ‘ymfudwyr’ wedi dod yn duedd fwy amlwg ers 2008: mae cyfran fawr o fudwyr yr A8 a holwyd yn y Trallwng a Gogledd Cymru wedi bod yn byw yng Nghymru am dros bum mlynedd.
- Mae bwriad mudo Pwyliaid ym Merthyr a Sir Gaerfyrddin hefyd yn newid yn gynyddol, o benderfyniad economaidd tymor byr (‘gweithwyr gwadd’) tuag at gynlluniau tymor hwy i setlo yma gyda'r teulu.
- Yn 2008, nodwyd iaith fel y prif rwystr o ran integreiddiad gweithwyr mudol â chymunedau lleol. Mae'r rhwystr hwn wedi parhau ar draws pob ardal astudiaeth achos ac agweddau ar fywyd yng Nghymru, gan gynnwys symudedd galwedigaethol, defnydd o wasanaethau, addysg a chydlyniant cymunedol.

***Mudo llafur o aelod-wladwriaethau newydd yr UE yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol:***

- Er bod Merthyr yn rhan o lwybrau mudo mwy hirsefydlog, mae graddfa a dwyster mudo newydd o'r UE wedi bod ar lefel nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen; Mae cymunedau Portiwgeaidd a Ffilipinaidd bellach yn dair rhan o ddeg a dwy ran o ddeg maint y boblogaeth Bwylaidd, yn y drefn honno (Cyfrifiad 2011).
- Mae mudo newydd o'r UE wed cyflwyno heriau i grwpiau mudo eraill. I fudwyr Portiwgeaidd, mae hyn wedi bod ar ffurf cystadleuaeth uniongyrchol am swyddi ac adnoddau. I fudwyr Ffilipinaidd, mae newidiadau polisi mewnfudo ehangach wedi arwain at lai o swyddi gwag nyrsio ar gyfer gweithwyr nad ydynt o'r UE.
- Mae ymchwil wedi datgelu profiadau cyffredin ar draws pob un o'r grwpiau mudo a gynhwysir yn yr astudiaeth hon, o ran cymhellion ar gyfer mudo i Gymru a phrofiadau o hynny.

***Pwysau a goblygiadau mudo rhyngwladol ar wasanaethau cyhoeddus:***

- Mae gan fyrddau iechyd lleol fynediad gwell i wasanaethau cyhoeddus cyffredinol ar gyfer mudwyr. Fodd bynnag, mae darparu cymorth arbenigol ar gyfer cyflyrau gan gynnwys problemau iechyd meddwl yn ddiffygiol, gyda diffyg cyllid i gynorthwyo gwasanaethau cyfieithu penodedig.
- Mae addysg yn faes gwasanaeth allweddol lle mae rhywfaint o bwysau a goblygiadau mudo rhyngwladol yn cael eu teimlo. Profodd Cymru wledig gynnydd o 50% mewn disgyblion yr oedd angen cymorth dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol arnynt rhwng 2009 a 2012; o 2,007 o ddisgyblion i 3,020.
- Bu'n ofynnol i Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) ymateb i'r galw lleol a materion sy'n benodol i ardaloedd yn ymwneud ag iaith, presenoldeb, cyrhaeddiad ac integreiddio. Gall

hyn beri problemau i ysgolion gwledig, sy'n aml â phrofiad cyfyngedig o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig.

***Cyfraniad economaidd mudwyr rhyngwladol:***

- Mae'r rhan fwyaf o weithwyr mudol gwledydd yr A8 a Phortiwgeaidd yn parhau mewn cyflogaeth â llaw o radd is sy'n talu llai. Mae mudwyr Ffilipinaidd yn dilyn llwybrau galwedigaethol mwy arbenigol ym maes nyrsio.
- Mae llawer o fudwyr â gormod o gymwysterau ar gyfer eu swyddi presennol, gan feddu ar sgiliau proffesiynol a galwedigaethol, ond mae rhwystrau ieithyddol yn cyfyngu ar ddilyniant gyrfa a symudedd galwedigaethol.
- Mae rôl asiantaethau o ran recriwtio mudwyr wedi lleihau yn y degawd ers ehangu'r UE, gan arwain at welliannau mewn amodau gwaith. Mae heriau newydd a rennir â gweithwyr Prydeinig ar incwm isel megis contractau dim oriau wedi dod i'r amlwg yng nghyd-destun y dirwasgiad.
- Mae diwylliant entrepreneuraidd wedi datblygu ymhlith mudwyr Pwylaidd a Phortiwgeaidd ym Merthyr, wedi'i hwyluso gan rwydweithiau cymorth a màs critigol y boblogaeth; gyda'r ddau hyn yn brin mewn llawer o ardaloedd gwledig. Mae costau iaith a dechrau yn parhau'n rhwystrau i entrepreneuriaeth ehangach ymhlith mudwyr.

***Integreiddio mudwyr rhyngwladol â chymunedau lleol:***

- Mae'r rhan fwyaf o fudwyr yn chwilio yn eu cymunedau eu hunain am gyfeillgarwch a chymorth oherwydd gall ieithoedd, patrymau sifftiau, gwahanu a gwahaniaethu yn y gweithle barhau'n rhwystrau i ryngweithio ehangach.
- Ar yr un pryd, mae prosesau sy'n gysylltiedig â setlo megis rhoi plant mewn ysgolion a dechrau busnesau yn annog mudwyr i integreiddio â chymunedau lleol yn well.
- Mae sefydliadau cyngor ac eiriolaeth i fudwyr megis y Gymdeithas Cymry-Pwyliaid yn Llanelli a Chymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd ym Merthyr yn hyrwyddo integreiddio cymdeithasol; ac mae ffurfiau ar entrepreneuriaeth gymdeithasol a rhwydweithiau cymunedol wedi dechrau datblygu o amgylch hyn.
- Mae diffyg mentrau tebyg ar draws rhannau o Gymru wledig (e.e. Llanybydder) wedi golygu bod yn rhaid i gymunedau mudol fod yn fwy hunanddibynnol. Gall ysgolion gwledig ddarparu mannau amlswyddogaeth pwysig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, ond gall fod yn safle o densiynau diwylliannol fel y gwelwyd yn y Trallwng.

***Argymhellion yr Adroddiad:***

- *Argymhelliad 1:* Darparu mwy o opsiynau dysgu iaith i anghenion penodol, er mwyn goresgyn rhwystrau parhaus i integreiddio cymdeithasol, symudedd galwedigaethol a defnydd o wasanaethau.
- *Argymhelliad 2*: Parhau i hyrwyddo integreiddio gweithwyr mudol â chymunedau lleol ac ehangu cydlyniant cymunedol rhwng pob grŵp.
- *Argymhelliad 3*: Parhau i gynorthwyo gwaith sefydliadau cyngor ac eiriolaeth arbenigol, gan gynnwys ehangu is-wasanaethau i ardaloedd gwledig lle mae prinder cymorth.
- *Argymhelliad 4*: Cydnabod a harneisio'n fwy effeithiol sgiliau proffesiynol a galwedigaethol gweithwyr mudol.
- *Argymhelliad 5*: Annog potensial entrepreneuraidd drwy leihau rhwystrau i wybodaeth a chyllid i ddechrau busnes.
- *Argymhelliad 6*: Annog rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer da rhwng ysgolion o ran darparu cymorth dysgu Cymraeg / Saesneg fel Iaith Ychwanegol .

# ADRAN 1: CYFLWYNIAD A METHODOLEG

## 1.1 Cyflwyniad

Nod yr adroddiad hwn yw archwilio sefyllfa a phrofiadau gweithwyr mudol rhyngwladol yng Nghymru wledig a Chymoedd De Cymru. Mae hyn yn adeiladu ar waith blaenorol gan Arsyllfa Wledig Cymru (Woods a Watkin, 2008) gan archwilio gweithwyr mudol sy'n cyrraedd o wledydd yr A8 yng Nghymru wledig ar ôl i'r Undeb Ewropeaidd (UE) ehangu yn 2004. Mae'n gwneud hynny drwy ehangu canolbwynt yr ymchwiliad i gynnwys mudwyr gwledydd yr A2 o Fwlgaria a Rwmania a ymunodd â'r UE yn 2007, a thrwy ymestyn y canolbwynt daearyddol y tu hwnt i ffiniau Cymru wledig i Gymoedd De Cymru.

Cofrestrodd dros 30,000 o fudwyr o wledydd yr A8 â'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (y WRS) ledled Cymru yn ystod ei gyfnod gweithredol rhwng mis Mai 2004 a diwedd mis Ebrill 2011. Fodd bynnag, mae'n debygol bod y ffigur hwn yn sylweddol is nag union nifer y mudwyr o wledydd yr A8 a weithiai yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y WRS yn orfodol i wladolion gwledydd yr A8 sy'n bwriadu gweithio yn y DU am fwy na mis (ac eithrio'r hunangyflogedig), ni wnaeth nifer sylweddol gofrestru yn sgîl y diffyg gorfodi. Cafwyd nad oedd dros 40% o weithwyr mudol a ddychwelodd i Wlad Pwyl o'r DU erioed wedi cofrestru gyda'r WRS (Pollard et al., 2008). Gwnaed tri deg dau y cant o holl gofrestriadau'r WRS yn y siroedd gwledig a gwnaed un deg tri y cant ohonynt yng Nghymoedd De Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu ymagwedd astudiaeth achos i'r dadansoddiad o fudo llafur, er mwyn archwilio profiadau ac effeithiau mudo rhyngwladol rhwng rhanbarthau o Gymru â chyd-destunau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol gwahanol. Er bod y prif ganolbwynt ar Gymru wledig o hyd, gyda thair astudiaeth achos wledig yn Sir Gaerfyrddin, Powys a Gogledd Cymru (Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn), yn y drefn honno, mae elfen gymharol wedi'i chyflwyno gan gynnwys pedwaredd astudiaeth achos ym Merthyr Tudful yng Nghymoedd De Cymru. Mae astudiaeth achos y Cymoedd yn galluogi mudo newydd o'r UE o wledydd yr A8 a'r A2 i'w lleoli yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol i Gymru. Yma, mae tueddiadau a rhyngweithiadau ymhlith grwpiau mudo mwy hirsefydlog o Bortiwgal a'r Pilipinas (Ynysoedd Philippines) a fudodd gryn amser yn ôl yn cael eu harchwilio ym Merthyr Tudful.

Daw heriau tebyg a gwahanol i'r rhanbarthau hyn yn sgîl mudo rhyngwladol, gan gynnwys effeithiau ar farchnadoedd llafur lleol, pwysau a goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus, cyfraniadau i ddatblygiad economaidd-gymdeithasol, ac integreiddio a chydlyniant cymunedol. Bydd yr ymagwedd astudiaeth achos a fabwysiadwyd yn yr adroddiad hwn yn ein helpu i ddeall integreiddio

ardaloedd trefol a gwledig, drwy archwilio rolau trefi mewn siroedd sy'n bennaf wledig er mwyn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a rhwydweithiau cymorth i weithwyr mudol. Caiff Llanelli yn Sir Gaerfyrddin a threfi arfordirol yng Ngogledd Cymru eu defnyddio i ddadansoddi'r prosesau hyn.

Yn dilyn yr adran gyflwyniadol hon sy'n rhoi manylion amcanion a dulliau ymchwil, bydd adran dau yn sefydlu cyd-destun ystadegol eang yr astudiaeth. Yna mae adran tri i chwech wedi'u strwythuro yn ôl themâu allweddol: teulu a'r gymuned, cyflogaeth, entrepreneuriaeth, ac addysg a gwasanaethau. Mae'r adrannau hyn yn rhoi trafodaethau cymharol o brosesau allweddol ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos. Bydd adran saith yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion polisi.

## 1.2 Amcanion yr Ymchwil

Nod yr adroddiad hwn yw dadansoddi effeithiau parhaus mudo llafur ar ôl ehangu'r UE ar Gymru wledig a Chymoedd De Cymru, a phrofiadau gweithwyr mudol rhyngwladol yn yr ardaloedd hyn. Eir i'r afael â'r nod hwn drwy'r gyfres ganlynol o amcanion:

i. Mesur mudo rhyngwladol i Gymru wledig a chymoedd De Cymru, nodi patrymau tymhorol cyraeddiadau ac ymadawiadau, a phatrymau daearyddol symudiad domestig/preswylio.

ii. Diweddaru arolwg 2008 o weithwyr mudol, gan nodi newidiadau yn nodweddion a bwriadau gweithwyr mudol, eu sefyllfa gymdeithasol ac economaidd, a’u rhyngweithiadau cymunedol.

iii. Gosod mudo llafur diweddar o aelod-wladwriaethau newydd yr UE yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol, gan gynnwys grwpiau mudo mwy hirsefydlog

iv. Dadansoddi pwysau a goblygiadau mudo rhyngwladol ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a sut y mae awdurdodau cyfrifol yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

v. Dadansoddi cyfraniad economaidd mudwyr rhyngwladol yng Nghymru wledig, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol ar farchnadoedd llafur lleol, a chyfraniadau i ddatblygu economaidd-gymdeithasol drwy entrepreneuriaeth.

vi. Dadansoddi rhyngweithio ac integreiddio mudwyr rhyngwladol â chymunedau lleol yng Nghymru wledig, gan gynnwys dulliau ffurfiol ac anffurfiol o fynd i'r afael â thensiynau a gwahaniaethau diwylliannol, datblygu gweithgarwch diwylliannol newydd, a datblygu sgiliau iaith.

vii. Nodi enghreifftiau o arfer da a gwneud argymhellion ar gyfer mentrau i gynorthwyo entrepreneuriaeth fudol a hyrwyddo integreiddio cymunedol drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

## 1.3 Cyd-destun Polisi a Chyfreithiol

Yn 2004, ehangodd yr Undeb Ewropeaidd (UE) i gynnwys deg Aelod-wladwriaeth newydd. Mewn perthynas ag wyth o'r rhain (‘gwledydd yr A8’, fel y'u gelwir, sef y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia), rhoddodd y Cytundebau Derbyn gyfle i aelod-wladwriaethau presennol i osod cyfyngiadau dros dro ar allu dinasyddion gwledydd yr A8 i gael mynediad i farchnadoedd llafur cenedlaethol. Llywodraeth y DU oedd un o dri o aelodau'r UE a benderfynodd beidio â defnyddio'r cyfyngiad hwn o'r cychwyn. Yn lle hynny, cyflwynodd y DU ofyniad cofrestru (y Cynllun Cofrestru Gweithwyr), a gosododd gyfyngiadau ar allu mudwyr yr A8 i gael mynediad i gyllid cyhoeddus (‘dim hawl i gyllid cyhoeddus’) tan iddynt weithio mewn cyflogaeth gofrestredig yn y DU am 12 mis.[2]

Ymunodd Bwlgaria a Rwmania (yr ‘A2’) â'r UE ym mis Ionawr 2007. Caniataodd darpariaethau pontio i'r DU a naw aelod-wladwriaeth arall i gyfyngu ar symudiad rhydd gweithwyr o'r gwledydd hyn. Er enghraifft, mae trefniadau'r Cynllun Seiliedig ar Sectorau (SBS) yn caniatáu i gyflogwyr yn y DU recriwtio Gwladolion Bwlgaraidd a Rwmanaidd i lenwi rhai swyddi penodedig yn y sector gweithgynhyrchu bwyd. Disgwylir i'r holl fesurau cyfyngol ddod i ben ar 1 Ionawr 2014 (Costello, 2011).

Arweiniodd penderfyniad y DU i agor ei marchnad lafur i wladolion yr A8 at niferoedd uwch na'r disgwyl o fudwyr economaidd yn dod i'r DU. Gwelwyd bod patrymau mudo ar ôl ehangu yn wahanol i donnau blaenorol o fudo i'r DU mewn dwy ffordd nodedig: yn gyntaf, mae mwy o symudedd wedi caniatáu i fudwyr ddod i'r DU ar sail dros dro neu dymhorol, ac ymweld â'u cartrefi yn rheolaidd (gweler Pollard et al., 2008); ac yn ail, mae mudwyr yr A8 wedi eu gwasgaru drwy gydol ardaloedd trefol a gwledig y DU yn seiliedig ar gyfleoedd cyflogaeth ar draws sectorau gwahanol.

Cafodd y materion penodol a gynhyrchwyd gan hyn mewn ardaloedd gwledig o Gymru heb fawr o hanes mewnfudo blaenorol o'r tu allan i'r DU eu dogfennu gan Arsyllfa Wledig Cymru (Woods a Watkin, 2008). Gwnaeth argymhelliad Arsyllfa Wledig Cymru i ’gynorthwyo integreiddio gweithwyr mudol â chymunedau lleol’ gyfateb i lansio *Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru* (2009) a sefydlai gydlyniant cymunedol fel un o nodau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â datblygiadau ym maes polisi Cymru, mae nifer o newidiadau nodedig wedi digwydd yn y cyd-destun deddfwriaethol sy'n llywodraethu mewnfudo i'r DU yn fwy eang. Ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau yn 2007, daeth yn fwyfwy anodd i weithwyr mudol o'r tu

[2] Yn ystod cyfnodau o gyflogaeth gofrestredig, mae gwladolion yr A8 yn gymwys i gael rhywfaint o fudd-daliadau cysylltiedig â gwaith megis budd-dal tai, budd-dal y dreth gyngor a chymhorthdal incwm, yn ogystal â chymorth i ddigartrefedd a mynediad i ddyranadau tai cymdeithasol (No Recourse to Public Funds Network, 2011)

allan i'r UE weithio yn y DU (Bach, 2008). Mae hyn wedi cael effeithiau penodol ar y gymuned mudo Ffilipinaidd yng Nghymru; ymchwilir ymhellach i'r effeithiau hyn yn yr adroddiad hwn.

Gydag economi'r DU yn dechrau ar gyfnod o ddirwasgiad yn 2008, cofnodwyd dirywiad yn nifer y mudwyr newydd o'r A8 a ymunodd â marchnad lafur y DU. Fodd bynnag, mae'r dirywiad hwn wedi bod yn anwastad o ran sector ac yn ofodol, gyda'r gostyngiadau mwyaf yn nifer y gweithwyr mudol yn y sectorau adeiladu a gwerthu tir a'r gostyngiadau lleiaf yn y sectorau amaethyddol a phrosesu bwyd (McCollum a Findlay, 2011). Arweiniodd y wasgfa ar elw yn ystod y dirwasgiad at bryderon ynghylch dwysáu gwaith a lefelau uwch o gamfanteisio ar fudwyr a gweithwyr ansicr eraill mewn swyddi ansicr (Rogers, 2009). Yn dilyn hyn mae camau wedi eu cymryd gan Lywodraeth y DU i wella amodau cyflogaeth ar gyfer y grwpiau hyn sydd mewn perygl. Ym mis Hydref 2011, daeth y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth i rym yn y DU. Mae'r rheoliadau hyn yn gwella sefyllfa gweithwyr asiantaeth (y mae llawer ohonynt yn fudwyr) ac yn cryfhau eu sicrwydd swydd ar draws nifer o sectorau. At hynny, cafwyd galwadau i ymestyn cylch gwaith yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri (GLA) i gynorthwyo gweithwyr y camfanteisir arnynt ac erlyn llafur gorfodol (JRF 2010, 2012).

## 1.4 Adolygiad Llenyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lywio gan amrywiaeth o lenyddiaeth academaidd a pholisi. Mae hyn yn cynnwys nifer o adroddiadau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi ers i Arsyllfa Wledig Cymru gynnal ei hastudiaeth flaenorol ar 'Gweithwyr Mudol o Ddwyrain a Chanol Ewrop yng Nghymru Wledig' yn 2007/08. Rhoddir crynodeb o'r adroddiadau allweddol hyn yn Atodiad 1 ac yn eu hamrywiol ffyrdd maent yn adlewyrchu materion allweddol a heriau sy'n ymwneud â mudo rhyngwladol i'r DU yn gyffredinol, ac i Gymru a/neu gyd-destunau gwledig yn benodol. Ymhlith y themâu pwysig i'w cymryd o'r adroddiadau hyn yr ymchwilir ymhellach iddynt yn yr astudiaeth hon mae:

- Effaith mudo gwledydd yr A8 ar economïau a chymdeithasau gwledig;
- Bywydau a phrofiadau gweithwyr mudol y tu allan i'r gweithle;
- Patrymau o ran symudedd ac anheddu mewn mudo ar ôl ehangu;
- Plant mudol yn y system addysg;
- Effeithiau'r dirwasgiad diweddar ar weithwyr agored i niwed neu ansicr; a
- Newid arferion cyflogaeth yn y sector prosesu cig.

## 1.5 Dulliau Ymchwil

Cafodd yr ymchwil hon y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arni ei chasglu drwy ddefnyddio dulliau cymysg. Yn ystod y cam cwmpasu cychwynnol cynhaliwyd cyfweliadau rhanddeiliaid manwl ag unigolion allweddol sy'n ymwneud â chynorthwyo neu reoleiddio gweithwyr mudol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys asiantaethau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, byrddau iechyd ac Undebau Llafur, yn ogystal â chynrychiolwyr

grwpiau mudol a sefydliadau cymorth i fudwyr (gweler Atodiad 2 am fanylion). Ategwyd hyn gan arolwg holiadur (Atodiad 3) gyda gweithwyr mudol yn y pedair ardal astudiaeth achos a amlinellir isod yn adran 1.6. Cynhaliwyd recriwtio drwy sefydliadau lleol o'r trydydd sector a thrwy ysgolion lleol; gan ddefnyddio samplu bwriadus i dargedu grwpiau mudol penodol ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos (gweler Tabl 1.1 am fanylion). Golygai amlygrwydd gweithwyr mudol Pwylaidd mewn ardaloedd penodol o Gymru wledig (h.y. Sir Gaerfyrddin) fod sefydliadau cymorth Pwylaidd yn borthorion i'w boblogaeth ehangach hon. Yn yr un modd, defnyddiwyd porthorion i gael mynediad i weithwyr mudol Portiwgeaidd a Ffilipinaidd ym Merthyr. Yng ngogledd Cymru, contractiwyd sefydliadau sy'n darparu cymorth a chyngor mwy cyffredinol i fudwyr i lenwi holiaduron gyda grŵp cymysg o fudwyr A8 ac A2 ar draws y rhanbarth.

Nododd adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008 dri chategori eang o brofiad mudwyr: *myfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd*, *gweithwyr gwadd* ac *ymfudwyr*. Roedd ymfudwyr — mudwyr sy'n bwriadu aros ym Mhrydain yn yr hirdymor — yn duedd sy'n dod i'r amlwg mewn ardaloedd gwledig megis y Trallwng (Woods a Watkin, 2008). I rai gweithwyr roedd hyn yn cynrychioli newid yn eu cynlluniau, o fudo fel penderfyniad economaidd tymor byr (‘gweithio gwadd’). Yn hynny o beth, rhagwelwyd y byddai ymfudwyr yn dod yn rhan allweddol o'r adroddiad presennol hwn; gan ddefnyddio dulliau samplu bwriadus i archwilio profiadau'r grŵp hwn yn fanylach. Er enghraifft, cynhaliwyd recriwtio i'r arolwg yn y Trallwng drwy ysgol leol er mwyn archwilio'r heriau sy'n codi o niferoedd cynyddol o ddisgyblion Pwylaidd sy'n ymuno â'r system addysg.[3]

Cafodd yr arolwg ei mireinio'n barhaus drwy gydol y cyfnod o waith maes ac fe'i defnyddiwyd i gasglu data ansoddol a meintiol. Cafodd y cyfnod o waith maes hefyd ei ategu gan arsylwadau ethnograffig mewn cyfarfodydd a fforymau amlasiantaethol. Galluogodd y cyfnod hwn o waith maes recriwtio entrepreneuriaid sy'n fudwyr, a gafodd eu cyfweld drwy ddefnyddio amserlen gyfweld wedi ei strwythuro'n rhannol a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r materion penodol a oedd yn dod i'r amlwg yn ardaloedd gwahanol yr astudiaethau achos. Tuag at ddiwedd y gwaith maes, cynhaliwyd nifer bach o ail gyfweliadau â sefydliadau allweddol sy'n rhoi cymorth i fudwyr er mwyn myfyrio ar y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg.

## 1.6 Ardaloedd Astudiaeth Achos

Roedd y dadansoddiad cychwynnol o ddata ystadegol yn arwain ein dewis o leoliadau astudiaeth achos. Roedd y dewisiadau terfynol hefyd yn seiliedig ar ddealltwriaeth o gyfweliadau cwmpasu cychwynnol a thystiolaeth anecdotaidd. Er enghraifft, darparodd Aberdaugleddau un o'r

[3] O ganlyniad i'r canolbwynt hwn ar yr ‘ymfudwyr’, nid yw myfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd wedi'u nodi i'r un graddau yn yr adroddiad hwn o gymharu â 2008, pan oedd Betws-y-coed a Llanrwst yn un o'r ardaloedd astudiaeth achos a archwiliwyd gan Arsyllfa Wledig Cymru. Yn yr astudiaeth hon roedd tuedd ‘blwyddyn i ffwrdd’ ymhlith mudwyr amlycaf; yn gysylltiedig â sector twristiaeth a lletygarwch yr ardal. Er ei bod yn bosibl bod mudo ‘blwyddyn i ffwrdd’ (pobl ifanc sy'n cael gwaith tymor byr yn y DU o amgylch astudio yn eu mamwlad) yn dal i ddigwydd mewn rhannau o Gymru megis Betws-y-coed, mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd wedi nodi newidiadau yn y cylch o weithwyr tymor byr yn cymryd lle gweithwyr eraill, yn gysylltiedig â'r dirwasgiad, gyda phobl leol bellach yn gwneud y swyddi hyn.

astudiaethau achos ar gyfer astudiaeth fudo Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008. Awgrymodd cyfweliadau cwmpasu fod cwymp dilynol y diwydiant adeiladu peirianyddol yn ystod y dirwasgiad wedi golygu bod y rhan fwyaf o weithwyr nad oeddent o'r DU (yn bennaf o Wlad Pwyl, Portiwgal a'r Eidal) wedi gadael yr ardal honno erbyn hyn. Mae'r pedair ardal astudiaeth achos a ddewiswyd gan y prosiect wedi cadw crynodiadau nodedig o weithwyr mudol yr A8 ar ddiwedd y Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn 2011, ac mae ymfudo tymor hwy yn amlwg ymhlith rhai o'r gweithwyr hyn. Mae'r astudiaethau achos hyn yn darparu cyd-destunau economaidd-gymdeithasol gwahanol i ystyried effeithiau a chyfraniad mudo rhyngwladol. Roedd tair o'r astudiaethau achos yng Nghymru wledig; mae'r llall yng Nghymoedd De Cymru:

1. Cymoedd De Cymru - Merthyr Tudful;
2. Gogledd Cymru – Conwy, Ynys Môn a Gwynedd;
3. Sir Gaerfyrddin – Llanelli a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan;[4] a
4. Canolbarth Cymru – Y Trallwng ym Mhowys.

Rhoddir crynodeb o nodweddion allweddol rhanbarthau'r astudiaeth achos yn Nhabl 1.1 isod:

**Tabl 1.1: Proffiliau Astudiaeth Achos**

| **Astudiaeth Achos** (Sylw daearyddol) | **Tueddiadau allweddol** | **Prif grwpiau mudo (Cyfrifiad 2011)** | **Sectorau cyflogi mudwyr (cofrestriadau'r WRS)** | **Sefydliadau / porthorion ymchwil** |
|---|---|---|---|---|
| **Cymoedd De Cymru - Merthyr Tudful** (Bwrdeistref a thref Merthyr Tudful) | Cyn 2004: prif gyrchfan i weithwyr mudol Portiwgeaidd. Poblogaeth sefydledig o fudwyr Ffilipinaidd sy'n gweithio yn y sector iechyd.<br><br>Ar ôl 2004: prif gyrchfannau ar gyfer mudwyr A8 (Pwylaidd yn bennaf) yng Nghymoedd De Cymru. Poced fach o weithwyr o wledydd eraill yr A8/A2. | 1,016 o drigolion Pwylaidd: 30% o gyfanswm y Pwyliaid yn y cymoedd, 6% o gyfanswm Cymru.<br><br>194 o drigolion Ffilipinaidd: 17% o gyfanswm y Cymoedd, 4% o gyfanswm Cymru.<br><br>293 o drigolion Portiwgeaidd (y nifer uchaf o ran ALl Cymru); dros 50% o gyfanswm y Cymoedd, 13% o gyfanswm Cymru. | Mae trigolion o Bortiwgal a Gwlad Pwyl yn cael eu cyflogi'n bennaf mewn ffatrïoedd bwyd a phrosesu cig e.e. bwydydd St Merryn.<br><br>O 2007-2011, dros 90% o gofrestriadau WRS gan fudwyr A8/A2 ym Merthyr ar gyfer swyddi mewn ffatrïoedd.[5]<br><br>Niferoedd bach o WRS ym Merthyr ar gyfer swyddi sy'n gysylltiedig ag iechyd gan gynnwys meddygon a meddygon ymgynghorol, ac ar gyfer cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr gwerthu, | Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd<br><br>Entrepreneur cymdeithasol lleol sy'n siarad Portiwgaleg<br><br>Porthorion yn y gymuned Ffilipinaidd yng Nghaerdydd |

[4] Mae astudiaeth achos Llanybydder yn cynnwys Llanbedr Pont Steffan, sydd bum milltir i'r gogledd i mewn i dde Ceredigion, yn sgîl y symudiad a'r rhyng-gysylltedd sylweddol rhwng y boblogaeth Bwylaidd yn y ddau anheddiad ar gyfer gwaith, ysgol a gwasanaethau.
[5] Yn 2008, roedd gan un ffatri prosesu cig ym Merthyr 600 o weithwyr o Wlad Pwyl a Phortiwgal, o weithlu o 1000.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Er y gystadleuaeth, erys niferoedd uchel o fudwyr â chymysgedd o genedligrwydd Portiwgeaidd a/neu Frasilaidd. | | glanhawyr a staff domestig<br><br>Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl yn un o brif gyflogwyr mudwyr Ffilipinaidd. | |
| **Gogledd Cymru - Conwy, Ynys Môn a Gogledd Gwynedd**<br><br>(Bangor, Llandudno, Penmaenmawr, a Blaenau Ffestiniog, i mewn i dde Gwynedd a Phenrhyn Llŷn) | Y tu allan i brif ganolfannau poblogaeth e.e. Bangor, mae'r boblogaeth fudol yn cael ei gwasgaru'n denau iawn ar draws ardal wledig fawr mewn trefi a phentrefi bach.<br><br>Mae mudo newydd yr UE yn llai unddiwylliannol (Pwylaidd) na mannau eraill yng Nghymru wledig: Mae cyfrifiad 2011 yn nodi cyfran uwch o fudwyr o wledydd eraill yr A8 ac A2 (gweler Tabl 2.7) | 984 o drigolion Pwylaidd Gogledd Cymru: 18% o gyfanswm Cymru wledig, 5% o gyfanswm Cymru 558 o drigolion eraill yr A8/A2 (ac eithrio. Rwmanaidd): 27% o gyfanswm Cymru wledig, 7% o gyfanswm Cymru.<br><br>195 o drigolion Portiwgeaidd yn rhanbarth Gogledd Cymru: dros 50% o gyfanswm Cymru wledig.<br><br>658 o drigolion Ffilipinaidd yng ngogledd Cymru: dros 40% o gyfanswm Cymru wledig. | A8/A2 yn bennaf mewn galwedigaethau â llaw a'r sector gwasanaethu, yn gysylltiedig â rolau lletygarwch ac arlwyo yn y diwydiant twristiaeth.<br><br>Conwy: roedd dros 50% o gofrestriadau'r WRS (2007-2011) mewn swyddi lletygarwch ac arlwyo e.e. gweinydd morwyn/ystafell a chynorthwywyr cegin. Roedd tua 10% ar gyfer glanhawyr, cynorthwywyr gofal a gofalwyr cartref.<br><br>Ynys Môn: dwy ran o dair o gofrestriadau WRS mewn swyddi â llaw mewn ffatrïoedd prosesu bwyd, gyda nifer llai ym maes lletygarwch ac arlwyo, amaethyddiaeth a morgludiant.<br><br>Gwynedd: mwy o ledaeniad galwedigaethol o ran cofrestriadau WRS; y rhan fwyaf yn gysylltiedig â lletygarwch ac arlwyo. Roedd 10% o'r WRS ar gyfer swyddi mewn ffatrïoedd, llafur a golchi dillad.<br><br>Gweithwyr Ffilipinaidd a gyflogwyd mewn cartref gofal cyn newidiadau mewnfudo. Gweithwyr Portiwgeaidd ym maes prosesu bwyd yn bennaf (efallai fod y niferoedd yn dirywio) | Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN)<br><br>Avalon Advice |
| **Sir Gaerfyrddin - Llanelli a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan** | Cyn 2004: grwpiau mudol mwy hirsefydlog (gan gynnwys Ffilipinaidd, De | 2,003 o drigolion Pwylaidd: 37% o gyfanswm Cymru wledig, 11% o gyfanswm Cymru. | Mae mwyafrif y mudwyr Pwylaidd yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu cyflogi mewn ffatrïoedd prosesu bwyd a chig. | Cymdeithas Cymry-Pwyliaid (PWMA), Llanelli |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Asiaidd) ym mhrif drefi Llanelli a Chaerfyrddin yn gysylltiedig â sectorau iechyd a gofal cymdeithasol<br><br>Ar ôl 2004: un o’r prif gyrchfannau ar gyfer mudo Pwylaidd i Gymru (mae 85% o fudwyr newydd yr UE yn y sir o Wlad Pwyl)<br><br>Patrwm anheddu gwasgaredig; crynodiadau o weithwyr mewn trefi mawr yn ogystal â gwr gwaith mewn rhannau gwledig gan gynnwys Llanybydder. | a) 48% o Bwyliaid y sir yn byw yn nhref Llanelli (4% o'r trigolion);<br>b) 98 o Bwyliaid yn byw yn Llanybydder (6%), 115 yn Llanbedr Pont Steffan (4%)<br><br>343 o drigolion o wledydd eraill yr A8/A2: 14% o gyfanswm Cymru wledig.<br>329 o drigolion Ffilipinaidd: 21% o gyfanswm Cymru wledig. | Mae'r prif gyflogwyr yn cynnwys Prosesu Cig Dawn Pac ym Mharc Bwyd Cross Hands a Dunbia Meat Processing, Llanybydder.<br><br>Roedd 88% o dros 2,000 o gofrestriadau WRS (2007-2011) ar gyfer swyddi yn y ffatri, gyda'r gyfran fwyaf yn cael ei dosbarthu fel ‘gweithredwyr prosesau’.<br><br>Nifer bach o gofrestriadau mewn swyddi eraill, gan gynnwys cynorthwywyr gofal a gofalwyr cartref, glanhawyr a staff domestig, cynorthwywyr cegin ac arlwyo, gweithwyr amaethyddol a sawl meddyg ysbyty. [6] | Siop Bwylaidd yn Llanybydder<br><br>Yr Eglwys Gatholig yn Llanbedr Pont Steffan<br><br>Dosbarth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan |
| **Canolbarth Cymru - y Trallwng, Powys** | Cyn 2004: pocedi bach o grwpiau mudo mwy hirsefydlog (gan gynnwys Ffilipinaidd) sydd wedi'u gwasgaru drwy gydol Powys wledig sy'n gysylltiedig â sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.<br><br>Ar ôl 2004: crynodiadau o weithwyr Pwylaidd a gweithwyr A8/A2 eraill o amgylch y trefi marchnad mwy gan gynnwys y Drenewydd, Llandrindod a’r Trallwng. | 835 o drigolion Pwylaidd Powys: 15% o gyfanswm Cymru wledig, 5% o gyfanswm Cymru.<br><br>414 o fudwyr eraill yr A8/A2 (ac eithrio Rwmaniaid): 21% o gyfanswm Cymru wledig.<br><br>Mae'r clwstwr mwyaf o 338 o Bwyliaid yn byw yn y Trallwng; 5% o'r trigolion.<br><br>305 o drigolion Ffilipinaidd: 20% o gyfanswm Cymru wledig. | Ym Mhowys, mae mwyafrif gweithwyr mudol Canol a Dwyrain Ewrop wedi'u cyflogi mewn swyddi ffatri yn y sector gweithgynhyrchu, gan gynnwys prosesu bwyd (e.e. bwydydd wedi'u rhewi Sidoli, y Trallwng) a gweithgynhyrchu rhannau ceir<br><br>Roedd 45% o tua 470 o gofrestriadau WRS (2007-2011) yn y sir ar gyfer gweithredwyr prosesau (gweithwyr ffatri).<br>Niferoedd llai o gofrestriadau mewn swyddi sector gwasanaethu gan gynnwys cynorthwywyr gofal a gofalwyr cartref, glanhawyr a staff domestig, a chynorthwywyr cegin ac arlwyo. | Siawns Teg (sefydliad Cynhwysiant Cymdeithasol), y Drenewydd<br><br>Ysgol Fabanod Oldford, y Trallwng |

[6] Mae ffigurau ar gyfer cofrestriadau amaethyddol yn debygol o fod yn is na'r nifer gwirioneddol a gyflogir yn y sector, yn sgîl natur dymhorol ac arian parod mewn llaw rhywfaint o waith fferm. Am gyfnod byr, roedd un cyfwelai wedi cynnal asiantaeth recriwtio yn Sir Gaerfyrddin gan ddod o hyd i weithwyr amaethyddol o Ddwyrain Ewrop. Disgrifiodd yr anawsterau roedd wedi eu hwynebu yn sgîl yr economi cyflog isel yng Nghymru, lle nad oedd ffermwyr yn barod i dalu cyfradd ddigonol yr awr i roi incwm derbyniol (a chyfreithiol) i weithwyr, yn ogystal ag elw cynaliadwy i'r cwmni.

## 1.7 Grwpiau Astudiaeth Achos

Yn ogystal â chanolbwyntio ar weithwyr mudol o wledydd yr A8 a'r A2, amlygodd ymchwil flaenorol grynodiadau o weithwyr mudol Portiwgeaidd a Ffilipinaidd mwy hirsefydlog ar draws rhannau o Gymru wledig a Chymoedd De Cymru (Threadgold et al., 2008; Woods a Watkin, 2008). Cadarnhaodd dadansoddi data rhagarweiniol symudiad gweithwyr mudol yn y grwpiau a'r rhanbarthau hyn o 2010 ymlaen (gweler Ffigurau 2.3 a 2.4). Nid y rhain oedd y grwpiau mwyaf o weithwyr mudol yng Nghymru pan ddechreuwyd ar yr ymchwil. Fodd bynnag, credwyd ei bod yn debygol y byddai dadansoddiad pellach o grwpiau Portiwgeaidd a Ffilipinaidd yn ein caniatáu i leoli mudo llafur newydd yr UE yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol yn unol ag amcan tri.

Roedd yn anodd recriwtio o'r grwpiau hyn yng Nghymru wledig yn sgîl diffyg sefydliadau porthor ac amserlen gyfyngedig i feithrin ymddiriedaeth. Adlewyrchir hyn yn y sylw bach iawn a roddir i weithwyr mudol Portiwgeaidd a Ffilipinaidd yn ardaloedd yr astudiaethau achos unigol; dim ond yng Nghymoedd De Cymru rydym yn cael ymdeimlad clir o'r rhyngweithiadau rhwng cymunedau o fudwyr. Ceisiwyd goresgyn y cyfyngiadau hyn drwy hefyd astudio grŵp o fudwyr Ffilipinaidd diweddar ar draws ardal ehangach o dde Cymru, a fu'n help i roi newidiadau diweddar a pharhaus yn eu cyd-destun. Mae mudwyr sy'n entrepreneuriaid hefyd yn grŵp penodol o astudiaeth achos, yn unol ag ymchwil sy'n awgrymu eu bod yn agwedd bwysig ar y boblogaeth fudo ond sy'n cael eu hanwybyddu (Pollard et al., 2008; Harris et al., 2012).

Mae Tabl 1.2 yn crynhoi nodweddion demograffig ymatebwyr i'r arolwg ar draws yr astudiaethau achos. O ran swm, roedd y mwyafrif yn Bwylaidd (81%) a'r gyfran fwyaf yn 25-35 oed (41%). Roedd 61% o'r ymatebwyr yn rhai benywaidd; gyda grwpiau arolwg yn cynnwys menywod yn unig yn y Trallwng a'r Ffilipiniaid ym Merthyr. Mae'r sampl hwn yn adlewyrchu'n fras broffil ystadegol gweithwyr mudol yn Adran Dau, gyda dros dri chwarter o gofrestriadau yr A8 (WRS) yng Nghymru wledig wedi eu gwneud gan wladolion Pwylaidd. O blith mudwyr gwledydd yr A8, mae mwy o fenywod na dynion yng Nghymru; roedd tri chwarter o fudwyr yr A8 o dan 35 oed.

**Tabl 1.2: Nodweddion ymatebwyr i'r arolwg yn ardaloedd yr astudiaeth achos**

| Astudiaeth achos | **Cenedligrwydd** | **Rhyw** | **Oed** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **18-22** | **25-34** | **35-44** | **45-54 oed** | **55 a hŷn** |
| Llanelli | Pwylaidd (20) | 55% G<br>45% B | 25% | 30% | 10% | 25% | 10% |
| Llanybydder/ Llanbedr Pont Steffan | Pwylaidd (28) | 54% G<br>46% B | 14% | 32% | 18% | 29% | 7% |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Trallwng | Pwylaidd (14) | 100% B | 7% | 64% | 21% | 0 | 7% |
| Gogledd Cymru | Pwylaidd (11)<br>Bwlgaraidd (1)<br>Tsiecaidd (3)<br>Almaenig (1)<br>Lithwanaidd (1)<br>Latfiaidd (1)<br>Slofacaidd (1) | 26% G<br>74% B | 0 | 37% | 21% | 21% | 21% |
| Merthyr | Ffilipinaidd (5)* | 100% B | 0 | 100% | 0 | 0 | 0 |
| | Portiwgeaidd (8) | 62% G<br>38% B | 0 | 13% | 50% | 0 | 37% |
| | Pwylaidd (15) | 47% G<br>53% B | 7% | 53% | 7% | 33% | 0 |

*Gwnaeth gwaith gyda'r gymuned Ffilipinaidd ym Merthyr hwyluso rhagor o arolygon gyda grŵp diweddar o fudwyr Ffilipinaidd yn Rhondda Cynon Taf a gyrhaeddodd ar fisâu myfyrwyr. Nid yw'r ymatebion hyn i'r arolwg yn cael eu trafod fel rhan o astudiaeth achos Merthyr, ond fe'u defnyddir fel rhan o'r drafodaeth ehangach ar fudo Ffilipinaidd.

## 1.8 Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu ymagwedd astudiaeth achos at ddadansoddi mudo llafur i Gymru wledig a Chymoedd De Cymru ar ôl ehangu'r UE, er mwyn archwilio dynameg ranbarthol yng nghyfansoddiad a phrofiadau grwpiau mudo. Mae hyn wedi ei osod mewn perthynas â'r dirwasgiad economaidd a ddaeth i'r amlwg yn 2008 a'i effaith ar y prosesau mudo sy'n digwydd. Er bod y prif ganolbwynt ar Gymru wledig o hyd, mae elfen gymharol wedi'i chyflwyno drwy gynnwys astudiaeth achos yng Nghymoedd De Cymru ym Merthyr Tudful lle mae rhyngweithiadau rhwng gwahanol grwpiau mudo yn cael eu harchwilio. Er eu bod yn dangos llawer o themâu sy'n gorgyffwrdd, mae'r astudiaethau achos gwledig yn darparu cyd-destunau unigryw ac yn nodi materion i ymchwilio iddynt: mae astudiaeth achos Sir Gaerfyrddin yn galluogi cymharu prosesau mudo ar draws rhannau gwledig (Llanybydder) a threfol (Llanelli) o'r sir; Mae gogledd Cymru yn ymgorffori gweithio dros dro a thymhorol yn y sector twristiaeth; ac mae'r Trallwng yn amlygu setliad teuluoedd ac effaith hyn ar wasanaethau addysg.

# ADRAN 2: PROFFIL YSTADEGOL GWEITHWYR MUDOL

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi dadansoddiad o ddata ystadegol ar fewnlif, nifer a dosbarthiad daearyddol gweithwyr mudol ledled Cymru wledig a Chymoedd De Cymru. Daw'r data o'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (y WRS), cofrestriadau Rhif Yswiriant Gwladol i wladolion tramor a Chyfrifiad 2011. Ceir rhai anghysondebau rhwng y setiau data hyn, ond gyda'i gilydd maent yn darparu'r data gorau posibl sydd ar gael ar y gweithwyr mudol sy'n cyrraedd Cymru a nifer y gweithwyr mudol sy'n byw yn ardaloedd yr astudiaeth achos.

O fis Mai 2004 tan ddiwedd mis Ebrill 2011, roedd y WRS yn orfodol i wladolion yr A8 a oedd yn bwriadu gweithio yn y DU am fwy na mis. Wedi ei chasglu'n chwarterol gan y Swyddfa Gartref, mae'r set ddata hon yn rhoi dealltwriaeth o'r mewnlif o weithwyr mudol dros amser. Yn ogystal â'r lefelau cofrestru isel a nodwyd yn Adran 1, cofnododd y WRS weithwyr yn ôl gweithle ond nid lleoliad preswyl, gyda chofrestriad newydd yn ofynnol os bydd unigolyn yn newid cyflogaeth. Mae'r diffyg gofyniad i ddadgofrestru o'r cynllun yn golygu nad yw set ddata'r WRS yn rhoi unrhyw wybodaeth am union hyd yr arhosiad na nifer y mudwyr A8 sy'n gweithio yn y DU ar adeg benodol; cofnodir cofrestriadau newydd yn unig.

Mae'n ofynnol i'r holl wladolion nad ydynt o'r DU gofrestru am rif Yswiriant Gwladol er mwyn gweithio yn y DU. Fodd bynnag, gall mudwyr geisio a chymryd cyflogaeth cyn gwneud cais am rif Yswiriant Gwladol. Mae data cofrestriadau yn cael ei gasglu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac mae'n ymwneud â lleoliad y cofrestru yn hytrach na lleoliad y gyflogaeth neu'r lleoliad preswyl. Yn debyg iawn i ddata WRS, mae data rhif Yswiriant Gwladol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y mewnlif o fewnfudwyr i Gymru dros amser. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried nifer y gwladolion nad ydynt o'r DU sy'n gweithio heb rif Yswiriant Gwladol.

Mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi data ar genedligrwydd mudwyr yn seiliedig ar ddadansoddiad o wlad enedigol a phasbortau. Mae'n rhoi gwybodaeth am sefyllfa mudwyr flwyddyn cyn dyddiad y cyfrifiad, ond nid yw'n rhoi unrhyw wybodaeth o ran pryd y gwnaethant gyrraedd y DU. Mae'n ategu data'r WRS a rhif Yswiriant Gwladol drwy roi dealltwriaeth o nifer y mudwyr sy'n byw mewn lleoliadau penodol ar adeg benodol mewn amser. Lle y bo'n briodol ystyrir data o ffynonellau eraill, gan gynnwys y Cynllun Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol (SAWS)[7].

[7] Mae SAWS yn caniatáu i nifer fach o fudwyr weithio yn y DU am gyfnodau byr o amser yn y sectorau garddwriaeth a phrosesu bwyd. Mae'r cwota blynyddol o 21,250 o weithwyr Bwlgaraidd a Rwmanaidd yn cyfrif am tua un rhan o dair o lafur amaethyddol tymhorol Prydain. Rhaid i weithwyr mudol ar y cynllun gymryd egwyl o dri mis ar ôl pob chwe mis; bydd

## 2.2 Mewnlif a Nifer y Gweithwyr Mudol A8

Yn dilyn ehangu'r UE, roedd nifer y gweithwyr mudol a gyrhaeddodd yng Nghymru o wledydd yr A8 wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2005–2006. Ceir tystiolaeth o hyn gan gynnydd yn y gyfradd o gofrestriadau WRS y mis ar draws Cymru: o 344.3 yn ystod ugain mis cyntaf y cynllun (Mis Mai 2004 i fis Rhagfyr 2005), i 601.7 o gofrestriadau bob mis yn ystod 2006. Fel y mae tabl 2.1 yn nodi, cafwyd yr arwydd cyntaf o arafu o ran cyraeddiadau yn 2007, gyda'r arafu hwn o ran cyfradd cofrestriadau yn fwy amlwg yng Nghymru wledig nag yng Nghymru gyfan:

**Tabl 2.1: Cofrestriadau WRS yn ôl blwyddyn 2004-2011**

| | Mai 2004 i Ragfyr 2005 | | 2006 | | 2007 | | 2008 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | | % | | % | | % |
| **Gwledig** | 2,770 | 38.3 | 2,800 | 36.8 | 1,935 | 29.6 | 1,045 | 27.9 |
| **Lled-wledig** | 1,455 | 20.1 | 1,930 | 25.4 | 1,945 | 29.7 | 1,130 | 30.2 |
| **Cymoedd** | 535 | 7.4 | 970 | 12.8 | 900 | 13.8 | 620 | 16.6 |
| **Trefol** | 2,470 | 34.2 | 1900 | 25.0 | 1,765 | 27.0 | 950 | 25.4 |
| **Cymru** | 7,230 | 100 | 7,600 | 100 | 6,545 | 100 | 3,745 | 100 |
| | **2009** | | **2010** | | **2011** | | **2004-2011** | |
| | | % | | % | | % | | % |
| **Gwledig** | 845 | 29.5 | 920 | 29.6 | 200 | 28.2 | 10,140 | 32.3 |
| **Lled-wledig** | 870 | 30.4 | 930 | 30.0 | 240 | 33.8 | 8,500 | 27.1 |
| **Cymoedd** | 455 | 15.9 | 525 | 16.9 | 75 | 10.6 | 4,080 | 13.0 |
| **Trefol** | 690 | 24.1 | 730 | 23.5 | 195 | 27.5 | 8,690 | 27.7 |
| **Cymru** | 2,860 | 100 | 3,105 | 100 | 710 | 100 | 31,410 | 100 |

y cynllun yn dod i ben ar ddiwedd 2013 pan fydd gwladolion yr A2 yn cael mynediad i symud yn rhydd i'r farchnad lafur Ewropeaidd

Mae'r arafu hwn yn cyfateb i'r dirywiad economaidd byd-eang, gan arwain at y DU yn mynd i mewn i ddirwasgiad yn 2008 gyda dirywiad o ran allbwn ar draws sectorau gweithgynhyrchu, adeiladu a manwerthu. Mae adroddiadau'n awgrymu bod gweithwyr asiantaeth a gweithwyr dros dro yn fwy agored i golli eu swyddi yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â'r gystadleuaeth uniongyrchol gynyddol o fewn y farchnad lafur gan wladolion y DU mewn sectorau sydd wedi dibynnu ar lafur mudol yn hanesyddol e.e. prosesu/pecynnu cig (Rogers, 2009). Cadarnhawyd y pwynt olaf gan randdeiliaid yn astudiaethau achos Merthyr a Llanelli. Mae'n bosibl bod y ffactorau hyn wedi rhwystro mudo newydd o wledydd yr A8 i'r DU, ac roedd adroddiadau o ostyngiad mewn diweithdra a chyflogau gwell mewn gwledydd fel Gwlad Pwyl wedi rhoi cymhellion i fudwyr ddychwelyd adref neu aros yn eu mamwlad (Pollard et al., 2008). Cyrhaeddodd cofrestriadau WRS newydd bwynt isel yn 2009 cyn cynyddu eto yn 2010, a gall hyn fod yn gysylltiedig â'r DU yn dod allan o'r dirwasgiad ar ddiwedd 2009. Erbyn i'r WRS gau ym mis Ebrill 2011, roedd 31,410 o gofrestriadau wedi digwydd ledled Cymru. Gwnaed tua 32% (10,140) mewn siroedd gwledig, gydag 13% (4,080) yn cael eu gwneud yng Nghymoedd De Cymru.

Mae cofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol hefyd yn dangos y cynnydd sydyn mewn mewnlif mudwyr o wledydd yr A8 ar ôl 2004. Cyn i'r UE ehangu, dim ond 10 o gofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol a wnaed gan wladolion yr A8 ledled Cymru wledig yn ystod 2002-3 (Woods a Watkin, 2008). Erbyn diwedd 2011, roedd dros 46,000 o gofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol gan wladolion o wledydd yr A8 ledled Cymru. Gwnaed dros 34% (15,970) o gyfanswm y cofrestriadau mewn siroedd gwledig, gyda 15% yn digwydd yng Nghymoedd De Cymru (Tabl 2.2).

**Tabl 2.2: Cofrestriadau cronnol WRS a rhif Yswiriant Gwladol gwledydd yr A8 yng Nghymru 2004 – 2011**


| | WRS | | Rhif YG | |
|---|---|---|---|---|
| | | % | | % |
| **Gwledig** | 10,140 | 32 | 15,970 | 34 |
| **Lled-wledig** | 8,500 | 27 | 8,440 | 18 |
| **Cymoedd** | 4,080 | 13 | 6,920 | 15 |
| **Trefol** | 8,690 | 28 | 15,260 | 33 |
| **Cymru** | 31,410 | 10 | 46,590 | 100 |

Mae Ffigur 2.1 yn dangos y cofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol a wnaed gan yr holl fudwyr (gwladolion nad oeddent yn Brydeinig o wledydd yr UE a gwledydd nad ydynt o'r UE) i Gymru o 2002-2011. O fewn y cyd-destun ehangach hwn, gallwn nodi bod mudo ar y cyfan wedi ei gyfyngu i ardaloedd trefol: roedd tua 52% o'r holl gofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol dros y cyfnod hwn

mewn awdurdodau lleol trefol, o gymharu â 24% mewn awdurdodau gwledig a 12% yn awdurdodau'r cymoedd a lled-wledig, yn y drefn honno. Er bod cofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol gan fudwyr yr A8 yn benodol (gweler Tabl 2.2) tua'r un maint rhwng ardaloedd trefol a gwledig; gan amlygu sut y mae mudo yr A8 yn ffenomen wledig fwy sylweddol.

Mae cofrestriadau cronnol WRS (32%) a rhif Yswiriant Gwladol (34%) yn awgrymu bod tua un rhan o dair o holl fudwyr yr A8 wedi gweithio a/neu fyw mewn siroedd gwledig ar ryw bwynt ers 2004. Gellir cymharu hyn â mudwyr yr A8 sy'n gweithio/byw mewn ardaloedd trefol o Gymru, er bod cofrestriadau cronnol WRS ychydig bach yn is ar 28% mewn siroedd trefol. Gan ddefnyddio'r un data, gallwn weld bod 13% o WRS (4,080) a 15% o gofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol A8 (6,920) yn gweithio a/neu yn byw yng Nghymoedd De Cymru ar ryw adeg ers 2004.

**Ffigur 2.1: Cofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol ar gyfer yr holl wladolion nad ydynt yn Brydeinig 2002-2011**




Mae'r setiau data WRS (78%) a rhif Yswiriant Gwladol (76%) yn nodi y gwnaed dros 75% o gofrestriadau A8 yng Nghymru wledig gan wladolion Pwylaidd rhwng 2004 a 2011; nid oedd unrhyw grŵp cenedlaethol arall yn cynnwys mwy na 7% o gyfanswm y cofrestriadau (Tabl 2.3). Y grŵp mwyaf nesaf yw gwladolion Slofacaidd sy'n cyfrif am 7% o gofrestriadau yn y ddau gyfrifiad, wedi'u dilyn gan wladolion Lithwanaidd a Hwngaraidd, sy'n cyfrif am 4% o WRS a 5% o gofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol yn y drefn honno.

**Tabl 2.3: Cenedligrwydd cofrestriad cronnol y WRS a rhif Yswiriant Gwladol gwledydd yr A8 yng Nghymru wledig 2004-2011**

| Cenedligrwydd | WRS Cronnol | | Rhif Yswiriant Gwladol Cronnol | |
|---|---|---|---|---|
| | | % | | % |
| **Gwlad Pwyl** | 8,093 | 78 | 11,140 | 76 |
| **Slofacia** | 683 | 7 | 1,070 | 7 |
| **Hwngari** | 435 | 4 | 730 | 5 |
| **Lithwania** | 422 | 4 | 720 | 5 |
| **Latfia** | 357 | 3 | 500 | 3 |
| **Y Weriniaeth Tsiec** | 273 | 3 | 380 | 3 |
| **Estonia** | 80 | 1 | 90 | 1 |
| **Slofenia** | 12 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **10,353** | **100** | **14,630** | **100** |

Yng Nghymoedd De Cymru mae'r gyfran o fudwyr Pwylaidd yn uwch eto. Mae setiau data'r WRS (82%) a rhif Yswiriant Gwladol (83%) yn nodi bod mudwyr Pwylaidd yn cyfateb i dros 80% o holl gofrestriadau'r A8 yn y Cymoedd rhwng 2004 a 2011. Fel yng Nghymru wledig, nid oes unrhyw grŵp cenedlaethol arall yn cyfateb i fwy na 7% o gyfanswm y cofrestriadau; y grŵp mwyaf nesaf yw gwladolion Lithwanaidd.

## 2.3 Mewnlif a nifer y Gweithwyr Mudol A2

Mae'r mewnlif o weithwyr mudol A2 ledled Cymru wedi bod yn fach iawn. Mae data SAWS yn nodi y cafwyd 105 o gofrestriadau, a oedd yn cynnwys pump o'r Ukrain (Tabl 2.4) rhwng 2007 a 2011.

**Tabl 2.4: Cofrestriadau Cynllun Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol (SAWS) yng Nghymru**

| SAWS | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwlgaria** | 10 | 25 | 20 | 5 | 5 | 65 |
| **Rwmania,** | 5 | 5 | 10 | 5 | 10 | 35 |
| **Ukrain** | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | 20 | 30 | 30 | 10 | 15 | 105 |


Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 1,495 yn unig o Rwmaniaid yn byw yng Nghymru. Mae tua 28% (425) o'r cyfanswm hwn yn byw mewn siroedd gwledig a 17% (257) yng Nghymoedd De Cymru, yn y drefn honno. Nid yw'r Cyfrifiad yn darparu ffigurau penodol ar gyfer gwladolion Bwlgaraidd, a gafodd eu cyfrif ymhlith mudwyr 'eraill newydd yr UE' ynghyd â gwledydd yr A8 heb gynnwys Gwlad Pwyl; mae 2,087 'o fudwyr newydd yr UE' mewn siroedd gwledig a 1,098 yng Nghymoedd De Cymru (gweler Tablau 2.6 a 2.8).

## 2.4 Mewnlif a Nifer y Gweithwyr Mudol Portiwgeaidd a Ffilipinaidd


Fel un o'r aelod-wladwriaethau olaf i ymuno â'r EU15 yn 1986, mae Portiwgal wedi bod yn brif ffynhonnell o lafur mudol yr UE i'r DU. Dechreuodd mudwyr Portiwgeaidd gyrraedd Cymru ar ddiwedd y 1990au. Cyrhaeddodd cofrestriadau Yswiriant Gwladol gwladolion Portiwgeaidd eu huchafbwynt cyn ehangu'r UE yn 2003 ac maent wedi gostwng yn raddol ers hynny, er gwaethaf cynnydd bach a lefelu allan rhwng 2007 a 2010 (Ffigur 2.2). O blith 90,000 o wladolion Portiwgeaidd sy'n byw yn y DU, mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod ychydig dros 2.5% (2,313) yn byw yng Nghymru. Mae bron 17% (386) o'r cyfanswm hwn yn byw yng Nghymru wledig, gyda 23% (540) yn byw yng Nghymoedd De Cymru.

Mae Pilipinas yn un o brif allforwyr y byd o ran llafur mudol; yn benodol personél iechyd (Rodriguez, 2010). Yn 1998, roedd 198 o ysgolion nyrsio yn y Pilipinas, gan gynhyrchu 300,000 o nyrsys cofrestredig y flwyddyn; mae tua 70 y cant yn gweithio dramor (Winckler, 2008). Yn y DU, cododd nifer y trwyddedau gwaith a roddwyd i Ffilipiniaid o lai na 100 ym 1995 i bron 7,000 yn 2000, gyda chofrestriadau gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cyrraedd uchafbwynt yn 2002 (Ffigur 2.3).

**Ffigur 2.2: Cofrestriadau rhif rif Yswiriant Gwladol Portiwgeaidd (mewn miloedd) yng Nghymru 2002-2012**




**Ffigur 2.3: Cofrestriadau Rhif Yswiriant Gwladol Ffilipinaidd (mewn miloedd) yng Nghymru 2002-2012**




Roedd mudo o'r Pilipinas i Gymru ar ei anterth cyn i'r UE ehangu yn 2003, er bod y niferoedd wedi'u cynnal gan gyrhaeddiad parhaus mudwyr Ffilipinaidd ar fisâu myfyrwyr. Ategir hyn gan ddata ar gofrestriadau rhif Yswiriant Gwladol, sy'n nodi er gwaethaf cynnydd bach rhwng 2007 a 2010, mae'r niferoedd wedi gostwng yn gyson ers hynny yn unol â system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn 2007 (Bach, 2008). Mae toriadau ariannol, ynghyd ag ehangu'r UE, yn golygu bod llai o swyddi gwag nyrsio ar gael i weithwyr o'r tu allan i Ewrop. Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 5,158 o Ffilipiniaid yn byw yng Nghymru; mae dros 33% (1,541) yn byw mewn siroedd gwledig, gyda 22% (1,147) yng Nghymoedd De Cymru.

## 2.5 Dosbarthiad Daearyddol Mudwyr

Ceir amrywiadau daearyddol nodedig o ran dosbarthiad gweithwyr mudol o wahanol genhedloedd ar draws yr astudiaethau achos yng Nghymru wledig a Chymoedd De Cymru

### Cymru Wledig

Mae Tabl 2.5 yn nodi bod tua 44% (2,340) o'r holl gofrestriadau WRS yng Nghymru wledig wedi'u gwneud yn Sir Gaerfyrddin. Ar y cyd, y siroedd mwyaf sylweddol nesaf o ran cofrestriadau oedd Sir Benfro (10%), Powys (10%) a Gwynedd (10%). Mae'r ffigurau ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn cael eu chwyddo gan y boblogaeth Bwylaidd fawr yn nhref Llanelli. Ar y cyfan, ar draws Cymru wledig dechreuodd cofrestriadau WRS ddirywio o 2007 ymlaen, gan gynyddu ychydig yn 2010 cyn i'r cynllun ddod i ben yn 2011.**Tabl 2.5: Cofrestriadau WRS Daearyddol Cronnol Cymru Wledig 2004-2011**

| | Cyn 2007 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | Hyd at fis Mehef | Cyfan swm | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | in 2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin** | 2,340 | 910 | 390 | 360 | 420 | 80 | 4,500 | 44 |
| **Sir Benfro** | 495 | 235 | 125 | 85 | 85 | 25 | 1,050 | 10 |
| **Gwynedd** | 475 | 180 | 105 | 105 | 125 | 30 | 1,020 | 10 |
| **Powys** | 495 | 190 | 90 | 100 | 120 | 10 | 1,005 | 10 |
| **Conwy** | 470 | 155 | 65 | 55 | 45 | 10 | 800 | 8 |
| **Ceredigion** | 265 | 80 | 75 | 50 | 55 | 25 | 550 | 5 |
| **Sir Ddinbych** | 340 | 100 | 60 | 20 | 15 | 10 | 545 | 5 |
| **Sir Fynwy** | 225 | 60 | 70 | 45 | 55 | 10 | 465 | 5 |
| **Ynys Môn** | 90 | 25 | 65 | 25 | - | - | 205 | 2 |
| **Cymru Wledig** | 5,195 | 1,935 | 1,405 | 845 | 920 | 200 | 10,140 | 100 |

I ryw raddau mae'r dosbarthiad daearyddol hwn yn cael ei gadarnhau gan ddata cyfrifiad 2011 (Tabl 2.6). O gyfanswm poblogaeth o 5,411 o Bwyliaid mewn siroedd gwledig, Sir Gaerfyrddin unwaith eto sydd â'r nifer uchaf o drigolion Pwylaidd, sef 2,003 (37%). Fodd bynnag, ym Mhowys roedd y nifer uchaf ond un (835), wedi'i dilyn gan Geredigion (711), Conwy (455) a Gwynedd (427). Efallai fod yr anghysondeb rhwng data'r WRS a data'r Cyfrifiad yn dangos natur statig cofrestriadau'r WRS a nodwyd yn y cyflwyniad yn ogystal â gwahaniaethau rhwng cofnodi lleoliad gwaith (WRS) neu breswylio (Cyfrifiad).

**Tabl 2.6: Data Daearyddol Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru Wledig**

| **Cymru Wledig** | **Portiwgal** | | **Gwlad Pwyl** | | **Rwmania,** | | **'UE Newydd Arall'** | | **Pilipinas** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | | % | | % | | % | | % |
| Ynys Môn | 62 | 16.1 | 102 | 1.9 | 12 | 2.8 | 97 | 4.6 | 44 | 2.5 |
| Gwynedd | 48 | 12.4 | 427 | 7.9 | 36 | 8.5 | 236 | 11.3 | 110 | 6.3 |
| Conwy | 77 | 19.9 | 455 | 8.4 | 36 | 8.5 | 225 | 10.8 | 132 | 7.6 |
| Sir Ddinbych | 8 | 2.1 | 310 | 5.7 | 24 | 5.6 | 208 | 10.0 | 372 | 21.4 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Powys | 15 | 3.9 | 835 | 15.4 | 67 | 15.8 | 441 | 21.1 | 305 | 17.6 |
| Ceredigion | 44 | 11.4 | 711 | 13.1 | 34 | 8.0 | 294 | 14.1 | 30 | 1.7 |
| Sir Benfro | 43 | 11.1 | 350 | 6.5 | 76 | 17.9 | 257 | 12.3 | 215 | 12.4 |
| Sir Gaerfyrddin | 77 | 19.9 | 2,003 | 37.0 | 77 | 18.1 | 266 | 12.7 | 329 | 19.0 |
| Sir Fynwy | 12 | 3.1 | 218 | 4.0 | 63 | 14.8 | 63 | 3.0 | 199 | 11.5 |
| **GWLEDIG** | 386 | 100 | 5,411 | 100 | 425 | 100 | 2,087 | 100 | 1,736 | 100 |
| **CYMRU** | **2,316** | | **18,023** | | **1,495** | | **8,146** | | **5,168** | |

Mae tua 25% (2,087) o holl fudwyr 'newydd eraill o'r UE' (8,146) a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 yn byw mewn siroedd gwledig (Tabl 2.6). Mae'r crynodiadau uchaf yng Ngheredigion (14%), Sir Gaerfyrddin (13%) a Sir Benfro (12%). O wledydd yr A2, mae hyn yn cynnwys Bwlgariaid ond nid Rwmaniaid, a gafodd eu cyfrif ar wahân. Mae'r data yn nodi mai Sir Gaerfyrddin (77) sydd â'r nifer uchaf o Rwmaniaid, wedi'i dilyn yn agos iawn gan Sir Penfro (76), Powys (67) a Sir Fynwy (63).

**Cymoedd De Cymru**

Mae Tabl 2.7 yn nodi y gwnaed tua 34% (1,375) o'r holl gofrestriadau WRS yng Nghymoedd De Cymru ym Merthyr Tudful, wedi'i dilyn gan 27% (1,100) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. I ryw raddau, mae'r dosbarthiad daearyddol hwn yn cael ei gadarnhau gan ddata Cyfrifiad 2011 (Tabl 2.8). O gyfanswm poblogaeth o 3,662 o fudwyr Pwylaidd yng Nghymoedd De Cymru, roedd tua 28% (1,016) yn byw ym Merthyr, wedi'i dilyn gan Ben-y-bont ar Ogwr ar tua 21% (777). Unwaith eto, mae'n debygol bod y gwahaniaeth rhwng data'r WRS a'r Cyfrifiad yn dangos lleoliadau preswyl a chyflogaeth gwahanol weithwyr mudol ar draws y Cymoedd a'r ardaloedd cyfagos. Mae tua 16% (1,297) o holl fudwyr 'newydd yr UE' a gofnodwyd yn y Cyfrifiad fel rhai sy'n byw yng Nghymru yn byw yn y Cymoedd. Fodd bynnag, dim ond 4.8% (62) o'r cyfanswm hwn sy'n byw ym Merthyr. Ar draws y Cymoedd roedd 320 o weithwyr mudol o Rwmania, gyda 5% yn byw ym Merthyr o gymharu â 24% yng Nghaerffili.

Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn cofnodi dosbarthiad gofodol y cymunedau Ffilipinaidd a Portiwgeaidd mwy hirsefydlog ar draws rhanbarth y Cymoedd (Tabl 2.8). Ceir y gyfran fwyaf o drigolion Ffilipinaidd yn Rhondda Cynon Taf (21%) wedi'i dilyn yn agos gan Ben-y-bont ar Ogwr (20%), yna Sir Fynwy (15%) a Merthyr (14%), ac ym Merthyr y ceir y nifer mwyaf o drigolion Portiwgeaidd (53%) wedyn Rhondda Cynon Taf (18%).

**Tabl 2.7: Cofrestriadau WRS Daearyddol Cronnol Cymoedd De Cymru 2004-2011**

| | Cyn 2007 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | Hyd at fis Mehefin 2011 | Cyfanswm | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 70 | 50 | 15 | 30 | 80 | 10 | 255 | 6.3 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 540 | 210 | 125 | 45 | 145 | 35 | 1,100 | 27 |
| **Caerffili** | 155 | 90 | 65 | 50 | 45 | 5 | 410 | 10 |
| **Merthyr Tudful** | 240 | 340 | 300 | 280 | 195 | 20 | 1,375 | 34 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 145 | 45 | 20 | 10 | 10 | - | 230 | 5.5 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 285 | 105 | 55 | 15 | 25 | 5 | 490 | 12 |
| **Torfaen** | 70 | 60 | 40 | 25 | 25 | - | 220 | 5.3 |
| **Y Cymoedd** | 1,505 | 900 | 620 | 455 | 525 | 75 | 4,080 | 100 |

**Tabl 2.8: Data Daearyddol Cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymoedd De Cymru**

| **Y Cymoedd** | **Portiwgal** | | **Gwlad Pwyl** | | **Rwmania,** | | **'UE Newydd Arall'** | | **Pilipinas** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | | % | | % | | % | | % |
| Castell-nedd Port Talbot | 17 | 3.1 | 287 | 7.8 | 38 | 11.9 | 135 | 10.4 | 136 | 10.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 30 | 5.4 | 777 | 21.2 | 52 | 16.3 | 248 | 19.1 | 275 | 20.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 100 | 18.1 | 531 | 14.5 | 37 | 11.6 | 302 | 23.3 | 279 | 20.7 |
| Merthyr Tudful | 293 | 53.1 | 1,016 | 27.7 | 16 | 5.0 | 62 | 4.8 | 194 | 14.4 |
| Caerffili | 55 | 10.0 | 376 | 10.3 | 77 | 24.1 | 215 | 16.6 | 142 | 10.5 |
| Blaenau Gwent | 35 | 6.3 | 330 | 9.0 | 28 | 8.8 | 63 | 4.9 | 37 | 2.7 |
| Torfaen | 10 | 1.8 | 127 | 3.5 | 9 | 2.8 | 73 | 5.6 | 84 | 6.2 |
| Sir Fynwy | 12 | 2.2 | 218 | 6.0 | 63 | 19.7 | 199 | 15.3 | 199 | 14.8 |
| **Y Cymoedd** | 552 | 100 | 3,662 | 100 | 320 | 100 | 1,297 | 100 | 1,346 | 100 |
| **Cymru** | **2,316** | | **18,023** | | **1,495** | | **8,146** | | **5,168** | |

## 2.6. Rhyw ac Oed

Yn y cyfnod hyd at 2007, roedd mwy o wladolion gwrywaidd o wledydd yr A8 yng Nghymru wledig na gwladolion benywaidd (Watkin a Woods, 2008). Erbyn 2011, mae data'r WRS yn nodi bod y duedd hon wedi'i gwrthdroi, gyda mwy o weithwyr mudol benywaidd na gwrywaidd bellach ym mhob rhan o Gymru. Fel y mae Tabl 2.9 yn nodi, mae'r gymhareb o ddynion i fenywod uchaf yn yr ardaloedd Lled-wledig, wedyn awdurdodau'r Cymoedd ar fwy na 60–40 ar gyfer y ddau.

**Tabl 2.9: Cofrestriadau WRD Cronnol 2004-2011 yn ôl Rhyw**

| | **Gwledig** | **Lled-wledig** | **Y Cymoedd** | **Trefol** | **Cymru** |
|---|---|---|---|---|---|


| | % | % | % | % | % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dynion** | 44 | 38 | 39 | 43 | 42 |
| **Menywod** | 56 | 62 | 61 | 57 | 58 |

Ategir y duedd hon gan arsylwadau anecdotaidd rhanddeiliaid yn yr astudiaethau achos bod mwy o fenywod yn mudo dros y pum mlynedd diwethaf, a hynny fel mudwyr economaidd eu hunain ac er mwyn ymuno â'u gwŷr/partneriaid a oedd yn gweithio yn y DU. Gyda'r olaf, tybir na fyddai cyfran o fenywod wedi cofrestru gyda'r WRS fel mamau sy'n aros gartref (UKBA, 2008, 2009). Mae data a gasglwyd drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD; a drafodwyd yn Adran Chwech) yn cofnodi niferoedd cynyddol o ddisgyblion o deuluoedd mudol yr A8 sy'n mynd i mewn i system addysg Cymru.

Mae data WRS ar oedran hefyd yn dangos cyfansoddiad newidiol grwpiau mudo ledled Cymru (gweler Ffigur 2.4 isod), gyda chofrestrai WRS yn y categorïau oedran hŷn yn cynyddu yng Nghymru wledig tuag at ddiwedd y cynllun yn 2011. Yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl ehangu, roedd nifer mawr o weithwyr mudol yr A8 i Gymru wledig yn ddynion ifanc sengl (Woods a Watkin, 2008). Fel y dengys Ffigur 2.4, ers 2004 mae'r duedd hon wedi cael ei gwrthdroi, gyda nifer y mudwyr iau (<18 a 18-24) a'r mudwyr hŷn (25-34 a 35-44) yn dechrau dod yn gyfartal; daeth cyfran y ceisyddion yn yr ystod 35-44 oed i uchafbwynt ar 22% cyn i'r WRS ddod i ben yng nghanol 2011. Yn yr un modd, roedd y gyfran o'r rhai 55-64 oed yn cynyddu'n gyson yn ystod camau olaf y cynllun.

Mae'r data hefyd yn nodi rhywfaint o amrywiad tymhorol o ran oedran ceisyddion WRS. Rhwng 2004 a 2011, roedd oedran canolrifol ceisyddion WRS rhwng yr ystod 25-34 ac eithrio yn ystod cyfnod chwarterol Gorffennaf-Medi yn y blynyddoedd 2006, 2008 a 2009 pan ostyngodd i 18-24. Mae hyn yn cyfateb i'r uchafbwyntiau gweledol yn y llinell 18-24 ar Ffigur 2.4 fel cyfran o'r holl geisyddion yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn awgrymu bod gweithwyr iau yn cael eu cyflogi ar gontractau tymhorol tymor byr yn ystod misoedd yr haf mewn sectorau twristiaeth a lletygarwch; tuedd a oedd yn amlwg yn astudiaeth achos Gogledd Cymru. Gall y grŵp hwn gynnwys rhai gweithwyr sy'n fyfyrwyr 'blwyddyn i ffwrdd' er na nodwyd y duedd hon i'r un graddau ag yn adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008 (gweler troednodyn 2).

**Ffigur 2.4: Cyfran y Ceisyddion WRS yng Nghymru Wledig yn ôl Categori Oedran, 2004-2011**




## 2.7 Cyflogaeth

Mae gweithwyr mudol yng Nghymru wledig yn llai cyfyngedig i swyddi sector gwasanaethu (yn benodol, gwasanaethau gweinyddol, busnes a rheoli) nag yn y Cymoedd ac yng Nghymru gyfan (Tabl 2.10 isod). Yn gyffredinol, roedd 67% o holl gofrestriadau WRS yng Nghymru wledig rhwng 2004 a 2011 yn y sector gwasanaethu, gyda 24.0% mewn gwasanaethau gweinyddol wedi'u dilyn gan 20.9% mewn lletygarwch ac arlwyo, a 7.1% mewn gwasanaethau iechyd a meddygol. Ar wahân i'r diwydiannau gwasanaethu, roedd 18.8% o gofrestriadau gwledig WRS mewn gweithgynhyrchu a 4.6% mewn gweithgarwch amaethyddol. Ceir amrywiadau daearyddol nodedig ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos gwledig o ran dosbarthiad gweithwyr mudol a gyflogir mewn sectorau gwahanol fel yr amlinellir yn Nhabl 1.1. Roedd y Cynllun Seiliedig ar Sectorau (SBS) ar gyfer Gwladolion Bwlgaraidd a Rwmanaidd yn cyfrif am 9.6% o gofrestriadau WRS yng Nghymru wledig, lle roedd yn nodwedd fwy amlwg o gyflogaeth fudol nag yng Nghymru gyfan neu yn y Cymoedd; dim ond 3.8% o gofrestriadau WRS ar gyfer yr olaf a oedd yn sectorau'r SBS.

O'u cymharu ag ardaloedd gwledig, roedd dros 80% o gofrestriadau WRS yng Nghymoedd De Cymru mewn swyddi sector gwasanaethu ac roedd dros ddwy ran o dair o'r rhain wedi eu cyfyngu i wasanaethau gweinyddol, busnes a rheoli (Tabl 2.10). Roedd gweithgynhyrchu yn cyfrif am gyfran lai o gyflogaeth yr A8 yn y Cymoedd ar 13.4%, ond roedd y ffigur hwn yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan (12.0%).

**Tabl 2.10: Cofrestriadau WRS cronnol 2004-2011 yn ôl Sector Cyflogaeth**

| | GWLEDIG | | Y CYMOEDD | | CYMRU | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | % | | % | | % |
| GWASANAETHAU GWEINYDDU, BUSNES A RHEOLI | 2,599 | 24.0 | 2,546 | 57.2 | 15,725 | 50.1 |
| GWEITHGARWCH AMAETHYDDIAETH | 500 | 4.6 | 22 | 0.5 | 815 | 2.6 |
| GWASANAETHAU CYFRIFIADUROL | 14 | 0.1 | 8 | 0.2 | 30 | 0.1 |
| GWASANAETHAU ADEILADU A THIR | 397 | 3.7 | 149 | 3.3 | 756 | 2.4 |
| GWEITHGARWCH ADDYSG A DIWYLLIANNOL. | 176 | 1.6 | 16 | 0.4 | 216 | 0.7 |
| GWASANAETHAU ADLONIANT A HAMDDEN | 461 | 4.3 | 120 | 2.7 | 630 | 2.0 |
| DIWYDIANNAU CLODDIO | 20 | 0.2 | 32 | 0.7 | 77 | 0.2 |
| GWASANAETHAU ARIANNOL | 4 | 0.0 | 12 | 0.3 | 39 | 0.1 |
| Y LLYWODRAETH | 26 | 0.2 | 12 | 0.3 | 72 | 0.2 |
| GWASANAETHAU IECHYD A MEDDYGOL | 770 | 7.1 | 119 | 2.7 | 1,365 | 4.3 |
| LLETYGARWCH AC ARLWYO | 2,265 | 20.9 | 284 | 6.4 | 4,510 | 14.4 |
| GWASANAETHAU'N GYSYLLTIEDIG Â'R GYFRAITH | - | 0.0 | - | - | 2 | 0.0 |
| GWEITHGYNHYRCHU | 2,039 | 18.8 | 598 | 13.4 | 3,765 | 12.0 |
| GWASANAETHAU GWERTHU TIR AC EIDDO | 40 | 0.4 | 16 | 0.4 | 135 | 0.4 |
| MANWERTHU A GWASANAETHAU CYSYLLTIEDIG | 279 | 2.6 | 148 | 3.3 | 892 | 2.8 |
| CYNLLUN SEILIEDIG AR SECTORAU (SBS) | 1,037 | 9.6 | 170 | 3.8 | 1,907 | 6.1 |
| GWASANAETHAU DIOGELWCH A GWARCHOD | 10 | 0.1 | 10 | 0.2 | 38 | 0.1 |
| GWEITHGARWCH CHWARAEON | 20 | 0.2 | - | - | 19 | 0.1 |
| TELATHREBU | 2 | - | - | - | 8 | 0.0 |
| CLUDIANT | 149 | 1.4 | 142 | 3.2 | 419 | 1.3 |
| CYFLEUSTODAU – NWY, TRYDAN, DŴR | 16 | 0.1 | 34 | 0.8 | 53 | 0.2 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Anhysbys | 6 | 0.1 | 13 | 0.3 | 51 | 0.2 |
| **CYFANSWM** | **10,830** | **100** | **4,451** | **100** | **31,524** | **100** |

## 2.8 Crynodeb

Mae'r bennod hon wedi rhoi darlun cyffredinol o fewnlif, nifer a dosbarthiad daearyddol gweithwyr mudol ledled Cymru wledig a Chymoedd De Cymru. Er ei fod yn canolbwyntio ar fudo newydd o'r UE o wledydd yr A8 ac A2, mae'r dadansoddiad hwn wedi ei osod yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol mwy hirsefydlog gan grwpiau Portiwgeaidd a Ffilipinaidd.

Mae'r dadansoddiad data yn dangos bod:

- Dwy ran o dair o fudo A8 i Gymru wedi digwydd cyn 2007
- Mudo yr A8 wedi ei wasgaru ar draws ardaloedd gwledig, trefol a chymoedd Cymru
- Mudo Pwylaidd wedi parhau i fod amlycaf ym mudo yr A8 yng Nghymru wledig a'r Cymoedd
- Mudo o wledydd yr A2 wedi cael effaith nodedig gyfyngedig cyn 2014
- Niferoedd sylweddol o fudwyr A8 wedi dychwelyd i Wlad Pwyl
- Tueddiadau o ran rhyw wedi gwrthdroi ers 2007, gyda mudwyr sy'n fenywod o'r A8 bellach yn fwy niferus na'r mudwyr sy'n ddynion
- Mudwyr iau amlycaf; mae tri chwarter o fudwyr yr A8 yng Nghymru wledig o dan 35 oed
- Mae mudwyr A8 (a Phortiwgeaidd) yn parhau i gael eu cyflogi mewn swyddi elfennol
- Mae mudo newydd o Bortiwgal a Pilipinas wedi dirywio ers i'r UE ehangu.

Cafodd adroddiad mudo Arsyllfa Wledig Cymru 2008 drafferth i ddarparu ffigur cywir ar fudo'r A8 i Gymru wledig yn seiliedig ar ddiffygion yn y data WRS sydd ar gael. Mae rhyddhau data Cyfrifiad 2011 wedi ategu ffynonellau eraill i adeiladu darlun cliriach o weithwyr mudol sy'n cyrraedd Cymru a phatrymau daearyddol o ran preswylio a dychwelyd; er enghraifft, roedd llai na hanner y Pwyliaid a gofrestrodd am rif yswiriant gwladol yng Nghymru wledig yn dal yn byw yno yn 2011. Ymddengys fod hyn yn arwydd o'r gwaith tymor byr, tymhorol a wneir gan rai mudwyr mewn sectorau gwledig.

# ADRAN 3: TEULU A'R GYMUNED

## 3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn dechrau drwy archwilio'r cymhellion ar gyfer mudo i Gymru ymhlith grwpiau mudo ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos. Mae'n ystyried patrymau anheddiad a dychwelyd ymhlith y grwpiau mudo, o ran hyd eu cyfnod preswyl yng Nghymru a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ac effaith y penderfyniadau hyn o ran cydlyniant cymunedol ac integreiddio. Mae hyn yn cynnwys y berthynas a'r rhyngweithio rhwng gweithwyr mudol a chymunedau lleol. Yma archwilir twf a swyddogaeth rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth i fudwyr mewn perthynas â'r cyd-destun economaidd a pholisi sy'n newid yng Nghymru.

## 3.2 Cymhellion ar gyfer Mudo

Ar draws ardaloedd yr astudiaeth achos, roedd ffactorau ariannol wedi bod yn bwysig ym mhenderfyniadau y rhan fwyaf o weithwyr mudol a holwyd i fudo: wedi eu gwthio gan ddiffyg cyfleoedd cyflogaeth yn eu mamwlad a/neu wedi eu denu gan y posibilrwydd o ennill mwy o arian a gwell ansawdd bywyd yn y DU. Mae cymhellion wedi datblygu dros y degawd ers ehangu'r UE oherwydd bod aelodau o'r don gyntaf hon o weithwyr mudol wedi setlo, gydag ymuno â theulu a ffrindiau yng Nghymru wedi dod yn ffactor cryf o ran denu mudwyr dilynol (yn ogystal â phryderon economaidd). Nodwyd y cyfle i ddysgu Saesneg hefyd gan fudwyr iau yn arbennig.

**Teuluoedd a Ffrindiau**

Roedd graddau dylanwad teulu a ffrindiau ar y penderfyniad i fudo yn amrywio ar draws yr astudiaethau achos. Nododd dwy ran o dair o Bwyliaid a Phortiwgeaid ym Merthyr, a Phwyliaid yn y Trallwng, fod hwn yn ffactor allweddol a'u bod yn byw gydag aelodau perthnasol o'r teulu yng Nghymru. Yn y Trallwng, roedd 70 y cant o'r ymatebwyr benywaidd yn briod, gyda llawer wedi mudo i ymuno â'u gwŷr; roedd gan bob un heblaw un blant oedran ysgol. Roedd y cymhelliant cychwynnol ar gyfer llawer o fudwyr Pwylaidd yn astudiaeth achos Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan yn un economaidd; i ennill arian yn y DU fel gweithwyr gwadd dros dro am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, roedd dros 80% bellach yn byw gyda'u teulu yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn ardal Llanbedr Pont Steffan, lle mae teuluoedd Pwylaidd yn dewis setlo yn agos at yr ysgol.

I'r gwrthwyneb, y Pwyliaid a holwyd yn Llanelli oedd y grŵp lleiaf sefydlog, gyda llai o gysylltiadau teuluol. Gall y rhain fod yn fudwyr sengl iau neu unigolion/cyplau hŷn; gyda'r ddau grŵp yn fwy symudol yn sgîl eu diffyg dibynyddion uniongyrchol. Mae darlun cymysg yn dod i'r amlwg ar draws rhanbarth mwy Gogledd Cymru, gyda chymuned Bwylaidd sefydlog mewn un rhan o Wynedd a

bwysleisiodd ddylanwad teulu a/neu ffrindiau. Mae hyn yn cymharu â chymysgedd mwy gwasgaredig o fudwyr A8 ac A2 sy'n dangos cysylltiadau hylif â Chymru; yn barod i symud o fewn y DU i chwilio am gyfleoedd swyddi gwell, yn ogystal â rhwng eu mamwlad a'r DU am gyfnodau byrrach o waith.

I fudwyr Ffilipinaidd ym Merthyr, mae'r un prosesau hyn wedi bod yn digwydd dros gyfnod hwy a heb yr un dwyster a welwyd gyda mudo yr A8. Dechreuodd mudwyr Ffilipinaidd gyrraedd Merthyr yn ystod y 1980au; i ddod o hyd i waith ac anfon taliadau adref i deulu estynedig yn y Pilipinas. Wrth i Ffilipiniaid setlo ym Merthyr, mae mudwyr hwyrach (gan gynnwys sawl un o'r ymatebwyr i'r arolwg) wedi eu cymell i symud i'r ardal yn sgîl cysylltiadau teuluol a oedd eisoes yn bod. Roedd yr holl Ffilipiniaid a holwyd ym Merthyr wedi priodi â phlant ac roedd gan y rhan fwyaf genedligrwydd Ffilipinaidd/ Prydeinig deuol.

### 3.3 Amser yng Nghymru a Chynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae'r gymuned Ffilipinaidd wedi ei sefydlu'n dda yn y Cymoedd ac adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau'r arolwg gyda'r holl ymatebwyr wedi bod yn byw yma am fwy na phum mlynedd (Ffigur 3.1). Yn dilyn newidiadau i system fewnfudo'r DU yn 2007, mae llawer o Ffilipiniaid wedi parhau i gyrraedd de Cymru ar fisâu tymor byr i fyfyrwyr, sy'n eu galluogi i weithio'n rhan-amser.[8] Roedd pob un namyn un o'r Ffilipiniaid a recriwtiwyd yn Rhondda Cynon Taf i archwilio'r newidiadau hyn wedi bod yng Nghymru am lai na thair blynedd; roedd bron 90% o dan 35 oed. Ar ôl Ffilipiniaid, gweithwyr mudol o Bortiwgal sydd wedi byw ym Merthyr am y cyfnod hiraf gyda thros 60% wedi byw yno am bum mlynedd a mwy. Y Trallwng oedd ymhlith y rhai mwyaf sefydlog o'r grwpiau mudo Ewropeaidd newydd a holwyd. Er bod Powys wedi profi rhywfaint o gorddi poblogaeth yn dilyn ehangu'r UE,[9] mae'r duedd dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod tuag at anheddiad grwpiau o deuluoedd. Mewn mannau eraill mae mwy o dystiolaeth o gyraeddiadau ac ymadawiadau parhaus ymhlith mudwyr yr A8 ym Merthyr, Llanelli a rhannau o Ogledd Cymru, sy'n gyson â'r dadansoddiad ystadegol yn Adran Ddau. Yng ngogledd Cymru, er enghraifft, mae llawer o Bwyliaid yn symud i Lerpwl a Manceinion lle mae'r cyflogau'n uwch.

Roedd cysylltiadau â'u mamwlad yn gryf o hyd i fwyafrif y mudwyr a holwyd; roedd dwy ran o dair o ymatebwyr y Trallwng a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan yn dal i ystyried mai eu preswylfan blaenorol yng Ngwlad Pwyl oedd eu cartref. Roedd llawer yn ansicr ynghylch am ba mor hir y byddent yn aros yng Nghymru; i rai roedd hyn yn dibynnu ar waith yn parhau i fod ar gael, i eraill cwblhau addysg eu plant oedd yn bwysig. Nododd un ymatebydd y cymhlethdodau y mae mudwyr yn eu hwynebu pan fydd cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys mwy nag un aelod o'r teulu:


[8] Mae cyfyngiadau fisa myfyrwyr Ffilipinaidd yn caniatáu 10 awr o gyflogaeth â thâl yr wythnos yn ystod y tymor a 37.5 y tu allan i'r tymor (tan 2011 roeddent yn cael gweithio 20 awr yn ystod y tymor).

[9] Profodd Powys gynnydd net yn y boblogaeth yn sgîl mudo rhyngwladol tymor hwy 300 o bobl yn unig rhwng 2003 a 2012 (Ffynhonnell: Dangosyddion Mudo Ardal Leol ONS). Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn cuddio mewnlif amcangyfrifedig o 1,600 ac all-lif o 1,300 rhwng canol 2006 a chanol 2010.

'*Mae'n anodd iawn dweud oherwydd dyhead fy merch yw aros yma. Hoffwn ddychwelyd ond mae'n dymuno aros, mae fy ngŵr hefyd am ddychwelyd – felly teimlwn ein bod wedi ein rhwygo rhwng y ddwy wlad.'* Roedd rhai o ymatebwyr hŷn yr arolwg (45 a hŷn) yn bwriadu gweithio yn y DU tan iddynt ymddeol, gan ennill digon o arian i ddychwelyd i sefyllfa gymharol gyfforddus neu gynilo at ddibenion penodol e.e. talu i'w plant hastudio yn y brifysgol.

Mynegodd nifer bach o ymatebwyr ddymuniad i ddychwelyd i Wlad Pwyl, ond dim ond os/pryd y byddai'r sefyllfa economaidd yn gwella. Roedd hyn yn debyg i'r sefyllfa sy'n wynebu rhai mudwyr Portiwgeaidd. Ymddengys fod llai o fodlonrwydd cyffredinol yn eu plith o ran bywyd ym Merthyr, o gymharu â'r Pwyliaid. Hyd yn oed ymhlith y Ffilipiniaid mwy sefydlog nid oedd yn gwbl glir y byddai'r cyfan yn aros yng Nghymru am gyfnod amhenodol. Roedd arwyddion y byddai rhai yn dychwelyd i'r Pilipinas yn y pen draw os/pan fyddent yn *'ddiogel yn ariannol ac yn emosiynol'.* Fodd bynnag, ymddengys fod mwyafrif y mudwyr a holwyd yn fodlon ar lle roeddent yn byw ac ni fynegwyd unrhyw ddymuniad uniongyrchol i symud i rywle arall. Roedd tua un rhan o dair o'r mudwyr A8/A2 a holwyd yng Ngogled Cymru, Sir Gaerfyrddin a'r Trallwng am aros yng Nghymru wledig yn barhaol. Roedd dod o hyd i swydd well yn nod cyffredin i'r rhai a oedd yn gweithio mewn swyddi ffatri yr oedd ganddynt ormod o gymwysterau ar eu cyfer. Roedd hyn yn arbennig o wir ymhlith mudwyr iau, a oedd yn ceisio gwella eu sefyllfa a sefyllfa eu teulu. Yn ne Gwynedd, mynegodd tua hanner o'r rhai a holwyd y nod o ddatblygu gwell sgiliau iaith fel rhan o'r broses hon. Yn yr un modd ym Merthyr, roedd dysgu Saesneg yn cael ei gydnabod gan fudwyr Pwylaidd a Phortiwgeaidd fel cam tuag at gael swydd a oedd yn cyfateb i'w sgiliau yn well.

**Ffigur 3.1: Hyd y cyfnod preswyl mewn ardal astudiaeth achos**



### 3.4 Hyfedredd Iaith

Mae hyfedredd iaith, a'r rhwystrau a wynebir drwy anallu i gyfathrebu, yn thema drawsbynciol allweddol yn yr adroddiad hwn a fydd hefyd yn cael ei chrybwyll mewn penodau dilynol mewn perthynas ag ardaloedd penodol. Roedd rhai mudwyr a oedd wedi bod yn byw yn y DU am gyfnod hwy wedi datblygu eu sgiliau iaith Saesneg i lefel weithredol. Fel y grŵp mudwyr mwyaf hirsefydlog, roedd yr holl Ffilipiniaid a holwyd yn honni bod ganddynt lefel dda neu rugl o Saesneg. Yn yr un modd, roedd gan tua dwy ran o dair o ymatebwyr Pwylaidd yn y Trallwng, Merthyr a Gogledd Gwynedd sgiliau Saesneg da, gyda llawer ohonynt wedi mynychu dosbarthiadau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Rhoddodd yr ymatebwyr sylwadau cadarnhaol ar y ddarpariaeth ESOL a gynigir drwy Goleg Harlech yng nghanolbarth Cymru a Choleg Menai yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Trefnodd rhai cyflogwyr mawr ddarpariaeth ESOL ar y safle i'w gweithwyr.

Fodd bynnag, roedd llawer o fudwyr yn cael trafferth mynd i ddosbarthiadau ESOL wythnosol o amgylch patrymau gwaith sifft afreolaidd a threfniadau gofal plant. Roedd hyn yn arbennig ymhlith gweithwyr ffatri yn Llanybydder, Llanelli a hefyd y Portiwgeaid ym Merthyr, lle nododd y mwyafrif mai Saesneg ‘sylfaenol’ yn unig oedd ganddynt. Mewn rhai achosion, roedd gwahanol arddulliau o ddysgu iaith wedi'u gweithredu fel dewis arall yn lle arddull academaidd ESOL ac i ddarparu ar gyfer gofynion gwaith. Er enghraifft, roedd y Gymdeithas Cymry-Pwyliaid yn Llanelli wedi trefnu dosbarthiadau ‘Saesneg i oroesi’ anffurfiol ar gyfer mudwyr newydd, ac roedd awdurdod lleol Powys yn cynnal dosbarthiadau sgwrsio ar gyfer rhieni Pwylaidd mewn ysgol leol.

Yn unol â thueddiadau'r WRS a drafodwyd yn Adran 2, nododd darparwyr ESOL uchafbwynt yn y galw am eu gwasanaethau yn 2007/08 gydag, er enghraifft, Coleg Menai yn darparu ar gyfer 450 o ddysgwyr ar yr adeg honno; roedd y gyfran fwyaf ohonynt yn Bwyliaid, ond hefyd mudwyr eraill yr UE (Portiwgeaid) a mudwyr a/neu fyfyrwyr nad oeddent o'r UE (Tsieineaidd, Bangladeshaidd). Yn dilyn hyn bu gostyngiad yn y galw am ddosbarthiadau ESOL oherwydd bod llawer o weithwyr yr A8 wedi dychwelyd adref yn ystod y dirwasgiad. Fodd bynnag, mae niferoedd y dysgwr wedi'u cynnal gyda darparwyr bellach yn gwasanaethu teuluoedd cyfan o fudwyr, yn hytrach na gweithwyr unigol.

Mae angen i fudwyr yng ngogledd Cymru allu siarad Cymraeg er mwyn ‘*gael swydd well*’ ac ar gyfer rhyngweithiadau bob dydd. Roedd llawer nad oeddent yn ymwybodol o'r gofyniad hwn cyn symud i'r rhanbarth ac nid oedd unrhyw rai o'r rhai a holwyd wedi datblygu sgiliau Cymraeg da. Yn yr un modd yn Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan, nid oedd gan unrhyw rai o'r ymatebwyr fwy na dealltwriaeth sylfaenol o Gymraeg er mor gyffredin ydyw yn lleol. Nododd rhanddeiliad addysg sut y gallai hyn fod â goblygiadau i fenywod a oedd yn fwy tebygol o geisio gwaith mewn swyddi lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol e.e. addysgu, gweinyddu a gofal cymdeithasol: “*Nid ydynt yn siarad Cymraeg, ac mae'n hynny'n  broblem enfawr yma.”*

I lawer o fudwyr, mae datblygu sgiliau iaith yn gynnydd o oroesi o ddydd i ddydd, tuag at allu gweithio, byw a chymryd rhan yn y gymuned mewn ystyr ehangach. Mae'r elfennau rhyng-gysylltiedig hyn o fudo – ffrindiau a theulu, amser yng Nghymru, cynlluniau ar gyfer y dyfodol a hyfedredd iaith – oll â chanlyniadau o ran cysylltiadau a chydlyniant cymunedol.

### 3.5 Cydlyniant Cymunedol

Holwyd ymatebwyr i'r arolwg am gryfder yr ymdeimlad o gymuned yr oedd ganddynt ag a) gweithwyr mudol eraill a b) pobl leol eraill a oedd yn byw yn eu hardal (gweler Atodiad 4). Nododd yr ymatebion fod ymdeimlad o gymuned gyda mudwyr eraill yn amrywio ar draws yr astudiaethau achos, gydag agweddau arbennig o negyddol ymhlith y grwpiau Pwylaidd a Phortiwgeaidd ym Merthyr yn gysylltiedig â chystadleuaeth am swyddi ac adnoddau, ond yn yr astudiaethau achos gwledig mae'r boblogaeth fudol yn llawer mwy 'unddiwylliannol' h.y. Pwylaidd yn bennaf, heb unrhyw grwpiau mudo sylweddol eraill.

Mae gwahaniaethau a rhaniadau clir yn y gymuned fudol Bwylaidd yn ymwneud ag oed, dosbarth a hyd eu harhosiad yn y DU. Mae rhai mudwyr sydd wedi setlo mwy yn dueddol o ymbellhau oddi wrth newydd-ddyfodiaid ac yn ceisio cysylltiadau agosach â chymunedau lleol; nodwyd hyn yn Sir Gaerfyrddin ac yng Ngogledd Cymru. Roedd tueddiadau tebyg yn amlwg ymhlith mudwyr Ffilipinaidd yn ne Cymru, gyda diffyg cysylltedd rhwng grwpiau a chenedlaethau gwahanol. Dadleuodd cyfwelai pan fydd mudwyr Ffilipinaidd wedi sefydlu yn y DU, maent yn aml yn gadael newydd-ddyfodiaid i ofalu amdanynt eu hunain, gan danseilio datblygiad ehangach y gymuned Ffilipinaidd: *'Mae'r grwpiau hynny, maent yn ennill, mae ganddynt foethau, mae ganddynt geir da, tai braf, nid oes rhaid iddynt gymryd rhan am eu bod am weithio'*. Nid yw'r sefyllfa hon o reidrwydd yn cael ei helpu gan ddiwylliant cryf o hunanddigonedd.

Mewn mannau eraill, gall agosatrwydd teuluoedd mudol eraill gynnig rhwydwaith cymorth gwerthfawr yn wyneb tensiynau â chymunedau lleol, fel ar Stad Oldford yn y Trallwng. Mae teuluoedd Pwylaidd wedi bod yn symud i mewn i'r ardal Cymunedau yn Gyntaf hirsefydlog hon o'r Trallwng dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi'i ddylanwadu gan argaeledd llety rhent fforddiadwy gan y Gymdeithas Tai; ac mae Ysgol Fabanod Oldford wedi datblygu enw da am y cymorth y mae'n ei roi i ddisgyblion Pwylaidd. Yn y Trallwng ac ym Merthyr, mae problemau sylfaenol o ymyleiddio economaidd wedi lliwio canfyddiadau bod teuluoedd mudol yn peri bygythiad; gan guddio'r heriau cyffredin y mae teuluoedd ar incwm isel (mudol a lleol) yn eu hwynebu ar hyn o bryd o ran cyflogaeth a gwasanaethau a ddarperir.

Nododd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr yn y Trallwng eu bod wedi profi rhyw ffurf ar wahaniaethu ers byw yn yr ardal, yn cynnwys cam-drin geiriol gan bobl ifanc a/neu rieni eraill yn yr ysgol. Nodwyd profiadau tebyg ym Merthyr, er bod rhai mudwyr yn gweld hyn fel agwedd sy'n codi ymhlith rhai grwpiau mewn rhai lleoedd ar rai adegau, yn hytrach na datganiadau agored o hiliaeth.

Roedd gan lawer o'r mudwyr farn dda am bobl leol, gan nodi eu cyfeillgarwch a'u lletygarwch. Fodd bynnag, ym Merthyr roedd mudwyr yn arbennig o wyliadwrus o gam-drin a'r bygythiad o drais gan bobl ifanc yng nghanol y dref, yn enwedig yn y nos. Ymddengys fod llawer o'r problemau mae mudwyr yn eu hwynebu yn seiliedig ar eu dosbarth a'u rhyw, a/neu eu cenhedlaeth. Fel y dywedodd mudwr Pwylaidd, '*mae pobl o'm cymdogaeth, pobl hŷn yn bennaf yn neis iawn… ond mae gan y genhedlaeth iau o'm gwaith neu fy nghymdogaeth ragfarn yn erbyn pobl o wledydd gwahanol.'*

Yn yr un modd, yn aml iawn roedd canfyddiadau negyddol parhaus o fudwyr Pwylaidd yn debyg ac yn gysylltiedig ag oed, ar ôl cael eu llunio yn ystod y blynyddoedd uniongyrchol ar ôl ehangu pan oedd y demograffig yn gogwyddo tuag at fudwyr iau a chanfyddiad o ddiwylliant yfed cyhoeddus. Nodwyd hyn ran randdeiliaid yn y Trallwng ac yn Llanybydder (gweler hefyd Kreft, 2009). Teimlwyd bod y berthynas rhwng pobl yn y mannau hyn wedi gwella yn y pum mlynedd diwethaf yn sgîl natur y gymuned Bwylaidd a oedd yn canolbwyntio ar y teulu yn gynyddol; er efallai fod hyn yn bennaf drwy dderbyn yn hytrach nag integreiddio, fel yr awgrymodd un swyddog awdurdod lleol yn Sir Gaerfyrddin: '*Mae cael gweithwyr mudol o'u hamgylch wedi dod yn rhan o ddodrefn bywydau pobl'.*

Mynegodd ymatebwyr i'r arolwg yn Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan a Gogledd Cymru ymdeimlad cryfach o gymuned gyda phobl leol yn hytrach na chyda gweithwyr mudol eraill. Ar y llaw arall, yn Llanelli cafwyd agwedd mwy ansicr ac amwys tuag at bobl leol a bywyd yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Ceir trosiant uchel o weithwyr Pwylaidd yn Llanelli o hyd o gymharu â'r astudiaethau achos gwledig ac efallai fod agweddau yn adlewyrchu hyn, gyda llawer o fudwyr Pwylaidd yn parhau i fyw rhwng dwy wlad a dau ddiwylliant. Mae amlder uwch y cyswllt a'r rhyngweithio rhwng gweithwyr mudol a phobl leol mewn trefi gwledig llai hefyd yn ffactor cyfrannol posibl.

Yn gyffredinol, prin iawn oedd yr ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn cyfrif pobl leol fel ffrindiau agos neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd yn lleol; yr eithriad oedd mudwyr â phlant a oedd yn mynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol. Ar y cyfan mae hyn yn gyson â'r canfyddiadau o adroddiad 2008 Arsyllfa Wledig Cymru, a nododd ddarlun o 'cysylltiadau niferus ond gwan rhwng gweithwyr mudol a chymunedau lleol yn y rhan fwyaf o gefn gwlad Cymru' (t52). Mae iaith, oriau gwaith a gwahanu yn y gweithle yn parhau i gyflwyno rhwystrau i integreiddio; dywedodd dwy ran o bump o'r holl ymatebwyr fod iaith yn eu hatal rhag gwneud ffrindiau gyda thrigolion lleol a chydweithwyr o wahanol genhedloedd. Efallai fod hunanddibyniaeth gynyddol grwpiau mudol hefyd yn ffactor; roedd yn nodedig yn Llanelli bod Pwyliaid sy'n cymdeithasu â phobl leol yn dueddol o fod yn iau (o dan 35) ac yn sengl, ond gall y rhai sy'n byw fel grŵp teulu neu bâr fod yn fwy dibynnol ar ei gilydd.

### 3.6 Gwasanaethau Cymorth a Rhwydweithiau Cymdeithasol

Yng nghyd-destun toriadau mewn gwariant cyhoeddus ac amgylchedd polisi sy'n newid, nododd rhanddeiliaid y sector cyhoeddus sut roedd awdurdodau lleol wedi symleiddio eu gweithrediadau i

‘wasanaethau hanfodol’ ond teimlwyd bod cyfleoedd cyllido i'r trydydd sector wedi gostwng. Er enghraifft, mae canolfan cyngor ar bopeth, a roddai gymorth sylweddol yn flaenorol i'r rhai nad oeddent yn wladolion Prydeinig, wedi cael eu gorfodi i dorri yn ôl i wasanaethau craidd yn sgîl gostyngiadau mewn cyllid. Yn erbyn y cefndir hwn, mae gwaith sefydliadau eiriolaeth arbenigol ac entrepreneuriaid cymdeithasol wedi dod yn fwyfwy hanfodol, a hefyd y gallu gwell ar gyfer darpariaeth hunangymorth mewn cymunedau o fudwyr. Mewn cyd-destun polisi a ysgogir gan yr angen i ddatblygu cymunedau cryf[10], mae'r sefydliadau newydd hyn yn ffynonellau cyfoethog o wybodaeth ac arbenigedd lleol i helpu i feithrin newid cadarnhaol. Yn y drafodaeth ganlynol, amlygir enghreifftiau o **arfer da** presennol ar draws yr astudiaethau achos yn ogystal â bylchau yn y ddarpariaeth.

Mae llawer o'r gwaith gyda gweithwyr mudol ym Merthyr yn cael ei wneud gan sefydliadau arbenigol sy'n canolbwyntio ar fudwyr. Mae gan Gymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd (PCVA) rôl ddylanwadol yn y gymuned Bwylaidd, fel yr amlinellodd Cadeirydd y sefydliad: ‘*Rydym yn helpu i gefnogi pobl a rhoi cyngor a gwybodaeth am fyw a gweithio yng Nghymru, ond rydym hefyd yn ceisio integreiddio pobl o Wlad Pwyl.’* Cafodd y gwaith hwn ei gydnabod gan nifer o ymatebwyr i'r arolwg: ‘*Rwy'n gwybod os oes gennym broblem… gallwn fynd yno a dod o hyd i rywfaint o wybodaeth am sut y gallwn ddatrys y broblem*.’

Cafodd Glamorgan GATES, prosiect allgymorth a gyllidwyd ym Mhrifysgol Morgannwg tan 2012, hefyd ei gydnabod yn eang gan ymatebwyr i'r arolwg fel ffordd o gael mynediad i wahanol fathau o gymorth a chyngor nad oedd ar gael yn hawdd mewn mannau eraill; roedd hyn yn amlwg iawn ymhlith mudwyr sy'n entrepreneuriaid. Mae'r entrepreneur cymdeithasol a redai GATES wedi sefydlu menter newydd yn ddiweddar – Canolfan Ddiwylliant y Bont – i ddarparu gwasanaeth tebyg a pharhad o ran cymorth. Nod y Bont yw galluogi unigolion o bob cefndir diwylliannol ym maes dysgu, hyfforddiant a phrofiad gwaith, drwy ddwyn ynghyd llawer o ffynonellau o gymorth lleol mewn un lleoliad ffisegol (gweler Atodiad 5).

Mae'r Gymdeithas Cymry-Pwyliaid (PWMA) wedi dod yn ganolfan hanfodol o gyngor a chymorth am ddim i fudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop yn Llanelli a thu hwnt; gan gael ymholiadau o ardaloedd gwledig o Gymru yn ogystal â'r DU ehangach. Ers 2006, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i PWMA gyflogi rheolwr prosiect a sawl cynghorwr. Mae'r eiddo yn darparu cyfrifiaduron y gall mudwyr eu defnyddio i chwilio am swyddi ac mae staff yn cynorthwyo gyda chyfieithu, llenwi ffurflenni a CVs, yn ogystal â chyfryngu gyda chyflogwyr a landlordiaid os bydd angen.

Mae'r sefydliadau hyn yn gweithredu lle ceir cymunedau mudol mawr i'w gwneud eu gwasanaethau'n ofynnol ac i'w cyfiawnhau, ac o hynny mae ffurfiau cydategol o rwydweithiau

[10] Gweler *Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*: http://wales.gov.uk/topics/?skip=1&lang=cy

cymdeithasol ac entrepreneuriaeth wedi dechrau datblygu; ym Merthyr yn arbennig. Yn yr astudiaethau achos gwledig mae'r boblogaeth fudol yn aml yn llai ac yn fwy gwasgaredig, sy'n ei gwneud yn fwy anodd darparu cymorth. Fel y nododd cyfwelai: '*Rydym yn ymdrin â lleiafrifoedd sydd wedi eu gwasgaru'n anweledig. Gwyddom eu bod yma ond nid ydym bob amser yn gallu dod o hyd iddynt. Gall hefyd fod yn anodd darparu'r data sydd ei angen ar ddarparwyr gwasanaethau data i wneud asesiad'.* Yn y cyd-destun hwn, mae sefydliadau anarbenigol sydd â chanolbwynt ehangach ar gynhwysiant cymdeithasol megis Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN) ac Avalon Advice yng Ngogledd Cymru, a Siawns Teg ym Mhowys, wedi dod yn nodau allweddol yn y rhwydweithiau o gymorth sydd ar gael i fudwyr.

Yng Ngogledd Cymru, mae'r sefydliadau hyn yn darparu sesiynau galw heibio i fudwyr mewn llyfrgelloedd a lleoliadau lleol eraill ar draws y rhanbarth. Mae menter gymdeithasol hefyd yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Mae un mudwr hirdymor wedi sefydlu menter gydweithredol ar gyfer datblygwyr prosiect cymunedol hunangyflogedig sydd am weithio o dan un ymbarél i ddenu cyllid a chynorthwyo ei gilydd. Mae'r fenter gydweithredol yn dwyn ynghyd sgiliau a gwybodaeth leol, a gwelwyd ei bod yn arbennig o addas i'r rhanbarth, drwy ddarparu ffordd gynaliadwy o weithio mewn ardal lle mae'r cymorth yn brin

Amlygodd adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008 rôl sefydliad Siawns Teg o ran darparu cymorth cyngor ac eiriolaeth i weithwyr mudol yng nghanolbarth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau hunangymorth a chanolfannau galw heibio. Roedd y strategaeth hon yn effeithiol gan arwain at ostyngiadau mewn llawer o'u gwasanaethau sy'n targedu gweithwyr mudol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda rôl gyfatebol bellach yn cael ei darparu drwy wasanaethau hunangymorth a gynhelir gan wirfoddolwyr mudol. Mae hyn yn darparu dulliau cymorth cynyddol gadarn i'r boblogaeth Bwylaidd glos yn y Trallwng ac mae'r dulliau hyn yn annibynnol ar yr awdurdod lleol.

Mae'r cymorth a ddarperir gan y sector gwirfoddol ledled Cymru wledig yn anwastad ac yn Llanybydder/ Llanbedr Pont Steffan mae'r gymuned Bwylaidd wedi gorfod bod yn fwy hunanddibynnol o'r cychwyn cyntaf. Mae'r gallu hwn wedi datblygu dros amser wrth i rwydweithiau o deulu a ffrindiau sefydlu yn yr ardal, gyda mudwyr tymor hwy yn gallu helpu'r mudwyr sy'n fwy newydd. Er bod trosglwyddo gwybodaeth cymunedol tebyg yn digwydd ar draws yr astudiaethau achos, mae'n arbennig o bwysig yn absenoldeb cymorth sefydliadol.[11] Mae cyflogwyr megis y ffatri prosesu cig yn Llanybydder hefyd wedi cymryd rhan weithredol o ran cyfeirio newydd-ddyfodiaid; cynorthwyo gyda thai, cofrestru gyda meddyg teulu a chyfrifon banc.

**Rhwydweithiau Cymdeithasol**

[11]Ystyrir bod y PWMA yn dechrau iswasanaeth yn Llanybydder. Roedd PWMA wedi cysylltu â sawl ffigur blaenllaw yn Llanybydder o ran eu cynnwys yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth hwn sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr yn bennaf.

Gall sefydliadau'r sector gwirfoddol ddarparu mannau cyfarfod cymdeithasol lle mae mathau mwy anffurfiol o rannu gwybodaeth yn digwydd. Ym Merthyr, mae mannau o'r fath wedi dod yn bwysig ar gyfer hunaniaeth y gwahanol grwpiau mudo. Er enghraifft, mae mudwyr Pwylaidd wedi tueddu i ddefnyddio'r PCVA fel canolbwynt i'w gweithgarwch; Mae mudwyr Portiwgeaidd yn aml yn ymgasglu yn y bar tapas lleol. Er na fydd yr holl aelodau cymunedol yn defnyddio'r mannau hyn, maent yn cynnig un ffordd y gellir herio'r darnio a'r diffyg cysylltiad sy'n gysylltiedig ag oriau gwaith hir.

Mae rhwydweithiau cymunedol Ffilipinaidd yn canolbwyntio ar yr Eglwys Gatholig ym Merthyr (sydd hefyd yn rhan o fywydau mudwyr Pwylaidd a Phortiwgeaidd). Pan ofynnwyd pam mae mynd i'r eglwys yn bwysig iddynt, pwysleisiodd un mudwr Ffilipinaidd y gydgefnogaeth a geir: *‘Oherwydd bod y rhan fwyaf ohonom yn gweithio bob dydd, nid ydym yn cael llawer o amser i fod gyda'n gilydd… gyda’r gwasanaeth gallwn siarad a chymdeithasu a dod i nabod ein gilydd*.’ Mae'r pwysau gwaith ac astudio a wynebir gan fudwyr Ffilipinaidd yn fwy cyffredinol, ynghyd â'r diffyg cysylltedd a nodwyd rhwng grwpiau a chenedlaethau, yn golygu mai prin yw'r lleoliadau cymunedol Ffilipinaidd yn ne Cymru. I ryw raddau ymddengys fod hyn o ganlyniad i batrymau gweithio ar wahân ym maes iechyd, ond gall hefyd adlewyrchu'r ymdeimlad cryf o hunanddigonedd diwylliannol lle mae Ffilipiniaid yn troi at deulu yn gyntaf. Prin yw'r ymwybyddiaeth yn y gymuned Ffilipinaidd o'r cymorth sydd ar gael ac yn aml prin yw'r wybodaeth sydd gan wasanaethau cymorth am broblemau lleol y mae Ffilipiniaid yn eu hwynebu. Mae hyn yn bryder mawr i randdeiliaid; er mwyn mynd i'r afael â'r problemau y mae mudwyr Ffilipinaidd yn eu hwynebu rhaid cydnabod y gymuned Ffilipinaidd a'i gwerthfawrogi am y cyfraniad y mae'n ei wneud ledled Cymru.

Roedd materion o gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn dueddol o effeithio'n negyddol ar ryngweithio cymdeithasol grwpiau mudo. Yn Llanelli, roedd natur y gymuned Bwylaidd a ganolbwyntiai ar waith yn cyfrannu at ddiffyg ymgysylltu â'r gymuned. Fel y disgrifiodd y PWMA: ‘*Maent i gyd yn adnabod ei gilydd, ond ac eithrio ymweld â'i gilydd a chymdeithasu yn y tai, nid ydynt yn gwneud unrhyw beth. Nid ydynt yn cymryd rhan yn y bywyd cymunedol yn y dref; y rhan fwyaf o'r amser nid ydynt yn gwybod beth sy'n digwydd.*’ Roedd hyn wedi arwain at y PWMA yn dod yn fwy gweithgar o ran trefnu digwyddiadau cymdeithasol, yn ogystal â chyhoeddi cylchlythyr Pwyleg rheolaidd. Ategir hyn gan waith Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli (LMCN) sydd â chwmpas ehangach i godi ymwybyddiaeth o amrywiaeth diwylliannol yn y dref.[12]

Yn yr astudiaethau achos gwledig, roedd mudwyr ar y cyfan yn byw yn agos i ffrindiau a theulu, ac yn tueddu i gymdeithasu yn nhai ei gilydd. Yn y Trallwng, helpodd hyn i oresgyn yr arwahanrwydd sydd weithio'n cael ei deimlo gan famau nad ydynt yn gweithio. Heb y canolbwynt cymunedol a ddarperir gan sefydliadau ym Merthyr neu Lanelli, prin oedd y digwyddiadau diwylliannol neu'r

[12] Cafodd LMCN gyllid gan y loteri fawr am dair blynedd. Gyda diwedd y cyfnod cyllido hwn yn agosáu, cyflwynwyd cais i sefydlu Rhwydwaith Amlddiwylliannol ar draws Sir Gaerfyrddin yn 2013, a fyddai'n ehangu eu gweithgarwch presennol ar draws y sir; a nodwyd nad oes cymorth o'r math hwn mewn trefi fel Llanybydder ar hyn o bryd.

Yn y Trallwng roedd y rhieni Pwylaidd a holwyd yn cefnogi digwyddiadau yn yr ysgol ac roedd ymdrechion i'w cynnwys hwy ymhellach ym mywyd yr ysgol drwy rolau fel llywodraethwyr ysgolion. Mae'r Eglwys Gatholig hefyd yn chwarae rôl hanfodol o ran cymorth i fudwyr a rhwydweithiau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig, gyda hanner yr ymatebwyr yn Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan yn mynd i Offeren Bwyleg fisol.[13] Gwnaeth trefnydd presennol yr Offeren Bwyleg yn Llanbedr Pont Steffan fudo o Wlad Pwyl yn y 1970au a nododd amharodrwydd ymhlith y genhedlaeth bresennol i gymryd rhan yn ochr drefniadol yr eglwys. Roedd hyn yn gysylltiedig ag oriau gwaith hir gan fwyafrif y mudwyr gwrywaidd a benywaidd, nad yw, yn ogystal ag ymrwymiadau gofal rhai, yn gadael llawer o amser nac egni ar gyfer gweithgarwch yn y gymuned.

### 3.7 Crynodeb

Er bod rhai o'r mudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop wedi dychwelyd adref yn ystod y dirwasgiad, mae'r rhai a arhosodd yn wynebu cyfnod o drawsnewid o ran eu bwriadau mudo; o waith gwadd tymor byr tuag at batrymau tymor hwy o setliad teuluol. Mae'r tueddiadau hyn yn amlwg ar draws pob un o'r astudiaethau achos i raddau amrywiol. Mae dwyster y newid yn sgîl mudo'r A8 dros y degawd diwethaf wedi arwain at rai tensiynau â chymunedau lleol sy'n derbyn y mudwyr ac, fel y gwelwyd ym Merthyr, â grwpiau mudo eraill. Erys iaith yn rhwystr parhaol i integreiddio cymdeithasol. Er gwaethaf darpariaeth ESOL eang, mae llawer o fudwyr yn cael trafferth mynychu'r gwersi yn sgîl patrymau gwaith afreolaidd ac ymrwymiadau gofal.

Mae sefydliadau cyngor ac eiriolaeth arbenigol i gynorthwyo mudwyr, a gwaith i ehangu cydlyniant cymunedol, wedi'i amlygu ochr yn ochr â chynnydd darpariaeth hunangymorth drwy rwydweithiau cymdeithasol a theuluol. Mae rhwydweithiau o'r fath, a'r wybodaeth ar y cyd y maent yn ei darparu, yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig lle mae diffyg ffurfiau sefydliadol ar gymorth. Fodd bynnag, er y gall hunanddigonedd cynyddol feithrin cadernid mewn cymunedau mudol, gall hefyd arwain at fewnoli problemau fel sydd wedi digwydd gyda mudwyr Ffilipinaidd yn ne Cymru; gan arwain at ddiffyg cydnabyddiaeth allanol na chymorth polisi.


### 4.1 Cyflwyniad

[13] Mae'r Eglwys Gatholig yn Llanbedr Pont Steffan yn bwysig yn hanes mudo'r ardal, gyda'r Plwyf Catholig Pwylaidd wedi'i sefydlu yn Llanbedr Pont Steffan ym 1948 i gefnogi'r nifer mawr o Bwyliaid a brynodd ffermydd a setlo yn yr ardal ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r bennod hon yn archwilio arferion cyflogaeth ac amodau'r gweithle ar draws yr astudiaethau achos. Mae hyn yn ystyried profiadau mudwyr o ddod o hyd i waith, gan gynnwys dulliau recriwtio a'r berthynas rhwng cymwysterau a'r mathau o swyddi y maent yn cael eu cyflogi ynddynt. Yn olaf, mae'n archwilio amodau gwaith a materion iaith, a sut y mae'r rhain yn effeithio ar symudedd galwedigaethol ymhlith grwpiau gwahanol o weithwyr mudol. Mae'r bennod hon yn defnyddio arolygon holiaduron gweithwyr mudol yn bennaf. Fe'i ategir gan gyfweliadau â chyflogwyr ac asiantaethau cymorth allweddol.

## 4.2 Diogelwch Ariannol

**Ffigur 4.1: Cymharu'r sefyllfa ariannol yng Nghymru â'r famwlad**




Yn gynyddol ar draws yr astudiaethau achos, teimlai 71% o'r ymatebwyr eu bod ar eu hennill yn ariannol yn byw ac yn gweithio yng Nghymru o gymharu â'u sefyllfa cyn mudo. Roedd amrywiadau rhanbarthol yn y ffigur hwn (Ffigur 4.1), gyda’r teimladau mwyaf o sicrwydd ariannol yn amlwg ymhlith mudwyr yn y Trallwng (85%), Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan (80%) a Merthyr (75%); gyda'r olaf yn cynyddu i 80% ymhlith y mudwyr Ffilipinaidd a holwyd. Mae tueddiadau o ran setliad teuluol wedi arwain at aelwydydd mudol a chanddynt incwm deuol. Yn Llanelli (25%) y cafwyd y gyfran fwyaf o ymatebwyr a oedd yn teimlo eu bod yn waeth eu byd yn ariannol ers mudo. Roedd gan Lanelli'r gyfradd uchaf o ddiweithdra ymhlith ymatebwyr yr arolwg; er y nodwyd sut y mae mudwyr newydd o Wlad Pwyl yn parhau i gyrraedd, er bod llai o swyddi ar gael yn dilyn y dirwasgiad.

Er bod cyflogaeth gan ffatrïoedd mawr wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y cyfnod hwn, mae'r sefyllfa yn fwy ansicr i fudwyr sy'n gweithio ym maes twristiaeth a lletygarwch, ac i gyflogwyr

llai, lle mae gostyngiadau mewn gwariant defnyddwyr yn cael effaith fwy uniongyrchol. Dim ond 60% o'r mudwyr a holwyd ar draws gogledd Cymru nododd eu bod bellach ar eu hennill; gan awgrymu camgyfatebiaeth â'u disgwyliadau, o ystyried mai ffactorau economaidd deniadol oedd y rheswm pennaf dros fudo. Yn yr un modd, mae'n bosibl bod cystadleuaeth am swyddi yn sgîl cyrhaeddiad mudwyr Pwylaidd ym Merthyr wedi arwain at lai o fudwyr Portiwgeaidd yn teimlo eu bod ar eu hennill yn ariannol (65%) o gymharu â grwpiau mudol eraill yn yr ardal.

### 4.3 Dod o hyd i waith

Fel y nodwyd yn adran tri, roedd gan fwyafrif y mudwyr a holwyd ar draws yr astudiaethau achos ryw fath o gyswllt blaenorol â Chymru o ran teulu a/neu ffrindiau eisoes yn byw yma. Yn y modd hwn, roeddent yn gallu dod o hyd i gyflogaeth yn gymharol hawdd naill ai: a) pan oeddent yn dal yn eu mamwlad, drwy gysylltiadau roedd gan eu teulu/ffrindiau ag asiantaethau recriwtio neu'n uniongyrchol gyda chyflogwyr; neu b) drwy fudo i ymuno â theulu/ffrindiau ac yna chwilio am waith ar ôl cyrraedd. Yn y lle cyntaf, cafodd llawer o'r gyflogaeth a drefnwyd ymlaen llaw ei threfnu drwy asiantaethau recriwtio ar gyfer y ffatrïoedd prosesu bwyd/cig. Roedd asiantaethau yn gyfrifol am lawer o'r mudo Pwylaidd cychwynnol i Sir Gaerfyrddin a Merthyr o 2004 ymlaen; recriwtio gweithwyr yn uniongyrchol o Wlad Pwyl i lenwi prinder llafur lleol yn y sector prosesu bwyd. Roedd gan tua deugain y cant o'r Pwyliaid a holwyd yn Llanelli a Merthyr swydd wedi ei threfnu ymlaen llaw yn lleol. I raddau helaeth, roedd y gweddill wedi dilyn llwybr b a mudo ar hap ar ôl clywed bod swyddi ar gael.

Mae'r ffigur hwn ar gyfer cyflogaeth a drefnwyd ymlaen llaw yn codi i dros bum deg y cant yn y Trallwng ac i uchafbwynt o saith deg y cant yn Llanybydder/ Llanbedr Pont Steffan. Yn yr olaf, ac i raddau yn y Trallwng hefyd, mae un cyflogwr mawr sydd amlycaf o ran cyflogaeth wledig (prosesu cig yn Llanybydder; ffatri bwydydd wedi'u rhewi yn y Trallwng) gyda llai o le i fudwyr gyrraedd yn yr ardal a dod i hyd i gyflogaeth arall. Nododd y ffatri yn Llanybydder eu bod yn annog mudwyr i beidio â chyrraedd heb swydd wedi'i threfnu ymlaen llaw gyda'r cwmni, oherwydd gall hyn arwain at anawsterau ariannol a lles os nad oes unrhyw waith ar gael ar hyn o bryd. Roedd mwy o amrywiad yn astudiaeth achos Gogledd Cymru, gyda chwe deg y cant o'r mudwyr Pwylaidd a holwyd yng ngogledd y rhanbarth wedi cyrraedd i ddechrau ar gyfer swydd a drefnwyd ymlaen llaw drwy asiantaeth. Roedd rhywfaint o'r gyflogaeth hon gyda ffatrïoedd prosesu bwyd ar Ynys Môn a'r golchdy diwydiannol mawr ym Mhwllheli. Ymddengys fod dod o hyd i gyflogaeth yn ne Gwynedd yn fwy cymhleth; dim ond 20% oedd wedi cyrraedd am swydd a drefnwyd ymlaen llaw ac mae'r gyflogaeth yn gyffredinol yn llai sefydlog i fudwyr yn absenoldeb prif gyflogwr gwledig.

Er bod cyfleoedd o hyd i weithwyr gwadd tymor byr yn y sector twristiaeth yng ngogledd Cymru, ac mewn ardaloedd fel Sir Benfro a Cheredigion, mae cyfleoedd i weithwyr gwadd mwy medrus wedi lleihau ers adroddiad blaenorol Arsyllfa Wledig Cymru. Yn ôl Undeb Unite, ers 2007/08, mae'r

dirwasgiad wedi lleihau cyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau megis adeiladu diwydiannol, oherwydd bod prosiectau ar raddfa fawr yn sector ynni Sir Benfro wedi dod i ben.

Gall y llwybrau mudo newydd a ddatblygwyd gan fudwyr yr A8 gymryd llwybrau hŷn a chystadlu â hwy; mae hyn yn amlwg ym Merthyr. Daeth hanner y mudwyr Portiwgeaidd a holwyd i Ferthyr am swydd a drefnwyd ymlaen llaw ac roedd pob un yn cael ei gyflogi ar hyn o bryd; fodd bynnag, yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl ehangu'r UE, nododd rhanddeiliaid lleol fod asiantaethau cyflogaeth yn newid eu canolbwynt o weithwyr Portiwgeaidd i weithwyr Pwylaidd. Er nad oeddem yn gallu cadarnhau hyn yn uniongyrchol â'r asiantaethau dan sylw, mae'n amlwg bod tensiynau rhwng y Portiwgeaid a'r Pwyliaid ym Merthyr yn parhau'n gryf. Fel y nododd un mudwr o Bortiwgal: *'Mae'r Portiwgeaid, yn hytrach na helpu a'i gwneud yn haws i'r newydd-ddyfodiaid, maent yn teimlo eu bod yn ceisio dwyn eu swyddi, felly maent yn gwneud popeth yn fwy anodd.'*

Gall newidiadau polisi hefyd effeithio ar lwybrau mudo sefydledig: dyma fu'r achos ar gyfer mudwyr Ffilipinaidd. Er bod dros hanner y grŵp a oedd wedi setlo ym Merthyr wedi cyrraedd am swydd nyrsio a drefnwyd ymlaen llaw, mae pethau wedi newid i'r newydd-ddyfodiaid. Gwnaeth cyflwyno'r system seiliedig ar bwyntiau yn 2007 bethau'n fwy anodd i nyrsys Ffilipinaidd sicrhau gwaith mewn proffesiynau gofal iechyd (Bach 2010). Mae Ffilipiniaid yn dal i ddod i Gymru i weithio, ond mae'r rhan fwyaf bellach yn cyrraedd ar fisâu myfyrwyr ac mae eu horiau gwaith wedi eu cyfyngu yn ystod y tymor. Bydd rhai hefyd wedi talu asiantaethau yn y Pilipinas am swyddi yn yr UE nad ydynt yn bodoli mwyach; pan fyddant yn cyrraedd y DU maent yn cael eu hannog i drefnu benthyciadau drud i dalu am ffioedd dysgu. Roedd llawer o'r myfyrwyr Ffilipinaidd a holwyd yn Rhondda Cynon Taf wedi canfod eu hunain yn y sefyllfa hon, a hynny'n annisgwyl. Cafwyd cwynion am y diffyg swyddi a'r cyfyngiad oriau rhan-amser; mae'r rhan fwyaf hefyd yn gweithio mewn swyddi y mae ganddynt ormod o gymwysterau ar eu cyfer.

### 4.4 Cymwysterau a Mathau o Gyflogaeth

Mae mwyafrif yr ymatebwyr Pwylaidd a Phortiwgeaidd i'r arolwg ar draws yr astudiaethau achos yn cael eu cyflogi mewn swyddi graddfa isel mewn ffatrïoedd neu yn y sector gwasanaethu. Ym Merthyr, Ynys Môn, Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan, Llanelli a'r Trallwng, roedd llawer yn cael eu cyflogi mewn ffatrïoedd prosesu bwyd mawr, gan gyfrif am hyd at 80% o gyflogaeth ymhlith yr ymatebwyr Portiwgeaidd a Phwylaidd ym Merthyr a Llanelli. Mae cyfran fwy o ymatebwyr i'r arolwg yng ngogledd Cymru yn gweithio mewn swyddi lletygarwch ac arlwyo sy'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth. Mae hyn yn gyson â'r darlun ehangach o swyddi mudwyr a ddarperir gan ddata'r WRS yn adran dau.

Roedd hunangyflogaeth yn fwy cyffredin yng Ngwynedd na'r astudiaethau achos eraill, gydag ymatebwyr yn gweithio ym maes twristiaeth yn ogystal â galwedigaethau proffesiynol fel pensaernïaeth ac ymgynghoriaeth. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig â chymeriad gwledig y

rhanbarth, gydag aneddiadau gwasgaredig a phellteroedd teithio hir yn annog patrymau o weithio gartref. Awgrymodd y cyfweleion hefyd ei bod yn dod yn gynyddol gyffredin yng ngogledd Cymru i rai busnesau twristiaeth gynnig gwaith i fudwyr ar sail hunangyflogedig am waith a oedd tan yn ddiweddar yn cael ei gynnig ar sail gyflogedig (e.e. cynnal a chadw gwestai) er mwyn lleihau costau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Fodd bynnag, ni allwn roi sylwadau ar y defnydd ehangach o arferion o'r fath yn sector twristiaeth Cymru.

Mewn ffatrïoedd prosesu cig, mae'r cyflogau ar y cyfan yn amrywio o'r isafswm cyflog ar gyfer gwaith ar y llinell gynhyrchu i tua £9.50 yr awr i gigyddion medrus. Roedd chwarter o'r ymatebwyr (dynion i gyd) yn astudiaeth achos Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan yn cael eu cyflogi fel cigyddion, gan feddu ar y cymwysterau galwedigaethol perthnasol. Roedd prinder sgiliau wedi arwain at sefydlu academi cigydd fewnol yn Llanybydder, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd dilyniant gyrfa i weithwyr mudol a gweithwyr lleol. Nodwyd hyn fel model o **arfer da** o ran gwella sgiliau'r gweithlu.

Roedd mudwyr Ffilipinaidd ym Merthyr i gyd mewn swyddi'n ymwneud ag iechyd a oedd yn cyd-fynd i raddau helaeth â'u graddau nyrsio israddedig; roedd un ymatebydd yn gweithio fel cynorthwyydd gofal iechyd, y gweddill fel nyrsys. I'r gwrthwyneb, ac er gwaethaf achosion unigol o ymatebwyr yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol (e.e. deintyddiaeth), roedd llawer o fudwyr Pwylaidd a Phortiwgeaidd oedd wedi'u haddysgu'n dda wedi cael swyddi elfennol ac yn cael yr isafswm cyflog. I'r rhan fwyaf roedd hyn wedi'i fwriadu fel cam cychwynnol ar ôl mudo. Fodd bynnag, gallai'n aml fod yn anodd gwneud cynnydd a dod o hyd i gyflogaeth yn eu swydd fedrus yn sgîl ffactorau gan gynnwys rhwystrau ieithyddol; rhwystrau o ran trosglwyddo cymwysterau i'r DU; a diffyg cyfleoedd swyddi yn y farchnad lafur yn fwy cyffredinol.


Mae rhai mudwyr wedi derbyn y sefyllfa hon yn y cyd-destun economaidd presennol; maent o'r farn bod unrhyw swydd yn well na dim swydd o gwbl yn eu mamwlad (pwynt a bwysleisiwyd gan y grŵp Portiwgeaidd ym Merthyr). Roedd eraill yn ymddangos yn fwy bodlon yn eu cyflogaeth yn y sector prosesu bwyd; yn enwedig ymatebwyr hŷn i'r arolwg a oedd yn dueddol o feddu ar gymwysterau galwedigaethol. Mae presenoldeb gweithwyr Pwylaidd hŷn yn duedd ddemograffig nodedig yn Llanelli (roedd un rhan o dair o'r ymatebwyr yma dros 45 oed) ac o bosibl mae'n ffactor sy'n cyfrannu at ddiffyg symudedd galwedigaethol ymhlith y gweithlu, gyda llawer heb sgiliau addysgol, iaith a throsglwyddadwy lefel uwch (Thompson et al., 2010).

Roedd natur y gweithlu mudol â gormod o gymwysterau yn arbennig o amlwg yn yr astudiaethau achos yng ngogledd Cymru a'r Trallwng (gweler Ffigur 4.2), lle roedd tua hanner o ymatebwyr yr arolwg yn raddedigion prifysgol ond nid oeddent yn gallu cystadlu am gronfa gyfyngedig o swyddi â chyflog uwch. Cafodd y duedd hon ei chydnabod gan un o swyddogion yr awdurdod lleol yn ardal y Trallwng: '*Rwy'n ymwybodol bod gan rai o'r rheini sy'n dod i mewn gymwysterau proffesiynol, maent*

*yn athrawon, yn gyfrifwyr, yn beirianwyr ac ati, ond nid ydynt o reidrwydd yn gweithio yn y math hwnnw o sector swydd'.* Gall menywod mudol sydd wedi'u haddysgu hefyd wynebu anawsterau penodol pan fyddant yn symud i ymuno â'u partneriaid mewn ardaloedd gwledig megis Llanybydder, gyda phrinder swyddi y tu hwnt i swyddi mewn ffatrïoedd. Ni nodwyd y mater hwn i'r un graddau yn yr astudiaethau achos eraill ond gall gyfiawnhau ymchwil bellach.

Mae rhai llwybrau gwaith newydd wedi agor o ganlyniad i'r crynodiad o grwpiau gweithwyr mudol mewn rhai rhannau o Gymru. Er enghraifft, roedd sawl ymatebydd benywaidd yn gweithio fel cynorthwywyr ystafell ddosbarth Pwylaidd mewn ysgolion lleol, gydag eraill yn gweithio i sefydliadau cymorth fel NWREN. Yn Llanelli roedd rhai cyflogwyr yn dechrau nodi'r sgiliau na wnaed defnydd ohonynt ym mhoblogaeth Bwylaidd y dref fel adnodd posibl i'r economi leol ar draws sectorau gwahanol (e.e. TG, meddygol a diwydiannau adeiladu). Fodd bynnag, byddai angen sianeli cliriach er mwyn i fudwyr medrus gofrestru eu cymwysterau a chael cymorth iaith priodol er mwyn datblygu hyn yn llawnach. Mae'r PWMA yn Llanelli yn rhoi enghraifft o **arfer da**; ar ôl helpu pobl broffesiynol ym maes iechyd i ddod o hyd i gyflogaeth yn y DU.

**Ffigur 4.2: Cymhwyster uchaf**




## 4.5 Amodau Gwaith

Ar draws mwyafrif ardaloedd yr astudiaethau achos cafwyd cynnydd nodedig o ran cyflogi gweithwyr mudol yn uniongyrchol mewn swyddi ffatri; gan symud i ffwrdd o'r ddibyniaeth flaenorol ar asiantaethau recriwtio. Roedd rhai cwmnïau prosesu megis y ffatri yn Llanybydder bellach yn defnyddio gweithwyr asiantaeth yn ystod uchafbwynt yn ystod y tymor prysur yn unig. Mae cyflogaeth uniongyrchol yn sicrhau bod gan weithwyr mudol yr un hawliau â gweithwyr eraill ac

mae'n ceisio dileu llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig ag asiantaethau o ran didyniadau cyflog, tai clwm, a chontractau dim oriau. Disgrifiodd y PWMA yn Llanelli sut, yn y blynyddoedd ar ôl ehangu'r UE, y byddai mudwyr Pwylaidd yn aml yn llofnodi contract asiantaeth yn Saesneg heb sylweddoli bod hyn yn eu hymrwymo i ddidyniadau mawr ar gyfer llety a chludiant (gweler Thompson et al, 2010). Yn yr un modd, nododd ymatebwyr i'r arolwg yn y Trallwng eu bod yn wynebu problemau'n ymwneud â chyflogaeth gan asiantaethau, o ran cymryd gwyliau a thâl goramser: '*Cyn i mi gael contract cyflogaeth roeddwn yn gweithio drwy asiantaeth ac yn cael trafferth cael fy nhalu pan oeddwn ar wyliau neu pan oeddwn yn gweithio goramser'.* Mae iaith yn amlwg yn ffactor, o ran cael mynediad i wybodaeth am hawliau cyflogaeth. Mae sefydliadau megis PWMA, Avalon Advice yng Ngogledd Cymru a Siawns Teg yn y Drenewydd wedi gweithio'n llwyddiannus tuag at addysgu mudwyr yn hyn o beth.

Er bod cyflogaeth uniongyrchol i raddau helaeth bellach yn arferol ar gyfer gweithwyr sefydledig, mae llawer o newydd-ddyfodiaid yn Llanelli yn weithwyr asiantaeth o hyd: roedd hyn yn wir ar gyfer dros bum deg y cant o'r Pwyliaid a holwyd yn y dref. Fodd bynnag, ni nododd unrhyw rai o'r gweithwyr asiantaeth presennol hyn unrhyw ddidyniadau cyflog.[14] Mae'r Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri wedi bod yn bwysig o ran dechrau rheoleiddio gweithgarwch asiantaethau cyflogaeth; er bod un o gynrychiolwyr y GLA wedi awgrymu bod asiantaethau 'twyllodrus' yn dal i weithredu ledled Cymru: '*Bydd nifer bach o unigolion eithafol na fyddant yn gwneud cais am drwydded oherwydd maent yn gwybod na fyddent yn llwyddiannus, am eu bod yn uchel o ran peidio â chydymffurfio ac ni fyddant yn cydymffurfio'*.

Mae ansicrwydd ynghylch swydd yn broblem gyffredin o hyd i weithwyr asiantaethau a gweithwyr uniongyrchol (gweler y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2012). Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffatrïoedd Llanybydder a'r Trallwng wedi nodi bod ganddynt gontractau parhaol neu benagored, gallai oriau ac enillion wythnosol fod yn amrywiol iawn yn sgîl y galw tymhorol. Mae'r dirywiad economaidd hefyd wedi gweld arferion cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag asiantaethau yn cael eu mabwysiadu gan ffatrïoedd lleol, gyda chynnydd mewn contractau dim oriau ym Merthyr a Llanelli. Er enghraifft, Pan fydd ffatrïoedd yn gweithio'n ddi-baid, bydd mudwyr yn oriau hir saith diwrnod yr wythnos bydd perygl o golli eu swyddi. Ar adegau eraill, pan fydd archebion yn brin, caiff gweithwyr eu hanfon adref heb gyflog a dim gwybodaeth ynghylch pryd y byddant yn gweithio eto. Mae'r trefniadau contract newydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gyflogwyr ar draul gweithwyr, gan ddangos natur newidiol y problemau y mae mudwyr economaidd yn eu hwynebu yng Nghymru. Os bydd gweithiwr yn cael ei osod ar oriau cyfyngedig ar fyr rybudd yn aml ni all hawlio budd-

[14]Mae cyflwyno'r Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth (AWR) ym mis Hydref 2011 yn ddatblygiad deddfwriaethol pwysig i wella sefyllfa gweithwyr asiantaeth. Roedd y ddeddfwriaeth dim ond wedi bod yn ei lle am ychydig fisoedd cyn yr ymchwil maes felly roedd yn anodd asesu ei heffaith. Fodd bynnag, cafwyd enghraifft o adborth gan gyflogwyr o reolwr adnoddau dynol ffatri prosesu cig fawr a ragwelodd er eu bod eisoes yn cynnig mwyafrif yr hawliadau a amlinellir yn y rheoliadau i'w staff asiantaeth, byddai effaith fwy ar gystadleuwyr yn y sector a oedd yn cynnig prisiau rhatach drwy weithredu'n anghyfreithlon a/neu'n anfoesegol.

daliadau, hyd yn oed os gall droi at arian cyhoeddus, oherwydd rhaid iddo gael ei gyflogi am gyfnod hwy. Yn y sefyllfa hon, mae arian yn aml yn cael ei ymestyn rhy bell, gan arwain at beidio â thalu biliau a throi at fenthycwyr ar garreg y drws. Gall yr ansefydlogrwydd economaidd hwn beri problemau yn arbennig pan fydd gan weithwyr deulu i'w gefnogi yng Nghymru.

Mae'r ffaith bod llafur mudol ar gael yn hawdd ers ehangu'r UE wedi lleihau gallu'r gweithwyr presennol i fargeinio. Roedd hyn yn amlwg yng ngogledd Cymru o ran arferion cyflogwyr sy'n ymwneud ag aelodaeth o undeb, fel y nododd un rhanddeiliad: *'Roedd cryn dipyn o weithwyr Portiwgeaidd yn y diwydiant bwyd a gwnaethant ymuno ag undeb, ac ar y pwynt hwnnw cafwyd gwared ar bob un ohonynt a dechreuwyd defnyddio gweithwyr Pwylaidd.'* Felly i raddau helaeth mae ffatrïoedd prosesu bwyd yn yr ardaloedd astudiaeth achos gwledig (Gogledd Cymru, y Trallwng, a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan) wedi aros yn weithleoedd lle nad yw'r gweithwyr yn aelodau o undebau. Awgrymodd un o gynrychiolwyr Unite fod gweithwyr mudol erbyn hyn, yn hytrach na bod yn destun gwahaniaethu ar sail hil, yn wynebu llawer o'r un problemau â gweithwyr o Gymru a Lloegr gyda chyflogwyr yn darparu'r isafswm cyfreithiol o ran cyflog a buddion.

Nododd nifer uchel (un rhan o dair) o ymatebwyr Pwylaidd yn Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan eu bod wedi wynebu rhyw fath o broblem neu wahaniaethu yn gysylltiedig â gwaith, gyda sawl ymatebydd yn nodi problemau cyfathrebu gan gynnwys cam-drin geiriol gan gydweithwyr. Arweiniodd hyn at un ymatebydd yn colli gwaith oherwydd iselder, a wynebodd eraill broblemau iechyd corfforol o ganlyniad i'r amgylchedd gwaith is na'r rhewbwynt. Cafwyd disgrifiad manwl gan un ymatebydd benywaidd o '*ddiwylliant o ddefnyddio a chamddefnyddio gweithwyr Pwylaidd fel llafur rhad'* yr oedd wedi ei weld pan oedd yn gweithio mewn ffatri prosesu cig, gan gynnwys bwlio gan ei goruchwyliwr. Nododd sawl ymatebydd arall broblemau o ran ymddygiad goruchwylwyr sifftiau; mater a amlygwyd yn yr un modd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2012).

Gwnaeth y grŵp iau o fudwyr A8 ac A2 yn ne Gwynedd hefyd brofi achosion uwch o broblemau yn y gweithle yn ymwneud ag iaith, diffyg hyfforddiant ar gyfer swyddi anodd a pheryglus, a pheidio â chael tâl am absenoldeb oherwydd salwch. Mae swyddi yn sector lletygarwch ac arlwyo'r rhanbarth wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r bygythiad o fudwyr yn colli eu gwaith neu wynebu cwtogi o ran eu horiau. Fel y nododd un rhanddeiliad: '*O ganlyniad i'r dirywiad economaidd mae llawer o gyflogwyr wedi torri yn ôl ar staffio; mae oriau wedi'u gostwng yn y diwydiannau gwesty ac arlwyo'*.

### 4.6 Iaith

Hyfrededd iaith yw un o'r prif ffactorau sy'n strwythuro ac yn penderfynu ar y math o gyflogaeth y mae gweithwyr mudol yn mynd iddo pan fyddant yn symud i Gymru, ac erys yn rhwystr nodedig i gynnydd a symudedd galwedigaethol. Er bod gan lawer o fudwyr sydd wedi cael addysg lefel dda o

Saesneg, efallai na fydd hyn hyd yn oed yn ddigonol i sgwrsio yn iaith dechnegol eu galwedigaeth fedrus e.e. cyfrifyddiaeth, pensaernïaeth, meddygaeth neu addysgu, er mwyn cael swydd. At hynny, nododd staff y Ganolfan Waith nad yw cymwysterau galwedigaethol a ddelir gan fudwyr ar gyfer rhai swyddi (e.e. trydanwr) yn trosglwyddo'n syml i'r DU ac mae ailhyfforddi yn angenrheidiol. Mae rhywfaint o gyllid ar gael drwy Working Links i gynorthwyo'r gofyniad hwn.

Mae ymdrechion gan gyflogwyr mawr i dderbyn eu gweithlu mudol drwy gyfieithu arwyddion a dogfennau yn cael eu gwerthfawrogi gan weithwyr, ond gall hefyd fod yn niweidiol i ddatblygu sgiliau iaith ac integreiddio cymdeithasol. Er enghraifft, roedd y ffatri prosesu cig yn Llanybydder wedi cyfieithu'r holl waith papur sefydlu, arwyddion a gwybodaeth am iechyd a diogelwch i Bwyleg, yn ogystal â sicrhau bod goruchwylwyr oedd yn siarad Pwyleg ym mhob sifft. I'r gwrthwyneb, gall y mesurau hyn atal pobl rhag dysgu Saesneg a gallu cyfathrebu â chydweithwyr o wahanol genhedloedd eraill. Mewn mannau eraill, cafwyd adroddiadau o ffatrïoedd prosesu bwyd ym Merthyr a oedd yn gwahanu gweithwyr ar linellau cynhyrchu yn ôl cenedligrwydd, sydd yn yr un modd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd mudwyr yn dysgu iaith arall ac yn integreiddio. Mae problemau o ran iaith hefyd yn creu problemau mwy peryglus yn y gweithle sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, a hylendid. Mae rhai ffatrïoedd lleol wedi cydnabod y problemau hyn ac wedi dechrau defnyddio cyfieithwyr.

Yng Ngwynedd yn enwedig, ond hefyd yn Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan, gallai'r Gymraeg gyfyngu ymhellach ar gyfleoedd i weithwyr mudol mewn rhai swyddi fel addysgu, gwaith gofal a hunangyflogaeth. Awgrymodd y rhai a oedd yn gweithio ar y sail olaf ei bod yn anodd i fudwyr gael cleientiaid mewn cymunedau bach: '*Cymraeg yw'r iaith gyntaf ac os nad ydych yn ei siarad, nid ydych yn bodoli.*' Mae llawer o fudwyr wedi symud ymlaen o ogledd Cymru i Loegr i chwilio am waith lle mae sgiliau Saesneg yn fwy defnyddiol, ond hefyd mewn rhai achosion am, '*nad ydynt am i'w plant ddysgu Cymraeg, neu maent yn gweld y bydd y plant yn cael dyfodol gwell yn Lloegr'* (Rhanddeiliaid yng Ngogledd Cymru).

## 4.7 Crynodeb

Mae'r bennod hon wedi amlygu materion sy'n ymwneud ag iaith fel rhwystr parhaol i symudedd galwedigaethol. Bydd llawer o fudwyr wedi cymryd swyddi graddfeydd isel mewn gweithgynhyrchu neu swyddi sector gwasanaethu fel cam cyntaf i fudo i'r DU. Fodd bynnag, mae eu cynnydd i waith o statws uwch / sy'n talu'n well yn aml yn cael ei atal. Mae hyn wedi arwain at gamgyfatebiaeth sgiliau sylweddol, o ran cymwysterau a ddelir gan lawer o weithwyr mudol a'r rolau swyddi y maent yn eu cyflawni yng Nghymru.

Cafwyd rhai gwelliannau nodedig mewn amodau cyflogi i weithwyr mudol, sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn deddfwriaeth ond hefyd symudiad tuag at fudwyr tymor hwy ('ymfudwyr') yn cael

ffres a mabwysiadu arferion arbed costau megis contractau dim oriau yn ystod y dirwasgiad. Gall hyn beri problemau arbennig a chreu sefyllfa ansefydlog i fudwyr a chanddynt deulu i'w gefnogi yng Nghymru. Gall diffyg darpariaeth y wladwriaeth ar gyfer mudwyr agored i niwed yn ystod blwyddyn gyntaf eu cyflogaeth, ac anawsterau o ran asesu hawliadau budd-daliadau i eraill, olygu bod mudwyr yn mynd i ddyledion difrifol.

## 5.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn archwilio twf busnesau ac entrepreneuriaeth fudol fel tuedd sydd wedi dod i'r amlwg ers adroddiad mudol blaenorol Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008. Mae'n archwilio'r cyfraniad economaidd-gymdeithasol y mae busnesau mudol yn ei wneud i'w hardaloedd astudiaeth achos priodol. Cyfwelwyd ag entrepreneuriaid mudol mewn tair ardal astudiaeth achos: Merthyr, Gogledd Cymru a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan.[15] Archwilir cymhelliannau perchnogion busnes ac unrhyw heriau y maent wedi'u hwynebu.

## 5.2 Busnes ac Entrepreneuriaid Mudol

*Merthyr:* Dros y degawd diwethaf cafwyd buddsoddiad sylweddol yng nghanol tref Merthyr ac o'i hamgylch, gyda pharc manwerthu a chanolfan hamdden newydd yn agor, a nifer o fusnesau newydd a redir gan entrepreneuriaid Asiaidd. Mae nifer y busnesau Pwylaidd a Phortiwgeaidd hefyd wedi cynyddu gan gynnwys siopau, bwytai a gorsaf radio Bwylaidd, ochr yn ochr ag enghreifftiau eraill o newid yn y dref, gan gynnwys gwyliau cerddoriaeth newydd a digwyddiadau diwylliannol.

[15] Yn astudiaeth achos y Trallwng roedd tystiolaeth gyfyngedig o weithgarwch entrepreneuraidd, a'r unig fusnes stryd fawr oedd siop fwyd Bwylaidd a agorwyd yn ystod 2012 gan bâr Pwylaidd ifanc. Fodd bynnag, roedd problemau iaith a chyfyngiadau amser yn rhwystrau i drefnu cyfweliad.

Mae'r gystadleuaeth am y bunt Bwylaidd yn gryf ym Merthyr. Mae Tesco yn stocio amrywiaeth cynyddol o gynnyrch Pwylaidd ac mae'n rhaid i entrepreneuriaid Pwylaidd addasu eu hamrywiaeth o gynnyrch yn rheolaidd er mwyn cadw cwsmeriaid ac aros mewn busnes.

*Gogledd Cymru:* Er gwaethaf y boblogaeth fudol amrywiol yn nhref prifysgol Bangor, tan yn gymharol ddiweddar prin oedd arwyddion yr amrywiaeth cosmopolitan hwn ar strydoedd Bangor. Er bod y sefyllfa economaidd wedi ei gwneud yn anodd iawn i fusnesau lleol yn enwedig busnesau mudol, ymddengys fod pethau'n dechrau newid. Y tu allan i ganolfannau poblogaeth mawr mae'n fwy anodd i entrepreneuriaid sy'n fudwyr sefydlu busnes. Ledled gogledd Cymru, mae mudwyr ar y cyfan wedi'u gwasgaru'n denau iawn ar draws y rhanbarth mewn cymunedau a phentrefi bach. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i entrepreneuriaid mudol sefydlu siopau a busnesau eraill y stryd fawr.

*Llanybydder/ Llanbedr Pont Steffan:* Fel pentref gwledig gyda nifer cymharol fach o siopau a mentrau, y busnes mwyaf amlwg sy'n cael ei redeg gan fudwr yn Llanybydder yw'r siop fwyd Bwylaidd ‘Majka’. Agorwyd y siop hon ym mis Rhagfyr 2007 gan fudwr benywaidd Bwylaidd a oedd wedi bod yn gweithio yn y gwaith prosesu cig. Ers hynny mae wedi agor ail siop fwyd Bwylaidd yn Aberystwyth. Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod mwy o dystiolaeth o weithgarwch entrepreneuraidd (busnesau symudol yn bennaf) yn digwydd yn Llanbedr Pont Steffan nag yn Llanybydder; o bosibl o ganlyniad i'r sylfaen cwsmeriaid ehangach a hefyd i ffwrdd o'r gyflogaeth strwythuredig a ddarperir gan ffatri prosesu cig Llanybydder.

## 5.3 Dechrau Busnes

Ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos, roedd mwyafrif yr entrepreneuriaid Portiwgeaidd a Phwylaidd y cyfwelwyd â hwy wedi'u cymell i fynd i fusnes oherwydd natur eu gwaith mewn ffatrïoedd prosesu bwyd lleol. Gyda chyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu i gyflogaeth sy'n fwy addas i'w sgiliau, i raddau helaeth penderfynasom greu eu llwybrau gyrfa eu hunain. Fodd bynnag, gyda llawer o'r rhai y cyfwelwyd â hwy yn gweithio oriau hir, mewn dwy neu dair swydd, dros lawer o fisoedd i gynilo'r arian i fynd i mewn i fusnes nid yw hwn yn llwybr sy'n hawdd i'r rhai sydd â theulu neu ymrwymiadau gofalu.

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid lleol mai entrepreneuriaeth mudol oedd canlyniad rhesymegol cynnydd yn y galw ymhlith gweithwyr mudol am gynnyrch o'u mamwlad. Fodd bynnag, roedd cymhelliannau mudwyr yn dueddol o fod yn fwy cymhleth. Er enghraifft, sefydlodd rhai mudwyr yng ngogledd Cymru fusnesau symudol fel trin gwallt, gwasanaethau cyfieithu, adeiladwyr a phlastrwyr. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r marchnadoedd arbenigol ar gyfer y mathau hyn o fusnes yn gystadleuol iawn, gyda mudwyr yn aml yn mynd i mewn i'r math hwn o fenter i ategu incwm o nifer o swyddi eraill. Fel y nododd cyfwelai: ‘*Nid ydych yn driniwr gwallt symudol am eich bod am fod yn driniwr gwallt symudol, rydych yn driniwr gwallt symudol am nad oes gennych unrhyw ddewis arall.’*

Mae dechrau busnes yng Nghymru yn gam mawr i'r rhai nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg na Saesneg iaith gyntaf, a all wynebu rhwystrau sylweddol o ran mynediad i wybodaeth, cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chodi cyllid. Mae'r costau dechrau busnes yn rhai a allai atal llawer o fudwyr sy'n wynebu gwahanol fathau o allgau ariannol (e.e. anallu i ddarparu hanes credyd; rhaid profi cyfnod preswyl o dair blynedd i gael benthyciad banc). Roedd rhai o'r entrepreneuriaid wedi cael gwahanol fathau o gyngor a chymorth ar draws yr astudiaethau achos, gan gynnwys menter gymdeithasol yng ngogledd Cymru a Merthyr, yr Undeb Credyd yn Llanelli, a Menter a Busnes yn Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan. Nododd entrepreneuriaid mudol ym Merthyr fenter gymdeithasol y Bont fel enghraifft benodol o **arfer da** (gweler Atodiad 5). Fodd bynnag, ymddengys fod y mathau hyn o gymorth yn amrywiol.

Gwnaeth un actifydd cymunedol amlwg ym Merthyr grynhoi'r cymorth ymarferol a ddarperir i entrepreneuriaid mudol: *'Byddwn yn eu cyfeirio at fannau lle gallent gael cyngor busnes. Ond yna'r pethau bob dydd fel 'Does gen i ddim llungopïwr', 'Mae angen i mi lunio bwydlen', 'Does gen i mo'r sgiliau cyfrifiadurol'… Gallem helpu gyda'r mathau hynny o bethau'.* Nid oedd y cymorth sefydliadol ar gael mor hawdd yn astudiaeth achos Llanybydder / Llanbedr Pont Steffan. Yma roedd perchennog y siop Bwylaidd yn gallu goresgyn problemau cychwynnol gyda dod o hyd i offer drwy siarad â phobl leol oherwydd ei lefel dda o Saesneg. Yn ogystal â buddsoddi ariannol, mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn hanfodol i entrepreneuriaid mudol o ran cael gafael ar wybodaeth ac i weinyddu busnes.

### 5.4 Cyfraniad economaidd-gymdeithasol

Er gwaethaf problemau achlysurol gyda phobl leol, mae canfyddiad clir ymhlith rhanddeiliaid lleol bod busnesau mudol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i ailddatblygu ac adfywio economaidd-gymdeithasol Merthyr. Fel y disgrifiodd un rhanddeiliad, *'Mae'n fwy amlddiwylliannol… mae pobl yn gyffrous o weld newidiadau yn y bwydydd y gallant eu blasu a'r profiadau bwyta y gallant eu cael.'* Mae rhai entrepreneuriaid mudol llwyddiannus wedi llwyddo mewn gwobrau busnes lleol dros y blynyddoedd diwethaf ac maent bellach yn cael eu cynnwys mewn rhwydweithiau busnes a llywodraeth yn lleol.[16] Serch hynny, roedd y mudwyr sy'n entrepreneuriaid y cyfwelwyd â hwy ym Merthyr yn ymwybodol o broblemau integreiddio gwahanol grwpiau diwylliannol, ac maent yn gweithio'n galed i ddod o hyd i atebion. Fodd bynnag, wrth i'r argyfwng economaidd ddyfnhau gall tensiynau cudd ddod i'r golwg yn gyflym, gyda chyfweleion yn nodi sut y gall anghydfod bach rhwng pobl leol a busnes mudol droi'n fater mwy.

[16]Gweler: www.merthyrbusinessclub.co.uk/index.php/business-awards

Mae gweithgarwch entrepreneuraidd wedi bodi yn fwy cyfyngedig yn yr astudiaethau achos gwledig. Mae dynameg gwahanol yn amlwg mewn gwahanol fannau gwledig, gyda sail gwsmeriaid ehangach ymhlith cwsmeriaid 'cosmopolitan' trefi prifysgol Bangor ac Aberystwyth, ond mae siopau Pwylaidd yn Llanybydder a'r Trallwng yn parhau'n fentrau cymharol arbenigol sy'n targedu'r gymuned fudol. Ar yr un pryd, maent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr am y nwyddau y maent yn eu darparu ac fel mannau cymdeithasol. Mae'r perchennog siop yn Llanybydder wedi dod yn ffigur amlwg yn lleol yn absenoldeb arweinwyr cymunedol Pwylaidd eraill.

Mae masnach dwristaidd Gogledd Cymru yn dibynnu'n fawr ar lafur mudol, gan gynnwys diwydiannau awyr agored (e.e. gwyliau gweithgareddau tywys) lle mae gwybodaeth leol yn hanfodol. Er bod rhai mudwyr wedi'u synnu gan arferion o'r fath, siaradodd eraill am ddatblygu Gogledd Cymru mewn ffyrdd newydd ac arloesol; gan weld yr ardal yn wahanol iawn i bobl leol o ran y defnydd o'r tir a gwerth amwynder. Yn debyg i Ferthyr, mae entrepreneuriaid cymdeithasol yn bwysig yn y cyd-destun hwn ac roedd **arfer da** yn cynnwys sefydlu menter farchnata gydweithredol, lle gallai datblygwyr cymunedol hunangyflogedig rannu costau a chefnogi ei gilydd. Er nad yw pob aelod o'r fenter gydweithredol yn fudwyr, mae'n dwyn ynghyd sgiliau a gwybodaeth i helpu i hwyluso cadernid lleol a ffyrdd cynaliadwy o weithio.

## 5.5 Crynodeb

Mae'r bennod hon wedi nodi enghreifftiau o fusnesau mudol llwyddiannus a mentrau arfer da i'w hategu. Mae'r amodau a'r dulliau cymorth ar gyfer meithrin gweithgarwch entrepreneuraidd yn amrywiol ar draws yr astudiaethau achos, gyda menter gymdeithasol yn chwarae mwy o rôl ym Merthyr o gymharu ag ardaloedd gwledig. Gall ardaloedd gwledig hefyd fod yn brin o'r màs critigol i gefnogi cynnydd yn nifer y mentrau busnes newydd. Mae iaith, gofynion cyfreithiol a chostau dechrau busnes wedi'u nodi fel rhwystrau i entrepreneuriaeth i lawer o fudwyr, yn ogystal â'r ymrwymiad amser sy'n ofynnol ar ben ymrwymiadau teulu/gofal.

# ADRAN 6: GWASANAETHAU AC ADDYSG

## 6.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn archwilio pwysau a goblygiadau mudo rhyngwladol ar wasasnaethau cyhoeddus, a sut y mae awdurdodau cyfrifol yw mynd i'r afael â'r materion hyn. Gyda rhai gweithwyr mudol yn dewis setlo yng Nghymru, mae addysg yw faes allweddol lle y mae rhai o'r heriau hyn wedi dod i'r amlwg. Bydd y bennod hon yn dechrau gyda thrafodaeth fer ar ryngweithiadau teuluoedd mudol ag iechyd a thai, cyn canolbwyntio'n fwy helaeth ar wasanaethau addysg

Rhoddir y drafodaeth hon yn ei chyd-destun gyda data ar ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf a gasglwyd drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Mae hyn yn cofnodi disgyblion o amrywiaeth o wahanol gefndir ethnig y mae angen cymorth addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol arnynt. Efallai y bydd rhai dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol mewn lleoliadau dysgu Cyfrwng Cymraeg lle bydd Cymraeg fel iaith ychwanegol.[17] Yna archwilir y materion allweddol sy'n deillio o nifer cynyddol y disgyblion sy'n fudwyr; gan ddefnyddio cyfweliadau rhanddeiliaid â swyddogion yr AALl ac athrawon yn yr astudiaethau achos, yn ogystal â gwybodaeth a ddarperir gan y rhai â phlant oedran ysgol a ymatebodd i'r arolwg.

## 6.2 IECHYD

Roedd90% o'r holl fudwy a holwyd wedi cofrestru gyda meddyg teulu lleol; i raddau helaeth, roedd y rhai nad oeddent wedi cofrestru yn newydd-ddyfodiaid yn ystod y chwe mis diwethaf. Mae hyn yn dilyn ymdrechion gan awdurdodau lleol i annog yr arfer hwn (am nad yw'n ofyniad yng Ngwlad Pwyl). Er enghraifft, gweithiodd BILI Hywel Dda gyda'r PWMA yn Llanelli i baratoi taflenni Pwyleg-Saesneg dwyieithog a llinell iaith ddwyieithog ar gyfer ymgynghoriadau o bell. Ar draws yr astudiaethau achos, cofnodwyd cyfraddau cofrestru o 100% ymhlith y Ffilipiniaid a holwyd ym Merthyr a'r Pwyliaid yn y Trallwng a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan; gyda'r ffatri prosesu cig yn yr olaf yn chwarae rhan weithredol o ran annog ei gweithwyr i gofrestru.

Roedd yn ymddangos bod dod o hyd i ddeintydd, boed hwnnw'n ddeintydd y GIG neu fel arall, yn peri mwy o broblemau. Nodwyd hyn yn arbennig yn rhanbarth Gogledd Gwynedd, lle roedd ymatebwyr wedi aros sawl blwyddyn am apwyntiad cychwynnol. Cafodd cyfraniad mudwyr Pwylaidd medrus—meddygon teulu a deintyddion—ei gydnabod gan randdeiliaid fel un pwysig o ran llenwi prinder sgiliau yn y GIG ac ar gyfer sicrhau bod y gymuned Bwylaidd ehangach yn ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny.

---

[17] Mae ‘Cymraeg fel iaith ychwanegol’ yn gwahaniaethu'r dysgwyr hyn oddi wrth siaradwyr Saesneg iaith gyntaf mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Roedd y farn yn amrywio o ran gwerth gwasanaethau'r GIG, gyda chanfyddiadau negyddol yn aml yn deillio o gamddealltwriaeth drwy rwystrau iaith. Cafwyd adroddiadau o ddigwyddiadau ym Merthyr lle rhagnodwyd cyffuriau, triniaeth a hyd yn oed llawdriniaethau i fudwyr ar gyfer cyflyrau nad ydynt yn eu deall yn llawn. Ar y llaw arall, cafwyd adroddiadau o fudwyr nad oeddent yn cael y driniaeth angenrheidiol oherwydd cyfieithu aneffeithiol. Yn gyffredinol, nid oes gan fyrddau iechyd gyllidebau cyfieithu dynodedig ac felly byddai'n rhaid i adrannau unigol dalu am y gwasanaethau hyn.

O ganlyniad, mae'r ddibyniaeth ar blant neu, yn llai aml, staff mudol heb eu hyfforddi (e.e. glanhawyr ysbytai) i gynorthwyo â chyfieithu yn duedd beryglus ar draws yr astudiaethau achos, yn enwedig wrth ymdrin â chyflyrau meddygol sensitif a chymhleth gan gynnwys iechyd meddwl. O ran yr olaf, cafwyd sylwadau am gael mynediad priodol gan randdeiliaid gan gynnwys NWREN yng ngogledd Cymru fel her ddifrifol i weithwyr mudol, sy'n wynebu llawer o bwysau seicolegol sy'n gysylltiedig â byw oddi cartref. Nodwyd bod rhai Pwyliaid yn dychwelyd i Wlad Pwyl yn rheolaidd i gael archwiliadau, neu maent yn defnyddio gwasanaethau cwnsela ar-lein yng Ngwlad Pwyl drwy Skype.

Oherwydd bod proffil demograffig mudwyr yr A8 wedi newid tuag at fwy o fenywod a theuluoedd, mae sicrhau mynediad i wasanaethau iechyd diogel a phriodol wedi'i amlygu fel gofyniad parhaus gan randdeiliaid ledled Cymru (a Chymru wledig yn enwedig). Nododd un o swyddogion BILl Hywel Dda sut y daeth y gofyniad hwn yn amlwg sawl blwyddyn yn ôl : '*roedd gennym ardaloedd gyda menywod a oedd ar fin rhoi genedigaeth yn dod i mewn ac nid oeddem yn gwybod dim am eu hanes meddygol'.* Roedd sawl un o ymatebwyr y Trallwng wedi rhoi genedigaeth ers byw yn y DU ac amlygwyd bod darparu cymorth iaith yn ystod beichiogrwydd yn hanfodol. Yn ogystal â gofal sylfaenol ac eilaidd, mae ffactorau economaidd-gymdeithasol megis tai ac iechyd gwael sy'n gysylltiedig ag incwm isel yn gallu cyfrannu at lefelau uchel o salwch ymhlith teuluoedd mudol.

### 6.3. Tai

Roedd tai wedi bod yn broblem yn ystod y don gychwynnol o fudo'r A8 i Gymru, gydag asiantaethau cyflogaeth yn trefnu tai amlfeddiannaeth o safon wael i newydd-ddyfodiaid (Spencer, 2007). Roedd rhai newydd-ddyfodiaid a holwyd sy'n byw yn Llanelli a Gogledd Cymru yn byw mewn llety a ddarparwyd gan gyflogwyr; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o fudwyr yn symud ymlaen yn gyflym i lety preifat i'w rentu ar ôl iddynt setlo. Mae materion â llety sy'n gysylltiedig ag asiantaethau wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd bod gwybodaeth a phrofiad yn cael ei throsglwyddo mewn cymunedau o fudwyr. Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r cyfnod preswyl yng Nghymru, hawsaf yw dod o hyd i lety o safon well, oherwydd bod mudwyr yn gallu darparu geirdaon gan gyflogwyr a datblygu rhwydweithiau cymorth cryfach.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg ar draws yr astudiaethau achos yn byw mewn tai neu fflatiau rhent. Mae gofynion tai mudwyr yr A8 wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf mewn ardaloedd megis y Trallwng a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan; gyda'r newid o weithwyr gwrywaidd unigol yn byw mewn tai amlfeddiannaeth tuag at rentu tai maint teulu yn breifat (yn agos i gyfleusterau ysgol yn ddelfrydol). Prin iawn oedd yr ymatebwyr a oedd yn byw mewn tai cymdeithasol oherwydd bod y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio. Roedd rhai mudwyr mwy hirsefydlog yn berchen ar eu tai eu hunain, gyda hyn fwyaf cyffredin ymhlith Ffilipiniaid ym Merthyr. Fodd bynnag, gall newydd-ddyfodiaid Ffilipinaidd wynebu problemau tai difrifol yn sgîl eu hanawsterau o ran sicrhau gwaith amser llawn. Mae nifer bach sy'n cyrraedd ar fisâu myfyrwyr yn ffodus i aros gydag aelodau o'r teulu; mae eraill yn byw mewn tai o safon wael yn y sector tai preifat neu lety drud a ddarperir gan sefydliadau addysgol. Mae diffyg swyddi, ynghyd â diffyg hawl i fudd-daliadau yn golygu y gall Ffilipiniaid fynd i ddyled yn hawdd a/neu fod yn ddigartref os bydd pethau'n mynd o chwith(*The Guardian*, 2011). Mae ystadegau canolfan cyngor ar bopeth yn cadarnhau bod llawer o fudwyr Ffilipinaidd yng Nghymru yn ei chael yn anodd ymdopi (CAB, 2011).

Roedd y galw cynyddol am dai rhent ymhlith mudwyr yn creu heriau newydd, gyda phrisiau rhent uwch a landlordiaid diegwyddor wedi'u nodi ym Merthyr a Llanelli. Yn astudiaethau achos gogledd Cymru a Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan roedd ymatebwyr i'r arolwg wedi wynebu problemau o ran dod o hyd i lety rhent o safon a fforddiadwy yn sgîl oedran y stoc wledig sydd ar gael. Nododd sawl ymatebydd broblemau gyda lleithder ond prisiau rhent uchel: '*Mae safon y llety yn wael mewn perthynas â'r rhent uchel y mae'r landlordiaid yn gofyn amdano'*. Un ymatebydd yn unig (yn Llanelli) nododd ei fod yn ddigartref ers cyrraedd y DU; mae hyn dipyn yn is na'r un rhan o dair o fudwyr CEE y nododd Shelter Cymru eu bod wedi wynebu rhyw fath o ddigartrefedd (2010).

## 6.4 Addysg: Niferoedd Disgyblion ac Ysgolion Lleol

**Merthyr**

Mae data CYBLD yn nodi bod nifer y disgyblion y mae angen cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol arnynt ym Merthyr wedi cynyddu o 248 yn 2008/09 (2.6% o gyfanswm poblogaeth y disgyblion) i 441 (4.8%) yn 2011/2012; gan gynnwys 69 o ddisgyblion Pwylaidd, 44 o ddisgyblion Portiwgeaidd a 25 o ddisgyblion Ffilipinaidd. Gan ddefnyddio'r data hwn, Merthyr sydd â'r pumed gyfran uchaf o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru. Cofnododd y ffigurau diweddaraf o'r awdurdod lleol ym Merthyr 274 o ddisgyblion mudol mewn ysgolion cynradd lleol, 155 mewn ysgolion uwchradd a phedwar mewn ysgolion arbennig; gyda 26 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad.

Mae llawer o fudwyr yn ceisio cael eu plant i mewn i'r ysgol sydd â'r nifer uchaf o ddisgyblion o'u mamwlad; yr ysgol Gatholig leol fel arfer. Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Mary's yn enghraifft glir o'r heriau a gyflwynir gan hyn, ar ôl wynebu newidiadau sylweddol i'w phroffil ethnig ac iaith gyntaf

dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gan yr ysgol gyfanswm o ddau gant o ddisgyblion ar hyn o bryd. Mae gan wyth deg tri ohonynt (Portiwgeaid yw'r mwyafrif, gyda rhai Pwyliaid) anghenion dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

**Gogledd Cymru**

Mae data CYBLD ar gyfer awdurdod lleol Gwynedd yn cofnodi bod 475 o ddisgyblion wedi cael cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn 2012.[18] Mae hyn yn cynnwys nifer sylweddol o ddisgyblion (69) o'r gymuned Dde Asiaidd a oedd yn cyfrif am 16.7% o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol y sir yn 2012. Mae disgyblion o wledydd A8 yn cynrychioli 8.2% o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn 2012, gyda'r mwyafrif (28 allan o 34) o deuluoedd Pwylaidd. Ceir niferoedd llai o ddisgyblion Ffilipinaidd a Phortiwgeaidd. Nodir ymhellach y nifer cymharol uchel o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol o gefndir Arabaidd - yn ymwneud â thueddiadau o ran recriwtio i ysbytai ym Mangor.

Mae nifer o gymunedau mudol wedi ymddangos o amgylch ysgolion ledled gogledd Cymru dros y degawd diwethaf, gan gynyddu pwysau ar wasanaethau addysg lleol i ddarparu adnoddau priodol ar gyfer addysgu a chymorth; mae hyn yn fwy cymhleth yng ngogledd Cymru oherwydd y galw ehangach am y Gymraeg. Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddangos eu bod yn cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg mewn ymateb i'r galw gan rieni. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, Cymraeg yw iaith yr ystafell ddosbarth ac mae unrhyw blentyn y mae angen cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol arno hefyd yn gorfod cael cymorth Cymraeg fel Iaith Ychwanegol.

**Sir Gaerfyrddin**

Cynyddodd nifer y disgyblion sy'n cael cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin o 570 yn 2009/10, i 814 yn 2011/12. Mae data gan Gyngor Sir Gaerfyrddin sy'n mynd yn ôl i 2005 yn nodi bod rhan o'r cynnydd hwn o gymunedau mudol mwy hirsefydlog: Cynyddodd disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol o wledydd De Asiaidd o 25 yn 2005 i 128 yn 2012, a Ffilipiniaid o 49 i 106. Serch hynny, daeth yr effaith fwyaf dramatig dros y blynyddoedd diwethaf o ddisgyblion Pwylaidd, gyda chynnydd deg gwaith o 30 o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn dechrau'r ysgol yn 2005 i ychydig dros 300 erbyn 2012. Mae llawer o'r cynnydd hwn mewn nifer o ysgolion Catholig yn ardal Llanelli.

Mae mwyafrif y plant Pwylaidd yn astudiaeth achos Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan yn mynd i Ysgol Bro Pedr yn Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. Mae hon yn ystod gymysg i blant rhwng tair a phedair ar bymtheg oed gyda thros 1000 o ddisgyblion. Mae'r cymorth sydd ar waith i ddysgwyr

[18] Mae data CYBLD yn cofnodi 175 o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn 2008/09. Fodd bynnag, gellir cwestiynu'r data hwn oherwydd dim ond yn 2009 y sefydlwyd y gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar draws y sir. Amcangyfrifodd y cydlynydd Saesneg fel Iaith Ychwanegol presennol fod tua 450-500 o ddisgyblion y mae angen cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol arnynt nawr, o gymharu â 350 yn 2008/09.

Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Cymraeg fel Iaith Ychwanegol (gyda'r holl blant oed cynradd yn dysgu Cymraeg) yn Ysgol Bro Pedr yn allweddol i'w phoblogrwydd ymhlith teuluoedd Pwylaidd, o gymharu ag ysgol gynradd draddodiadol y pentref yn Llanybydder. Mae nifer y disgyblion Pwylaidd yn yr ysgol wedi cynyddu'n gyflym dros y pum mlynedd diwethaf, o ffigurau sengl i tua 70 mewn ysgolion cynradd a 60 mewn ysgolion uwchradd yng ngwanwyn 2013.[19]

**Powys**

Mae data CYBLD yn nodi bod disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol ym Mhowys wedi cynyddu o 306 yn 2008/09 (1.6% o gyfanswm y disgyblion) i 403 (2.2%) yn 2011/12. Mae dadansoddiad o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol 2012 yn cofnodi 91 o ddisgyblion Pwylaidd yn y sir. O'r rhain, mae dwy ran o dair ar lefel gynradd; sy'n arwydd o blant Pwylaidd a anwyd yn y DU yn mynd i'r system ysgolion. O'i gymharu, prin yw'r disgyblion o wledydd eraill newydd yr UE, gydag 11 o ddisgyblion o wledydd yr A8 a phedwar o'r A2 yn 2012. Y prif grŵp arall yn ysgolion Powys yw disgyblion Nepalaidd o ganlyniad i gatrawd y Gurkha yn Aberhonddu, gyda 88 o ddysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn 2012.

Roedd gan bob un o'r ymatebwyr i'r arolwg yn y Trallwng blant neu, mewn un achos, wyrion a oedd yn mynd i Ysgol Fabanod Oldford lle mae nifer y disgyblion Pwylaidd wedi cynyddu o ddau ddisgybl bum mlynedd yn ôl i 20 yn 2013, sy'n cyfateb i 41% o boblogaeth yr ysgol. Mae'r cymorth a gynigir gan Ysgol Oldford wedi denu mwy o deuluoedd Pwylaidd. Mae hyn wedi arwain at bryderon o effaith creu getoau yn yr ardal hon o'r Trallwng ond mae hefyd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol o ran proffil yr ysgol.

## 6.5 Addysg: materion a heriau allweddol

Mae’r data a grynhowyd uchod yn dangos tuedd gyffredinol o nifer cynyddol o ddisgyblion o deuluoedd mudol y mae angen cymorth dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol a/neu Gymraeg fel Iaith Ychwanegol arnynt ar draws holl ardaloedd yr astudiaeth achos. Yn y Cymoedd a rhannau trefol Sir Gaerfyrddin, mae nifer y disgyblion o grwpiau mwy newydd A8/A2 wedi cynyddu ochr yn ochr â'r nifer parhaus a dderbynnir o gymunedau mudol mwy hirsefydlog. Fodd bynnag, mae cyfradd y cynnydd mewn disgyblion Pwylaidd wedi rhoi gofynion newydd ac ychwanegol ar wasanaethau cymorth presennol. Yn Sir Gaerfyrddin mae hyn wedi ei gwneud yn ofynnol targedu cymorth at ysgolion mewn trefi mwy sydd â'r nifer mwyaf o ddisgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol; heb lawer o ddarpariaeth i ysgolion gwledig anghysbell fel Llanybydder. Yn ardaloedd gwledig y gogledd a'r canolbarth, prin fu'r profiad yn y gorffennol o ddisgyblion ag anghenion Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Cymraeg fel Iaith Ychwanegol ar raddfa fawr, ac mae'n ofynnol i'r

[19] Mae data a ddarperir gan adran addysg Cyngor Sir Ceredigion yn nodi bod 102 o ddisgyblion Pwylaidd wedi cofrestru yn ysgolion Ceredigion ym mis Medi 2011, sy'n cynrychiolicynnydd pum gwaith o'r 21 yn 2007. O'r cenhedloedd A8 ac A2 eraill, dim ond chwe disgybl Hwngaraidd oedd yn ysgolion Ceredigion ym mis Medi 2011. Fodd bynnag, gallai'r ffigur hwn gynyddu yn sgîl y cynnydd diweddar mewn gweithwyr Hwngaraidd yn Llanybydder.

AALl ac ysgolion unigol ymateb ac addasu i'r sefyllfa fel y mae wedi datblygu e.e. sefydlwyd gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar draws sir Gwynedd yn 2009.

Mae materion cyffredin a heriau lleol penodol ar draws yr astudiaethau achos. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Lefelau isel o bresenoldeb:**

Roedd presenoldeb yn broblem nodedig ar lefel babanod a chynradd ym Merthyr a'r Trallwng, gyda disgyblion yn y garfan oedran hon yn dibynnu mwy ar rieni i deithio i'r ysgol ac oddi yno. Mewn nifer o achosion, daethpwyd â theulu estynedig i'r DU i gynorthwyo gyda gofal plant. Ymhlith y ffactorau eraill a oedd yn cyfrannu at absenoliaeth oedd gwyliau haf estynedig yn eu mamwlad (sy'n gyffredin ymhlith teuluoedd Pwylaidd a Phortiwgeaidd) a disgyblion yn cael eu cadw i ffwrdd o'r ysgol i helpu rhieni gydag apwyntiadau. Fel y nododd un rhanddeiliad: "*Un peth rydym wedi'i nodi yw os nad yw'r rhieni'n dysgu'r iaith mor gyflym â'r plant maent yn defnyddio eu plant fel cyfieithwyr, er enghraifft, os oes angen iddynt fynd i weld y meddyg, y deintydd neu beth bynnag, ac mae hynny'n peri problem o ran presenoldeb.'* Gall materion presenoldeb hefyd fod o ganlyniad i wahaniaethau diwylliannol; er enghraifft, pan fydd unigolyn ifanc yn sâl, bydd rhieni yn aml yn eu cadw i ffwrdd o'r ysgol am gyfnod hwy na'r 48 awr a argymhellir. Yn ogystal, nid yw plant yng Ngwlad Pwyl yn mynd i'r ysgol yn amser llawn tan eu bod yn saith oed.

**Cyrhaeddiad amrywiol:**

Roedd y cyfweleion o'r farn bod cyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion mudol yn dda ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn rhagori ar alluoedd iaith eu rhieni. Fodd bynnag, gall nifer o ffactorau effeithio'n ddifrifol ar gyrhaeddiad gan gynnwys lefel flaenorol o allu yn yr iaith Saesneg; cyflymder caffael iaith; y cymorth academaidd a bugeiliol priodol sydd ar gael; ac, yn bwysig, oedran y disgybl pan fydd yn dechrau mewn un o ysgolion y DU am y tro cyntaf. Mae'r olaf yn arbennig yn broblem pan fydd disgyblion mudol yn dechrau ar lefel uwchradd, o ran sicrhau bod eu Saesneg yn cyrraedd y lefel sydd ei hangen i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm; fel y nodwyd gan yr athro hwn yn Llanbedr Pont Steffan: '*Mae'n amrywio o fod yn rhugl i fod heb ddau air… mae'r ysgol uwchradd yn broblem oherwydd mae profiad wedi fy nysgu, ac mae ystadegau wedi dangos, po hwyraf y dônt i mewn, lleiaf yw'r cyfle fydd ganddynt o feithrin Saesneg academaidd weithredol cyn eu harholiadau*.' Ar yr un pryd, gall disgyblion CEE fod yn ddatblygedig iawn mewn mathemateg o gymharu â disgyblion Prydeinig o'r un oedran, ond eto maent yn cael eu rhoi mewn setiau is oherwydd eu Saesneg gwan.

Mae Ysgol Fabanod Oldford yn y Trallwng yn enghraifft o **arfer da** , gyda datblygiad model caffael iaith i ategu ei disgyblion Pwylaidd o oedran cynnar. Bydd disgyblion Pwylaidd sy'n dechrau'r ysgol yn dair oed yn datblygu defnydd cymdeithasol a gweithredol o Saesneg yn gyflym iawn; fodd bynnag, mae asesu a chynorthwyo caffael sgiliau Saesneg gwybyddol yn fwy heriol. Gyda phrofiad

cyfyngedig ym Mhowys wledig, edrychodd yr ysgol a'r AALl am enghreifftiau o Abertawe, Casnewydd ac, yn arbennig, Wrecsam.[20] Mae addysg Gymraeg hefyd yn defnyddio egwyddorion tebyg, y gellid ei defnyddio i ddatblygu ymagwedd sy'n seiliedig ar drochi iaith a dysgu heb wahanu. Ategir hyn gan ddysgu mewn grwpiau bach (gyda chynorthwyydd addysgu Pwylaidd) yn seiliedig ar anghenion disgyblion unigol. Er bod yr ymagwedd hon yn dal i gael ei datblygu, mae cyrhaeddiad disgyblion Pwylaidd ar y cyfan wedi bod cystal â dysgwyr cynhenid neu'n well na hwy.

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o fudwyr Pwylaidd ym Merthyr, y Trallwng, Gogledd Cymru a Sir Gaerfyrddin o'r farn bod addysg eu plentyn o safon dda. Mynegodd mudwyr Portiwgeaidd rai pryderon nad oedd eu plant yn gwneud cynnydd mor gyflym yng Nghymru; gallai hyn fod o ganlyniad i ddysgu'n cael ei ledaenu dros gyfnodau hwy yng Nghymru. Ni wnaeth unrhyw rai o'r Ffilipiniaid a holwyd ym Merthyr leisio unrhyw bryderon am yr ysgol na'r system addysg; er bod addysg uwch yn dod yn fwy o broblem.

**Defnydd o iaith frodorol:**

Ceir dadleuon ynghylch manteision defnyddio ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg yn yr ysgol. Er bod rhieni Pwylaidd, er enghraifft, yn awyddus i'w plant gael eu trochi'n llwyr yn Saesneg yn yr ysgol, cwestiynodd pennaeth Ysgol Oldford a ddylent hefyd gefnogi datblygu Pwyleg. Ym Merthyr, amlygodd un cyfwelai densiynau rhwng ysgolion a staff sydd o'r farn mai dim ond Cymraeg neu Saesneg y dylid ei siarad mewn ysgolion lleol, a'r rhai sy'n dadlau am ddarpariaeth ieithyddol ehangach. Gall y defnydd effeithio ar integreiddio, ond ceir hefyd faterion ehangach ynghylch dirywiad gallu lefel uwch ymhlith mudwyr ail genhedlaeth. Fel y nodwyd gan randdeiliad yn y Trallwng, mae hwn yn fater a allai fod ag ôl-effeithiau os bydd teuluoedd am ddychwelyd i Wlad Pwyl yn y dyfodol er mwyn mynd i'r brifysgol neu i weithio.

**Y Gymraeg a'r Saesneg:**

Yn y Gogledd yn arbennig, ond hefyd yn Llanybydder / Llanbedr Pont Steffan, mae cryfder ac uchafiaeth y Gymraeg yn cyflwyno heriau i blant mudol sy'n mynd i mewn i'r system addysg. Eto, mae oedran disgyblion yn ffactor allweddol, gyda phlant ar lefel gynradd yn dangos y gallu i gaffael Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd, gyda phlant plant hŷn yn fwy tebygol o gael trafferth. Mae nifer o Ganolfannau Cymraeg yng Ngwynedd o hyd lle mae rhai plant mudol yn cael eu hanfon am dymor i'w paratoi ar gyfer addysg Gymraeg. Er bod hyn y peri problemau mewn rhai ffyrdd, awgrymodd un rhanddeiliad eu bod yn werthfawr o ran helpu newydd-ddyfodiaid i wahaniaethu ar y dechrau rhwng Cymraeg a Saesneg; problem a nodwyd hefyd gan athrawon yn Llanbedr Pont Steffan.

[20] Aeth ysgolion â nifer mawr o blant Nepalaidd drwy broses debyg yn Aberhonddu, ond yma roedd rhwydwaith mwy datblygedig o rieni yn bodoli. Yn lle hynny, rhoddodd Wrecsam enghreifftiau o arfer da fel awdurdod lleol lled-wledig gyda phoblogaeth Bwylaidd sylweddol. Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod 3,166 o drigolion Wrecsam wedi'u geni yng ngwledydd derbyn yr UE (A8/A2).

Mae pob ysgol yng Ngwynedd yn ddwyieithog, ond eto mae llawer o deuluoedd mudol nad ydynt yn ymwybodol o rôl y Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth cyn symud i'r ardaloedd hyn. Nododd y rhanddeiliaid fod diffyg gwybodaeth a ddarparwyd i fudwyr cyn iddynt gyrraedd gogledd Cymru yn brif ffynhonnell problemau. Nododd ysgolion yn y Trallwng a Llanbedr Pont Steffan fod cyfathrebu â rheini Pwylaidd yn un o'u heriau mwyaf ac ar adegau roedd rhaid defnyddio disgyblion fel cyfieithwyr. Roedd cynorthwy-ydd ystafell ddosbarth o Wlad Pwyl yn hynod werthfawr mewn cyfarfodydd gyda rhieni ac er mwyn anfon llythyrau dwyieithog adref.

**Integreiddio:**

Mewn ysgolion cynradd, prin yw'r materion o ran integreiddio ymhlith disgyblion o wahanol genhedloedd. Fodd bynnag, nodwyd bod tensiynau hiliol yn ymddangos pan fyddai disgyblion yn symud i ysgolion mwy. Roedd hyn oherwydd pwysau cymdeithasol a chynnydd yn niferoedd a gwelededd disgyblion mudol. Yn y Trallwng nododd rhanddeiliaid fod cam-drin geiriol yn fwy cyffredin pan fyddai disgyblion yn symud o Ysgol Fabanod Oldford i Ysgol Iau Maesydre. Mae dynameg y trosglwyddo hwn o'r babanod i'r ysgol iau yn benodol i ardal y Trallwng, gyda disgyblion mewn mannau eraill â phoblogaeth Bwylaidd fawr megis Llanybydder yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd pan fyddant ychydig bach yn fwy aeddfed yn un ar ddeg oed.

Gall problemau rhwng disgyblion adlewyrchu agweddau ac amgylchiadau rhieni, fel y gwelwyd yn y Trallwng lle roedd proffil newidiol Ysgol Oldford wedi creu tensiynau gyda'r gymuned leol. Mae Ystad Oldford yn ardal Cymunedau yn Gyntaf hirsefydlog, lle mae problemau economaidd-gymdeithasol blaenorol wedi cael effaith negyddol ar ganfyddiadau o'r teuluoedd Pwylaidd economaidd weithgar sy'n symud i mewn. Fodd bynnag, pwysleisiodd y pennaeth gyfraniad y teuluoedd hyn o ran sicrhau cynaliadwyedd yr ysgol: '*Roedd yn rhaid i mi gael cyfarfod ac esbonio i'r rhieni y byddai'r ysgol yn cael ei chau oni bai am y gymuned Bwylaidd. Ni fyddai'n bodoli.'*

**Cymorth ac adnoddau:**

Ar draws yr holl astudiaethau achos, nodwyd problemau o ran nifer y staff cymorth penodol Saesneg fel Iaith Ychwanegol mewn ysgolion ac sy'n gweithredu ar draws y sir. Mae hyn yn cael ei ddwysáu gan natur y cymorth sydd ei angen sy'n ddwys o ran amser, fel y nodwyd gan athro Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn Llanbedr Pont Steffan: *'Rhaid i chi dalu sylw manwl i'r holl blant rydych yn eu monitro, yr holl ganlyniadau drwy'r amser, yn ogystal ag addysgu, yn ogystal â gwneud popeth arall. Mae'n ddi-baid; mae'n swydd fugeiliol hefyd'.* Ym Merthyr a Llanelli, mae crynodiad cymharol disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol wedi ei gwneud yn haws ymateb i ryw raddau, o ran cyfiawnhau cyflwyno athrawon, cynorthwywyr addysgu a rheini sy'n gwirfoddoli sy'n siarad Portiwgaleg neu Bwyleg i gefnogi nifer mawr o ddisgyblion mewn un ysgol.[21]Ac mae natur

[21] Ers dechrau 2013, mae Estyn, y corff arolygu addysg, wedi ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol Merthyr wella'r cymorth a ddarperir i ysgolion sy'n cael trafferthion yn fwy eang. Mae'r AALl yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy

wledig yn cyflwyno heriau penodol o ran darparu cymorth digonol i ysgolion sydd wedi eu gwasgaru'n eang. Dyma'r achos ym Mhowys lle, yn ogystal â chlystyrau o ddisgyblion mewn trefi fel y Trallwng, amcangyfrifodd rhanddeiliad ym maes addysg fod gan bum deg y cant o ysgolion y sir o leiaf un disgybl Saesneg fel Iaith Ychwanegol. Mae materion tebyg yn amlwg ledled rhanbarth gogledd Cymru, gyda galwadau ychwanegol yn ymwneud â darpariaeth Cymraeg fel Iaith Ychwanegol. Yma nododd rhanddeiliaid sut y bydd rhai athrawon Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn teithio i ysgolion niferus ar draws ardal eang yn wythnosol yn sgîl diffyg cyllid a chymorth. Mae'r gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng Ngwynedd yn aml yn prynu i mewn athrawon Saesneg fel Iaith Ychwanegol o Gonwy sy'n siarad Pwyleg. Mae gwasanaethau eraill Saesneg fel Iaith Ychwanegol yng ngogledd Cymru yn ceisio cymorth o Loegr.

Yn wahanol i awdurdodau addysg trefol mwy, mae siroedd gwledig wedi wynebu diffyg dulliau cymorth blaenorol (gyda hanes cyfyngedig o boblogaethau lleiafrifoedd ethnig) neu dimau o staff cymorth yr awdurdod lleol wrth ymateb i newidiadau cyflym yn eu poblogaethau disgyblion dros y degawd diwethaf. Cydnabu rhanddeiliaid fod yn rhaid i atebion fod yn 'lleol' ac yn benodol i gyd-destun: '*Onid dyna'r darlun gwledig… Mae ganddo ei heriau ond rhaid i'r atebion fod yn lleol, nid oes gennyf amheuaeth ynglŷn â hynny. Rydym yn rhy amrywiol fel sir i gynnig unrhyw beth canolog. '* Mae crynodiad un grŵp ethnig (h.y. Pwylaidd) mewn ysgolion yn y Trallwng ac yn Llanbedr Pont Steffan, er eu bod yn achosi problemau mewn ffyrdd eraill, wedi galluogi prynu adnoddau penodol yn yr iaith honno.

## 6.6 Crynodeb

Mae galwadau ar wasanaethau wedi newid ynghyd â'r demograffig mudol sy'n newid tuag at grwpiau teuluol. Mae'r angen am lety rhent maint teulu wedi amlygu diffygion yn ansawdd y stoc tai gwledig presennol, ac mae sicrhau cymorth ieithyddol er mwyn i deuluoedd mudol allu cael mynediad diogel i ofal iechyd yn ofyniad parhaus. Mae cefnogi iechyd meddwl gweithwyr mudol hefyd wedi'i gydnabod fel mater allweddol y mae angen rhoi sylw iddo.

Gyda nifer cynyddol o ddisgyblion o gefndir mudol yn mynd i'r system addysg yng Nghymru, mae ysgolion yn wynebu nifer o heriau rhyng-gysylltiedig sy'n ymwneud â chaffael iaith, cyrhaeddiad ac integreiddio. Fodd bynnag, gydag oedran a gallu disgyblion yn amrywio'n sylweddol, mae anghenion dysgu a lefel y cymorth sy'n ofynnol yn wahanol iawn rhwng ysgolion unigol. Er bod angen felly i ymatebion fod yn benodol i gyd-destun, ceir potensial i ysgolion gwledig ddysgu o brofiadau AALlau sydd â mwy o brofiad o gynorthwyo disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

---

gyfieithu dogfennaeth bresenoldeb i Bwyleg a Phortiwgaleg; mae gweithdai i rieni hefyd yn cael eu datblygu drwy raglen Agwedd Gymdeithasol ac Emosiynol Dysgu (SEAL). Ceir hefyd mwy o ganolbwynt ar ddeall diwylliant disgyblion mudol a goresgyn bwlio yn fwy cyffredinol.

# ADRAN 7: CASGLIADAU AC ARGYMHELLION POLISI

## 7.1. Casgliadau

Nod yr adroddiad hwn oedd archwilio sefyllfa a phrofiadau gweithwyr mudol rhyngwladol yng Nghymru Wledig a Chymoedd De Cymru drwy ddefnyddio dulliau cymysg o ddadansoddi ystadegol, arolygon a chyfweliadau. Aed i'r afael â hyn drwy saith amcan a ganolbwyntiodd ar wahanol agweddau ar fudo gan gynnwys tueddiadau demograffig, yr economi a chyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chydlyniant cymunedol. Dychwelwn yn awr at yr amcanion hyn a chrynhoi'r prif ganfyddiadau. Rydym yn ystyried lle y mae newid wedi digwydd, pa agweddau y mae angen mynd i'r afael â hwy o hyd a lle y mae heriau newydd wedi codi ers astudiaeth fudo flaenorol Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008.

***1) Tueddiadau allweddol mewn mudo rhyngwladol i Gymru wledig a chymoedd De Cymru***

Cadarnhaodd y dadansoddiad data ganlyniad mudo i ardaloedd gwledig o Gymru ar ôl ehangu'r UE. O gymharu â mathau eraill o fudo rhyngwladol (UE a heb fod yn yr UE), mae mudwyr yr A8 wedi bod yn llai crynodol mewn ardaloedd trefol. Mae'r dosbarthiad wedi ei strwythuro yn ôl cyfleoedd cyflogaeth mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig, gan arwain at grynodiad o weithwyr mudol mewn nifer o gymunedau gwledig cymharol fach. Yma gall y boblogaeth fudol, er ei bod yn llai o ran nifer, fod llawer yn fwy fel cyfran o'r trigolion mewn ardaloedd trefol; gan roi pwysau penodol ar wasanaethau a chymunedau gwledig. Mae trefi mwy fel Llanelli a Bangor yn bwysig drwy eu hintegreiddio â'r ardaloedd gwledig cyfagos; darparu cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a rhwydweithiau cymorth i gymunedau mudol mwy gwasgaredig.

Mae mudo o Wlad Pwyl wedi parhau i fod amlycaf ym mudo yr A8 yng Nghymru wledig a'r Cymoedd. Yng Nghymru wledig, mae hyn wedi arwain at gymunedau mudol unddiwylliannol i raddau helaeth, ac ym Merthyr mae presenoldeb grwpiau mudol sylweddol eraill yn cyflwyno heriau gwahanol o ran cydlyniant cymunedol (gweler pwynt tri). Roedd tri chwarter mudwyr yr A8 o dan 35 oed pan gofrestrwyd gyda'r WRS; gyda thueddiadau dilynol tuag at setlo yn golygu bod cyfran bellach yn heneiddio ac yn cael teuluoedd yng Nghymru. Yn gysylltiedig â hyn cafwyd cynnydd mewn mudwyr yr A8 sy'n fenywod, i'r graddau bod hyn wedi gwrthdroi amlygrwydd y dynion a fodolai cyn 2007.

Ledled Cymru, mae dyfodiad y dirwasgiad wedi effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth a sefydlogrwydd economaidd i weithwyr tramor a domestig, gyda'r arwyddion cyntaf o arafu o ran mudwyr newydd yr A8 yn dod i'r amlwg yn 2007. Yn y cyd-destun hwn, mae ansicrwydd o ran nifer y gwladolion A2

(Rwmanaidd a Bwlgaraidd) sy'n debygol o gyrraedd y DU o 2014. Fodd bynnag, gyda 50% o gofrestriadau gan fudwyr yr A2 o dan gynllun yr SBS (2004-2011) yn digwydd mewn ardaloedd gwledig, mae'n rhesymol damcaniaethu y bydd y cam nesaf hwn o ehangu'r UE yn effeithio ar Gymru wledig unwaith eto.

***2) Diweddaru arolwg 2008 o weithwyr mudol***

Yn ogystal â chymunedau Ffilipinaidd a Portiwgeaidd hirsefydlog ym Merthyr, mae cyfran uchel o fudwyr ymhlith y grwpiau sampl yn y Trallwng a rhannau o Ogledd Cymru wedi bod yn byw yng Nghymru am dros bum mlynedd; wedi'u cymell gan ffactorau economaidd a phresenoldeb teulu a ffrindiau. Mae'r mwyafrif yn byw gydag aelodau o'r teulu ac mae ganddynt blant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion lleol, gan gryfhau cysylltiadau â lle a chymuned. Mae'r mudwyr hyn wedi bod yng Nghymru yn ddigon hir mewn rhai achosion i ddatblygu lefel dda o Saesneg a gwell safon llety; er bod lawer yn dal i ymdrechu i ddod o hyd i gyflogaeth mewn galwedigaethau y maent yn gymwys (ac yn aml yn dra chymwys) amdanynt.

Mae tueddiadau cynyddol tuag at setlo hefyd yn dod yn amlwg ymhlith mudwyr Pwylaidd ym Merthyr, Llanybydder/Llanbedr Pont Steffan a Llanelli, ac i lawer mae hyn yn adlewyrchu newid o fudo fel penderfyniad economaidd tymor byr (‘gweithwyr gwadd’) tuag at rywbeth tymor hwy. Roedd llawer o weithwyr gwadd (dynion fel arfer) wedi gadael teulu yn eu mamwlad, gyda'r bwriad o ddychwelyd ar ôl sawl blwyddyn o waith. Er bod rhai wedi dychwelyd ers hynny, mae eraill wedi aros yng Nghymru ac ers hynny mae eu partneriaid, eu plant ac weithiau eu teulu estynedig wedi ymuno â hwy. Fodd bynnag, nid yw'r trawsnewid hwn tuag at setlo yn syml ac mae llawer o fudwyr yn ansicr o hyd ynghylch eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol; gan gadw cysylltiadau materol ac emosiynol cryf â'u mamwlad, a gorfod gwneud penderfyniadau cymhleth sydd weithiau'n cynnwys dyheadau gwahanol aelodau niferus o'r teulu.

***3) Mudo llafur newydd yr UE yng nghyd-destun ehangach mudo rhyngwladol i Gymru***

Rhoddodd Merthyr Tudful gyd-destun ar gyfer archwilio profiadau gweithwyr mudol yr A8 mewn perthynas â grwpiau mudol eraill yr UE (Portiwgeaidd) a rhai nad ydynt yn yr UE (Ffilipinaidd). Er bod Merthyr eisoes wedi'i hymgorffori yn y llwybrau mudol sefydledig hyn, mae graddfa a dwyster mudo ar ôl ehangu wedi bod ar lefel nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen; mae'r cymunedau Portiwgeaidd a Ffilipinaidd bellach yn dair rhan o ddeg a dwy ran o ddeg maint poblogaeth Gwlad Pwyl, yn y drefn honno (2011 Cyfrifiad). Felly mae mudo newydd o'r UE wedi cyflwyno heriau i grwpiau mudol eraill, yn ogystal ag i gymunedau sy'n derbyn. Ar gyfer y Portiwgeaid ym Merthyr, mae hyn wedi bod ar ffurf cystadleuaeth uniongyrchol am swyddi. Ar gyfer mudwyr Ffilipinaidd, mae newidiadau polisi mudo ehangach yn y DU wedi annog mudo yr A8 tra'n gosod cyfyngiadau ar fisâu nyrsio i weithwyr o'r tu allan i Ewrop.

Yn ogystal ag effeithiau economaidd, mae cystadleuaeth am feddiannu lle ffisegol a gweledol yn y dref ei hun rhwng grwpiau Portiwgeaidd a Phwylaidd, wrth i'r olaf ddod yn nodwedd reolaidd o fywyd ym Merthyr. Mae'r tensiynau rhwng y ddau grŵp hyn yn arwydd o'r tebygrwydd rhyngddynt, ond mae llwybrau galwedigaethol arbenigol mudwyr Ffilipinaidd sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant y teulu yn dod â hwy i gystadleuaeth lai uniongyrchol am swyddi, adnoddau a statws ym Merthyr. Ar yr un pryd, mae ymchwil wedi datgelu profiadau cyffredin ar draws yr holl grwpiau mudol sydd wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth hon o ran cymhellion a dyheadau ar gyfer mudo, integreiddio cymdeithasol, rhwystrau ieithyddol, defnydd o'r gwasanaeth a rhwydweithiau cymorth. Byddai hyn yn herio'r rhesymeg dros drin mudo newydd yr UE fel achos penodol, heblaw am o ran graddfa, ac yn nodi sut y gallai ymchwil yn y dyfodol ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o grwpiau mudol o wledydd yr UE a rhai nad ydynt yn wledydd yr UE.[22]

***4) Pwysau a goblygiadau mudo rhyngwladol ar wasasnaethau cyhoeddus***

Mae gwasanaethau addysg ledled Cymru wedi wynebu galwadau newydd ac ychwanegol sy'n deillio o fudo rhyngwladol, gyda nifer cynyddol o ddisgyblion o deuluoedd mudol yn gorfod cael cymorth dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol a/neu Gymraeg fel Iaith Ychwanegol. Er bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy'r Prosiect Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MELAP),[23] cyfrifoldeb yr ysgolion mewn trafodaeth ag awdurdodau addysg lleol fu ymateb yn briodol i'r galw lleol. Mae hyn wedi golygu bod angen i ysgolion gwledig gymryd rôl ragweithiol o ran datblygu eu strategaethau ymdopi eu hunain, gyda'r model caffael iaith sy'n cael ei ddatblygu yn Ysgol Fabanod Oldford yn arfer da yn hyn o beth. Mae heriau'n bodoli o hyd yn ymwneud â materion integreiddio cymdeithasol, ar lefelau disgyblion a rhieni. Fodd bynnag, mae diffyg amser ac adnoddau staff yn aml yn golygu bod mesurau allgyrsiol ychwanegol i annog integreiddio cymdeithasol y tu hwnt i'r gallu ac anodau presennol.

O ran meysydd gwasanaeth eraill, mae problemau a wynebodd mudwyr yr A8 gyda thai amlfeddiannaeth i ddechrau wedi'u goresgyn drwy rannu gwybodaeth a phrofiad. Fodd bynnag, mae galw cynyddol yn golygu bod y llety rhent sydd ar gael o faint ac ansawdd sy'n addas i deuluoedd yn broblem mewn ardaloedd gwledig yn benodol. Mae byrddau iechyd lleol wedi gwneud cynnydd o ran sicrhau mynediad i wasanaethau iechyd cyffredinol i fudwyr; tynnwyd sylw at gynlluniau llinell iaith ddwyieithog fel enghreifftiau o arfer da yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae rhai anghenion iechyd yn dal heb eu diwallu gydag adroddiad o fudwyr yn methu derbyn y driniaeth ofynnol yn sgîl rhwystrau ieithyddol. Mae darparu cymorth arbenigol i gyflyrau yn cynnwys iechyd

---

[22] Gallai ymestyn symudedd llawn y farchnad lafur i wladolion yr A2 gyflwyno mwy o gystadleuaeth â mudwyr Pwylaidd yn ardaloedd o Gymru wledig a rhannau o Gymru nad ydynt yn wledig; yma gallai'r profiadau y tynnwyd sylw atynt rhwng grwpiau mudol ym Merthyr ddarparu pwynt cyfeirio gwerthfawr.

[23] Cynhaliodd Llywodraeth Cymru brosiect tair blynedd (a ddaeth i ben ym mis Awst 2013) a ganolbwyntiodd ar anghenion addysgol penodol plant o leiafrifoedd ethnig. Mae MELAP, a gyllidir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn galluogi awdurdodau addysg lleol mewn ardaloedd Arian Cydgyfeirio o Gymru i dynnu cyllid ychwanegol i lawr er mwyn cynorthwyo plant ag anghenion Saesneg fel Iaith Ychwanegol.

meddwl yn peri problemau arbennig, gydag ardaloedd gwledig yn aml heb y màs critigol i gyfiawnhau gwasanaethau cyfieithu penodedig.

Er gwaethaf mentrau ‘pecyn croeso’ gan rai awdurdodau lleol, prin iawn oedd y mudwyr a holwyd a oedd wedi cael unrhyw wybodaeth swyddogol am fyw a gweithio yng Nghymru. Yn lle hynny, mae sefydliadau megis Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd ym Merthyr a'r Gymdeithas Cymry-Pwyliaid yn Llanelli yn enghreifftiau cydnabyddedig o arfer da am y wybodaeth a'r cyngor am ddim a ddarperir ganddynt. Mae mentrau cymdeithasol wedi dechrau cynnig cymorth a rhannu gwybodaeth i fudwyr ym Merthyr a Gogledd Cymru. Fodd bynnag, yng nghyd-destun toriadau gwariant cyhoeddus, mae'r gallu cynyddol am hunangymorth a bod yn hunanddibynnol mewn cymunedau o fudwyr wedi dod yn gynyddol bwysig.

***5) Cyfraniad economaidd mudwyr rhyngwladol, gan gynnwys drwy entrepreneuriaeth***

Gall amodau gwaith a phrofiadau gweithwyr mudol amrywio'n sylweddol mewn perthynas â lefelau sgiliau a gallu ieithyddol unigol. Fodd bynnag, ar y cyfan mae mwyafrif y gweithwyr mudol A8 a Phortiwgeaidd a holwyd yn aros mewn swyddi â llaw ar raddfa is sy'n talu llai, a phrin yw'r dystiolaeth o symudedd galwedigaethol. Mae mudwyr mewn swyddi sy'n draddodiadol wedi bod yn rhai anodd ei llenwi o'r tu mewn i'r farchnad lafur (e.e. mewn prosesu cig) ac maent wedi chwarae rôl hanfodol fel sylfaen i rai o fusnesau Cymru gyda'u sgiliau a'u cynhyrchiant. Cafwyd newidiadau gyda'r lleihad yn rôl asiantaethau cyflogaeth o ran recriwtio mudwyr ac mae heriau newydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y dirwasgiad, wrth i gyflogwyr geisio sicrhau'r elw mwyaf posibl. Mae gweithwyr mudol bellach yn wynebu amgylchiadau tebyg i lawer o deuluoedd eraill yng Nghymru sydd ar incwm isel, yn gysylltiedig ag ymyleiddio economaidd. Fodd bynnag, gall y tebygrwydd hwn gael ei guddio oherwydd bod trafodaeth am fudwyr fel rhai sy'n cymryd swyddi wedi codi mewn perthynas â phwysau ar y farchnad lafur mewn rhannau o'r Trallwng, Llanelli a Merthyr.

Ar yr un pryd, roedd trafodaeth fwy cadarnhaol am entrepreneuriaid Pwylaidd a Phortiwgeaidd fel hwyluswyr ailddatblygu yn amlwg ym Merthyr. Mae gan Ferthyr y màs critigol o boblogaeth yn y dref i ategu mentrau busnes newydd. I raddau helaeth mae hyn yn absennol mewn ardaloedd gwledig ac felly mae entrepreneuriaeth wedi bod yn gymharol gyfyngedig. Mae mentrau cymdeithasol ym Merthyr a Gogledd Cymru wedi gweithio i annog entrepreneuriaeth drwy alluogi mynediad i wybodaeth a chyngor; mewn mannau eraill mae wedi bod yn ofynnol i unigolion fod yn fwy hunanddibynnol o ran ceisio cymorth priodol. Mae mudwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol i entrepreneuriaeth, gan gynnwys iaith, costau dechrau busnes a gofynion cyfreithiol. Mae busnesau symudol yn osgoi rhai o'r cyfyngiadau hyn, ac weithiau fe'u cynhelir gan fudwyr o angenrheidrwydd i ategu incwm arall. Fodd bynnag, gyda llawer o ymatebwyr i arolygon yn mynegi uchelgeisiau entrepreneuraidd, mae argymhelliad adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru yn 2008 i harneisio sgiliau a

photensial gweithwyr mudol yn berthnasol o hyd. Mae hyn yn cynnwys nodi yn well botensial adnoddau mudwyr niferus sydd â gormod o gymwysterau gyda sgiliau proffesiynol a galwedigaethol, sydd ar hyn o bryd yn gweithio yn is na'u gallu yng Nghymru.

***6) Integreiddio mudwyr rhyngwladol â chymunedau lleol yng Nghymru wledig***

Un thema gyffredin ar draws yr astudiaethau achos yw parhad rhwystrau ieithyddol ar draws pob agwedd ar fywyd yng Nghymru gan gynnwys cyflogaeth, mynediad i wasanaethau, cyrhaeddiad addysgol ac integreiddio cymdeithasol. Mae'n bosibl nad oedd datblygiad ieithyddol wedi'i ystyried fel blaenoriaeth uniongyrchol i'r holl fudwyr economaidd newydd. Fodd bynnag, wrth i fwriadau newid o 'weithio gwadd' i 'setlo' mae'r angen am sgiliau Saesneg ac, mewn rhai achosion, sgiliau Cymraeg, wedi dod yn amlwg. Iaith yw'r gwahaniaeth rhwng ymdopi o ddydd i ddydd a gallu byw yn llawnach y tu hwnt i'r gymuned fudol gan gynnwys mynd ar drywydd opsiynau megis entrepreneuriaeth. Mae'r rhan fwyaf o fudwyr yn cydnabod hyn ac mae rhai yn datblygu eu sgiliau yn unol â hynny. Fodd bynnag, ac er gwaethaf darpariaeth eang Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, mae rhai yn wynebu anawsterau dysgu o amgylch ymrwymiadau gwaith sifft a gofal. Mae hyn yn amlygu'r angen am ddysgu iaith yn fwy hyblyg, yn hytrach na dim ond mwy o ddarpariaeth.

Roedd y rhan fwyaf o fudwyr a holwyd yn parhau i chwilio yn eu cymunedau eu hunain am gyfeillgarwch a chymorth oherwydd mae iaith, oriau gwaith ac achosion o wahaniaethu yn rhwystrau cymdeithasol o hyd. Ar yr un pryd, mae prosesau o integreiddio yn digwydd yn raddol wrth i deuluoedd mudol setlo yng Nghymru. Mae'r trawsnewid o weithiwr gwadd i setlwr yn cynnwys sefydlu mwy o ymrwymiad i ardal y preswylfan ac ymgorffori ynddo. I rai mae hyn drwy anfon eu plant i ysgolion lleol, mynd i ddigwyddiadau ysgol a chynilo am dy, i eraill dechrau busnes a chymryd rhan mewn mentrau lleol. Dros amser, mae sefydliadau fel y PWMA yn Llanelli wedi gweithio mwy tuag at integreiddio cymdeithasol, wrth i ofynion gan fudwyr newydd leihau. Yn yr astudiaethau achos gwledig, mae sefydliadau'r trydydd sector gyda chynhwysiant cymdeithasol ehangach wedi darparu cymorth hanfodol i fudwyr, ond llai o rôl mewn cydlyniant cymunedol. Mae ysgolion yn cyflawni swyddogaeth gymdeithasol bwysig mewn cymunedau gwledig, lle gall teuluoedd mudol fod wedi'u hynysu a/neu lle mae mannau cyhoeddus ar gyfer rhyngweithio yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gallant hefyd fod yn safle o densiynau diwylliannol fel y gwelwyd yn y Trallwng.

***7) Enghreifftiau o Arfer Da ac Argymhellion***

*Argymhelliad 1: Darparu mwy o opsiynau dysgu iaith i anghenion penodol, er mwyn goresgyn rhwystrau parhaus i integreiddio cymdeithasol, symudedd galwedigaethol a defnydd o wasanaethau:*

- Amrywiaeth mwy hyblyg o opsiynau ac arddulliau dysgu iaith (y tu hwnt i Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) er mwyn annog cyfranogi ymhlith gweithwyr mudol sydd â chyfrifoldebau amrywiol o ran gweithio sifftiau a gofal. Mae arferion da yn cynnwys dosbarthiadau ‘Saesneg i oroesi’ a gynhelir gan PWMA a dosbarthiadau mewn ysgolion i rieni Pwylaidd. Gellid hyrwyddo amrywiaeth tebyg o opsiynau ar gyfer dysgu Cymraeg.
- Mae llawer o weithwyr mudol nad ydynt yn gallu cael cyflogaeth yn y proffesiynau y maent wedi'u hyfforddi ynddynt yn sgîl anallu i gyfathrebu yn yr iaith dechnegol lefel uwch sy'n ofynnol. Gallai sesiynau iaith mwy arbenigol gynorthwyo gyda'r cam nesaf hwn yn y farchnad lafur.
- Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau ystyried sut y gall costau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu gael eu rhannu'n fwy effeithiol ar draws adrannau (e.e. iechyd, addysg) i wella cysondeb gwasanaethau a lleihau'r defnydd o blant mudol yn y cyd-destun hwn.

*Argymhelliad 2: Parhau i hyrwyddo integreiddio gweithwyr mudol â chymunedau lleol ac ehangu cydlyniant cymunedol rhwng pob grŵp:*

- Mae angen i fentrau cydlyniant gynnwys poblogaethau mudol a lleol yn effeithiol i osgoi cynyddu tensiynau presennol ynghylch mynediad i swyddi a gwasanaethau. Mae mwy o ganolbwynt ar y mater hwn yn sgîl y dirwasgiad a phwysau economaidd a wynebir gan lawer o drigolion beth bynnag yw eu cenedligrwydd.
- Mae Wrecsam yn cynnig enghreifftiau o arfer da sydd wedi gweithio tuag at gynnwys pob aelod o'r gymuned mewn materion cydlyniant. Yn 2009 lansiwyd ‘Un Wrecsam: Siarter o Berthyn’, sy’n cynrychioli datganiad cyhoeddus am werthoedd cydraddoldeb ac integreiddio.
- Mae angen ystyried a oes lleoedd ffisegol ar gael i alluogi grwpiau gwahanol i ryngweithio. Gall ysgolion chwarae rôl bwysig mewn cymunedau gwledig, ond gall hyn ddigwydd drwy ddyrannu *cyllid newydd* yn unig; mae staff addysgu eisoes yn ymdrechu i fodloni'r gofyniad cynyddol am gymorth dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol.

*Argymhelliad 3: Parhau i gynorthwyo gwaith sefydliadau cyngor ac eiriolaeth arbenigol, gan gynnwys ehangu is-wasanaethau i ardaloedd gwledig lle mae prinder cymorth:*

- Mae Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd ym Merthyr a'r Gymdeithas Cymry-Pwyliaid (PWMA) yn Llanelli yn enghreifftiau o arfer da o sefydliadau sy'n cynnig cymorth i newydd-ddyfodiaid ac yn addysgu gweithwyr mudol am eu hawliau cyfreithiol; mae'r sefydliadau hyn hefyd yn chwarae rôl tymor hwy bwysig o ran cydlyniant cymunedol.
- Dangoswyd effeithiolrwydd menter Siawns Teg ym Mhowys gan lefelau cynyddol o hunanddibyniaeth a chadernid ymhlith y gymuned o Bwyliaid mudol.

- Efallai y gellir mabwysiadu modelau tebyg mewn ardaloedd eraill, yn enwedig ardaloedd gwledig nad oes ganddynt gymorth digonol. Dylid annog allgymorth o ran y PWMA yn Llanybydder.

*Argymhelliad 4: Cydnabod a harneisio'n fwy effeithiol sgiliau proffesiynol a galwedigaethol gweithwyr mudol:*

- Mae llawer o weithwyr mudol yn parhau i fod â gormod o gymwysterau yn y eu swydd bresennol. Mae hwn yn ddefnydd aneffeithlon o'r adnoddau llafur y maent yn eu cynrychioli, yn enwedig pan fo llawer ohonynt yn meddu ar y sgiliau sy'n absennol o farchnadoedd llafur lleol. Mae Woring Links wedi darparu cyfleoedd hyfforddiant i rai mudwyr drosi eu cymwysterau galwedigaethol i ffurf a gydnabyddir yn y DU.
- Mae cyflogwyr wedi ceisio cymorth y PWMA i lenwi swyddi gwag penodol. Gallai'r arfer da hwn gael ei ddatblygu drwy annog mudwyr i gofrestru eu sgiliau gyda broceriaid sy'n hwyluso cysylltiadau â chyflogwr, gan gynnwys busnesau bach a chanolig sy'n ceisio tyfu eu busnes mewn ardaloedd gwledig.
- Gall mudwyr sy'n fenywod wynebu heriau penodol mewn ardaloedd gwledig, lle mae llawer o'r proffesiynau y maent yn gymwys ynddynt yn rhoi pwys mawr ar y gallu i siarad Cymraeg. Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r gofyniad hwn yn gynnar ac annog dysgu Cymraeg ochr yn ochr â Saesneg.

*Argymhelliad 5: Annog potensial entrepreneuraidd drwy leihau rhwystrau i wybodaeth a chyllid i ddechrau busnes:*

- Ymhlith y nifer cynyddol o entrepreneuriaid mudol ym Merthyr, amlygodd llawer ddylanwad cadarnhaol menter gymdeithasol megis menter y Bont ar eu llwyddiant busnes.
- Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd lleoedd ffisegol lle gall mudwyr geisio cyngor, cael eu cyfeirio at fathau eraill priodol o gymorth a thrafod profiadau gydag eraill.
- Mae costau dechrau busnes yn atal llawer o fudwyr sy'n wynebu mathau amrywiol o allgau ariannol. Dylid ystyried sut y mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau newydd yn ystyried y materion hyn. Mae Undebau Credyd yn cynnig gwasanaeth ariannol gwerthfawr ac efallai y gellir ehangu'r model hwn i gynorthwyo gydag elfennau o ddechrau busnes.

*Argymhelliad 6: Annog rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer da rhwng ysgolion o ran darparu cymorth dysgu Cymraeg / Saesneg fel Iaith Ychwanegol*

- Yn wahanol i ardaloedd trefol, nid yw siroedd gwledig mawr yn gallu canoli adnoddau addysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol/Cymraeg fel Iaith Ychwanegol yn sgîl darparu cymorth i ysgolion gwasgaredig gyda niferoedd amrywiol o ddysgwyr. Dylid rhoi mwy o bwysoliad gwledig ar ddyrannu cyllid at y diben hwn.

- Mae'n ofynnol i ysgolion fod yn ymatebol i gyd-destun, materion a galw lleol. Serch hynny, mae rhai materion cyffredin ar draws ardaloedd gwledig ac ardaloedd nad ydynt yn wledig o ran cymorth dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol megis asesu lefelau gwybyddol caffael iaith.
- Gellid datblygu gwell dulliau ar gyfer rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer da rhwng ysgolion.

# GEIRDA


Bach, S. (2010) 'Managed Migration? Nurse Recruitment and the consequences of state policy', *Industrial Relations Journal* 41 (3) 249-266

Cyngor ar Bopeth (2011) 'CAB Advice Work with Migrant Workers in Wales, Ebrill 2010-Mawrth 2011'. Papur Briffio Mewnol.

Costello, C. (2011) 'Policy Primer: UK Migration Policy and EU Law', *The Migration Observatory*. Cafwyd o: www.migrationobservatory.ox.ac.uk

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2012) *'Meat and poultry processing inquiry review: Report of the findings and recommendations',* Tachwedd 2012. Cafwyd o: **Error! Hyperlink reference not valid.**

*The Guardian* (2011) 'Nursing dream fades for Filipinos as UK jobs dry up', 23 Chwefror 2011. Cafwyd o: http://www.theguardian.com/world/2011/feb/23/nursing-dream-filipinos-uk-jobs

Harris, C., D. Moran and Bryson, J. R. (2012) 'EU Accession Migration: National Insurance Number Allocations and the Geographies of Polish Labour Immigration to the UK', *Tijdschrift voor economische ên sociale geografie* 103(2), t.209-221.

Harris, C., D. Moran and Bryson, J. R. (2014, ar y gweill) 'Polish labour migration to the UK: data discrepancies, migrant distributions and indicators of entrepreneurial activity', *Growth and Change.*

Kreft, M. B. (2009) 'The Polish migrant community in Carmarthenshire: Substance abuse and implications for the criminal justice system', *Adroddiad ar gyfer Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau Dyfed-Powys*, Medi 2009. Cafwyd o: **Error! Hyperlink reference not valid.**

McCollum, D. a Findlay, A. (2011) 'Trends in A8 migration to the UK during the recession', *ONS Population Trends number 145*. Cafwyd o: http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ population-trends-rd/population-trends/no--145--autumn-2011/ard-pt145-a8-migration.pdf

Morgan, K. J. (2011) 'Foodscapes and landscapes: the gastro-geographies of Wales'. Yn: Milbourne, P. gol. *Rural Wales in the twenty-first century: society, economy and environment*. Caerdydd: Prifysgol Cymru, t. 215-234.

*No Recourse to Public Funds Network* (2011) 'No Recourse to Public Funds: Social Services Support to People with A National Picture, March 2011'. Cafwyd o: http://www.nrpfnetwork.org.uk/policy/Documents/NRPF_national_picture_final.pdf

Pollard, N., Latorre, M. a Sriskandarajah, D. (2008) 'Floodgates or turnstiles? Post-EU enlargement migration flows to (and from) the UK', *Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus,* Ebrill 2008. Cafwyd o: http://www.ippr.org/publication/55/1637/ floodgates-or-turnstilespost-eu-enlargement-migration-flows-to-and-from-the-uk

Rogers, A. (2009) 'Recession, Vulnerable Workers and Immigration: Background Report'. *COMPAS*, Ebrill 2009. Cafwyd o: http://www.compas.ox.ac.uk/fileadmin/files/ Publications/ Research_projects/Labour_markets/Labour%20Mrkt%20and%20Recession%20Full%20Report.pdf.

Scott, S. et al. (2012) 'Experiences of forced labour in the UK food industry', *Joseph Rowntree Foundation*. Cafwyd o: http://www.jrf.org.uk/publications/forced-labour-uk-food-industry

Skrivankova, K. (2010) 'Between decent work and forced labour: examining the continuum of exploitation', *Joseph Rowntree Foundation*, Tachwedd 2010. Cafwyd o: http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/forced-labour-exploitation-full.pdf

Spencer, S., Ruhs, M., Anderson, B. a B. Rogaly (2007) *'Migrants' lives beyond the workplace: The experiences of Central and East Europeans in the UK'* Joseph Rowntree Foundation, Hydref 2007. Cafwyd o: http://www.jrf.org.uk/system/files/2045-migrants-experiences-uk.pdf

Thompson, A., Chambers, P. a Doleczek, L. (2010) '"Welcome to Llaneski": Polish Migration in South West Wales', *Contemporary Wales* 23, t.1-16.

Threadgold, T., Clifford, S., Arwo, A., Powell, V., Harb, Z., Jiang, X. a Jewell, J. 'Mewnfudo a chynhwysiant yn ne Cymru', *Sefydliad Joseph Rowntree/ Prifysgol Caerdydd,* 2008

UKBA (2008). Accession Monitoring Report May 2004 – September 2008. Cafwyd o: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100422120657/http:/www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/aboutus/reports/accession_monitoring_report/

UKBA (2009). Accession Monitoring Report May 2004 – March 2009. Cafwyd o: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100422120657/http:/www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/aboutus/reports/accession_monitoring_report/

Llywodraeth Cymru (2009) '*Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru'.* Cafwyd o: http://wales.gov.uk/topics/?skip=1&lang=cy

Woods, M. a Watkin, S. (2008) 'Gweithwyr Mudol o Ddwyrain a Chanol Ewrop yng Nghymru Wledig', *Adroddiad Arsyllfa Wledig Cymru 20*. Cafwyd o: http://www.arsyllfawledigcymru.org.uk/frontpage

Woods, M. (2012) 'Poles Apart? Migrant workers and community in Rural Wales', yn: Milbourne, P. gol. *Rural Wales in the twenty-first century: society, economy and environment*. Caerdydd: Prifysgol Cymru, t.109-125.

# ATODIAD 1: Adolygiad Llenyddiaeth

Adolygiad o adroddiadau perthnasol ar Fudo Rhyngwladol a oedd wedi eu cyhoeddi ers i astudiaeth fudo flaenorol Arsyllfa Wledig Cymru gael ei chynnal yn 2007/08:

**2007**

Anderson, B., Clark, N. a Parutis, V. *'New EU Members? Migrant Workers' Challenges and Opportunities to UK Trades Unions: a Polish and Lithuanian Case Study'.* COMPAS Report for the Trades Union Congress, 2007

Crynodeb: Y casgliadau allweddol yw bod llawer o weithwyr mudol Dwyrain Ewrop yn wynebu camfanteisio ym Mhrydain; y gellid yn hawdd talu gweithwyr mudol yn well a'r hyn sy'n digwydd yw camfanteisio, nid economeg; a bod angen cymorth ar weithwyr mudol i sicrhau eu hawliau.

Y Comisiwn ar gyfer Cymunedau Gwledig (CCR) '*A8 migrant workers in Rural Areas: Briefing Paper',* Ionawr 2007

Crynodeb: Mae'r papur hwn yn rhoi sail dystiolaeth ar nifer presennol y gweithwyr mudol A8 mewn ardaloedd gwledig a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar economïau a chymdeithasau gwledig. Ymhlith y meysydd i ddarparwyr gwasanaethau gwledig fynd i'r afael â hwy mae tai, gwasanaethau, dibyniaeth economaidd a chydlyniant cymunedol.

LANTRA **'***A Study of the Business Needs of Those Employing Migrant Workers in the Welsh Agriculture and Production Horticulture Industries',* Ionawr 2007

Crynodeb: O'r dadansoddiad data gellir gweld bod angen i fusnesau ac asiantaethau gael gwell dulliau o asesu cymwysterau, sgiliau a phrofiad unigolion dramor yn erbyn gofynion swyddi gwag yng Nghymru. Yn ogystal, byddai mwy o hyfforddiant amlieithog a/neu ddeunyddiau cymorth o fudd i'r gweithwyr mudol eu hunain.

Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN) '*Gweithwyr Mudol yn sir y Fflint',* Ionawr 2007

Crynodeb: Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi mewnwelediad i brofiadau gweithwyr mudol o amrywiaeth o safbwyntiau: gweithwyr mudol eu hunain, darparwyr gwasanaethau a chyrff cenedlaethol. Mae argymhellion yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth, cynnwys rhanddeiliaid, cydlynu gweithgarwch, rhannu arfer da a datblygu arfer sy'n ddiwylliannol gymwys.

Spencer, S., Ruhs, M., Anderson, B. a B. Rogaly *'Migrants' lives beyond the workplace: The experiences of Central and East Europeans in the UK'* Sefydliad Joseph Rowntree, Hydref 2007

Crynodeb: Mae'r astudiaeth hon yn archwilio mynediad mudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop i wybodaeth, cyngor a dosbarthiadau Saesneg, eu llety, amser hamdden, cyswllt cymdeithasol â phobl Brydeinig a bwriadau hirdymor.

**2008**

Lemos, S. a Portes, J. *'The impact of migration from the new European Union Member States on native workers'* Adran Gwaith a Phensiynau, Mehefin 2008

Crynodeb: Mae'r papur hwn yn archwilio effaith mudo o Aelod-wladwriaethau newydd yr UE ar ganlyniadau marchnad lafur brodorion yn y DU. Nid yw'n dod o hyd i unrhyw effaith ystadegol arwyddocaol mudo yr A8 ar ddiweithdra hawlwyr, naill ai yn gyffredinol neu ar gyfer unrhyw is-grŵp y gellir ei nodi. Yn arbennig, nid yw'n dod o hyd i unrhyw effeithiau andwyol ar yr ifanc neu bobl â lefel sgiliau isel.

Pollard, N., Latorre, M. a D. Sriskandarajah, *'Floodgates or turnstiles? Post-EU enlargement migration flows to (and from) the UK', Sefydliad* Ymchwil Polisi Cyhoeddus, Ebrill 2008.

Crynodeb: Mae'r ymchwil hon yn canfod bod patrymau mudo ar ôl ehangu yn wahanol iawn i rai tonnau sylweddol o fudo i Brydain yn y gorffennol; daw mudwyr o aelod-wladwriaethau newydd yr UE i'r DU ar sail dros dro neu dymhorol, ac maent yn ymweld â'u mamwlad yn rheolaidd pan fyddant yn byw ym Mhrydain. Mae'r ffaith bod mudwyr ar ôl ehangu eisoes yn symud yn ôl adref yn ategu'r rhagdybiaeth a geir yn aml yn y llenyddiaeth fudo bod rhwystrau is i symudedd yn arwain at fudo llai parhaol yn yr hirdymor.

Speaking Out *'Rural migrant children, families and young people',* Papur Briffio Polisi ar y cyd rhwng NCVCCO/NCVYS, Awst 2008

Crynodeb: mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio'n benodol ar fudwyr gwledig ac mae'n archwilio: y cyd-destun polisi ar gyfer plant, teuluoedd a phobl ifanc mudol gwledig; y cyd-destun cyfreithiol; canfyddiadau perthnasol o ymchwil ac arfer; goblygiadau posibl i sefydliadau plant ac ieuenctid y sector gwirfoddol a chymunedol; ac adnoddau defnyddiol mewn perthynas â'r mater hwn.

Sales, R., Ryan, L., Rodriguez, M. L., ac A. D'Angelo, *'Polish Pupils in London Schools: opportunities and challenges'* Adroddiad Prosiect, Rhagfyr 2008

Crynodeb: Cododd yr ymchwil nifer o faterion a phryderon ac awgrymwyd ymatebion polisi ar gyfer lefelau amrywiol, o athrawon ystafell ddosbarth i'r cenedlaethol. Roedd yr argymhellion yn ymwneud â lledaenu arfer da a gwybodaeth; myfyrio ar arfer; adnoddau dysgu; staffio; ymgysylltu â rhieni; a gwella'r wybodaeth am fudo sydd ar gael i rieni.

Threadgold, T., Clifford, S., Arwo, A., Powell, V., Harb, Z., Jiang, X. a Jewell, J. *'Mewnfudo a chynhwysiant yn ne Cymru',* Sefydliad Joseph Rowntree/ Prifysgol Caerdydd, 2008

Crynodeb: Archwiliodd yr ymchwil amrywiaeth o ardaloedd daearyddol ethnig amrywiol a gwahanol fathau o fudo, gan gynnwys born a phrofiadau cymunedau sefydlog a mudwyr newydd.

**2009**

Cangiano, A., Shutes, I., Spencer, S. a G. Leeson *'Migrant Care Workers in Ageing Societies: Research Findings in the United Kingdom'* COMPAS, Mehefin 2009

Crynodeb: Mae'r adroddiad hwn yn archwilio effaith bosibl poblogaeth sy'n heneiddio ar y galw am weithwyr gofal mudol. Ymhlith yr argymhellion mae: Cynyddu cyllid a statws gwaith gofal; Cadw sianel mynediad mudo i uwch-weithwyr gofal; Monitro'r angen hirdymor am sianel mynediad mudo i weithwyr gofal llai medrus; Gwella cydlynu a chyfathrebu'r Llywodraeth â chyflogwyr; a sicrhau mynediad i hyfforddiant iaith a sgiliau a chanllawiau ar normau diwylliannol.

Chappell, L., Latorre, M., Rutter, J. a J. Shah *'Migration and Rural Economies: Assessing and addressing risks'* IPPR, Mehefin 2009

Crynodeb: Yr argymhellion allweddol ar gyfer mesurau polisi a allai helpu economïau gwledig i sicrhau effaith fwyaf posibl mudo yw: parhau i hwyluso symudiad gweithwyr amaethyddol; ddatblygu tai fforddiadwy ac o ansawdd uchel mewn ardaloedd gwledig; adolygu rôl asiantaethau recriwtio; ymestyn cylch gwaith yr Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri (GLA) i gwmpasu pob sector y mae cyflogaeth agored i niwed yn nodweddiadol ohoni; Sicrhau bod materion mudo ar yr agenda mewn digwyddiadau proffil uchel; Ymgorffori ystyriaethau mudo mewn prosesau cynllunio a llunio polisi parhaus.

ESTYN, *Cymorth awdurdodau lleol ar gyfer addysg plant gweithwyr mudol,* Hydref 2009

Crynodeb: Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Estyn ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant gweithwyr mudol, yn enwedig o wledydd Derbyn yr Undeb Ewropeaidd (UE), sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylwadau ar y safonau a gyflawnwyd gan y plant hyn.

Asiantaeth Ffiniau'r DU y Swyddfa Gartref *'Accession Monitoring Report, May 2004 – March 2009'*

Crynodeb: cyhoeddiad ar y cyd rhwng Asiantaeth Ffiniau'r DU, Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a Chymunedau a Llywodraeth leol sy'n darparu data ar wladolion yr A8 a gofrestrodd yn y DU rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2009.

Rogers, A., '*Recession, Vulnerable Workers and Immigration: Background Report'.* COMPAS, Ebrill 2009.

Crynodeb: Nod yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth gefndir a dadansoddiad dros dro i ddeall effaith y dirwasgiad presennol ar weithwyr agored i niwed neu ansicr, gan gynnwys mudwyr. Er bod y rhan fwyaf o'r penawdau yn ymwneud â diweithdra, pryder cyfatebol neu fwy yw dwysáu gwaith a lefelau uwch o gamfanteisio i'r mudwyr hynny mewn swyddi ansicr.

Llywodraeth Cymru, '*Cymru'n Cyd-dynnu - Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru',* Tachwedd 2009

Crynodeb: Mae'r Strategaeth hon yn canolbwyntio ar feysydd polisi a darparu gwasanaeth y mae ymchwil wedi dangos y gallant gael effaith sylweddol ar ba mor dda y mae cymuned yn cyd-dynnu: tai; dysgu; cyfathrebu; hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol; ac atal eithafiaeth dreisgar a chryfhau cydlyniant cymunedol.

**2010**

Radcliffe, J. a Campbell, J. '*Byw yng Nghymru - profiadau tai a digartrefedd gweithwyr mudol o ganolbarth a dwyrain Ewrop'* Shelter Cymru / Prifysgol Caerdydd, 2010

Crynodeb: Mae'r astudiaeth hon yn rhoi dealltwriaeth o brofiadau a hanes gweithwyr mudol yng Nghymru ym maes tai a cheir cyfle i archwilio digartrefedd (a'r cymorth a ddarperir) gyda'r boblogaeth hon.

**2011**

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol *'International Migration and Rural Economies',* Mawrth 2011

Crynodeb: Mae mudwyr rhyngwladol yn chwarae rôl bwysig mewn rhai economïau gwledig lleol; Mae'r mewnlif gros o fudwyr, yn enwedig mudwyr 'newydd' i ardaloedd gwledig, fel y cofnodwyd gan ddata'r WRS, wedi dirywio dros 20 y cant rhwng 2008 a 2009; os bydd lefelau mudo yn parhau i ddirywio mae'n debygol y bydd hyn yn effeithio ar y sector amaethyddiaeth a rhannau o'r DU lle mae'r farchnad lafur wedi'i chyfyngu.

**2012**

McCollum, D. a Findlay, A. *'East-Central European migration to the UK: policy issues and employment circumstances from the perspective of employers and recruitment agencies'.* Papur Gwaith y Ganolfan Newid Poblogaeth, Ebrill 2012

Crynodeb: Mae'r ymchwil hon yn defnyddio cyfweliadau ag asiantaethau recriwtio a chyflogwyr i daflu goleuni ar amodau cyflogaeth mudwyr Canolbarth a Dwyrain Ewrop yn y DU a dylanwad polisi a materion deddfwriaethol ar sut y mae'r ffynhonnell hon o lafur yn cael ei recriwtio a'i chyflogi.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *'Meat and poultry processing inquiry review: Report of the findings and recommendations',* Tachwedd 2012

Crynodeb: Mae'r adolygiad hwn wedi datgelu bod y sector prosesu cig a dofednod wedi cymryd camau i wella arferion recriwtio a chyflogaeth. Mae hefyd yn nodi nifer o broblemau sylweddol sy'n haeddu sylw pellach gan y sector. Mae'r argymhellion yn ceisio lleihau achosion bod yn agored i niwed i bob gweithiwr; dwyn sefydliadau i gyfrif o ran cyrraedd safonau cydraddoldeb a hawliau dynol; a hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol a chydberthnasau da.

Mann, R. a Tommis, Y. *'Public Sentiments towards Immigration in Wales',* WISERD / Llywodraeth Cymru, Mawrth 2012.
Crynodeb: Gan ddefnyddio rhannau 2008 a 2010 o Arolwg Cymdeithasol Ewrop, mae'r adroddiad yn archwilio gwahaniaethau rhanbarthol yn y DU o ran agweddau pobl tuag at amrywiaeth o

# ATODIAD 2: Cyfweliadau â Rhanddeiliaid

**Cyfweliadau Cwmpasu Cenedlaethol:**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Naomi Alleyne | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Gladys Hinqco | Cyngor Dinas Caerdydd |
| Anne Hubbard a Selina Moyo | Partneriaeth Ymfudo Cymru |
| Luned Jones | Llywodraeth Cymru |
| Aliya Mohammed | Race Equality First, Caerdydd a Bro Morgannwg |
| Stuart Neil | Llywodraeth Cymru |
| Gill Saunders | Elusen FAN |
| Fran Targett | Cyngor ar Bopeth |
| Hugh De la Cruz | Cynrychiolydd o'r Gymuned Ffilipinaidd |
| Regina Nash | Cynrychiolydd o'r Gymuned Ffilipinaidd |

**Cyfweliadau â Rhanddeiliaid Rhanbarthol:**

| **Rhanbarth yr Astudiaeth Achos** | **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|---|
| *Y Trallwng, Powys* | Tony Blunden | Siawns Teg (elusen cynhwysiant cymdeithasol), y Drenewydd |
| | Cecilia Forsyth | Tiwtor Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, Coleg Harlech (y Drenewydd a'r Trallwng) |
| | Sheela Hughes | Tîm Gwella Ysgolion, Cyngor Sir Powys |
| | Brendan McWhinnie | Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, y Trallwng |
| | Yvonne Naylor | Pennaeth, Ysgol Fabanod Oldford, y Trallwng |
| | Nigel Topley | Cyngor Sir Powys - Swyddog Effeithiolrwydd Ysgolion (darpariaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol) |

| | | |
|---|---|---|
| | Howard Wright | UNITE - Swyddog Rhanbarthol (y Drenewydd a Sir y Fflint) |
| *Gogledd Cymru* | Fatima Grzesiak (x2) a'r Athro Robert Moore | Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN) |
| | Lyn Lording-Jones | Rheolwr Prosiect Cymorth Cenedlaethol Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill, Coleg Menai Bangor |
| | David Nix | Awdurdod Trwyddedu Gangfeistri |
| | James Potter | Cynrychiolydd Cyfreithiol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| | Dr Adrian Thomas (x2) | Avalon Advice, Bangor a Phwllheli |
| | Helen Wharton | Cydlynydd Cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Cyngor Gwynedd |
| *Sir Gaerfyrddin a Cheredigion* | Halina Ashley a Jeff Hopkins | Cymdeithas Cymry-Pwyliaid, Llanelli |
| | Allan Card | UNITE – Swyddog Rhanbarthol (Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) |
| | Michael Goulbourne | Cyn-reolwr gyfarwyddwr, Eurostaffing Recruitment, Caerfyrddin |
| | Rhian James | PCSO, Heddlu Dyfed-Powys |
| | Helen Jones | Cymorth i Ieithoedd Lleiafrifol, Cyngor Sir Ceredigion |
| | Peter Llewellyn | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Partneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| | Paolo Piana | Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli |
| | Mike Shaw | Rheolwr Grŵp Adfywio Cymunedol ac Ewrop, Cyngor Sir Ceredigion |
| | Sarah Slade | Rheolwr Adnoddau Dynol, Dunbia, Llanybydder |
| | Michael Smith | Cydlynydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol, Cynghorau Sir Caerfyrddin a Sir Benfro. |
| | Anna Williams | Athro cymorth Saesneg fel Iaith Ychwanegol, Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan |
| *Merthyr* | Matt Childs | Gweithiwr Cydlyniant Cymunedol a Chymorth i Leiafrifoedd Ethnig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| | Sarah Bowen (x2) | Rheolwr Cynhwysiant Addysg. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| | Cyfweliad Grŵp (â 3 gweithiwr rheng flaen) | Cyngor ar Bopeth |
| | Lesley Hodgson (x2) | Cymdeithas Cymuned Bwylaidd y Cymoedd |
| | Y Tad Ryan | Offeiriad y Plwyf Catholig |
| | Alison Harris | Swyddog Datblygu Partneriaeth yn Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful |
| | Karen Dusgate | Cymdeithas Tai Merthyr Tudful |

| | | |
|---|---|---|
| | Margaret Harris | Pennaeth Ysgol Uwchradd Bishop Hedley |

# ATODIAD 3: Holiadur Gweithwyr Mudol

## A. MANYLION PERSONOL

**A1. Rhyw:**

Gwryw

Benyw

**A2. Oedran:**

18-24     25-34     35-44     45-54     55+

**A3. Beth yw eich cymhwyster uchaf?**

Ysgol

Cymhwyster galwedigaethol / cysylltiedig â swydd

Gradd mewn prifysgol

Cymhwyster ôl-radd

**A4. Beth yw eich sefyllfa briodasol?**

Priod
Wedi ysgaru
Cyd-fyw
Sengl

**A5. A yw eich teulu yn byw gyda chi yma yng Nghymru ar hyn o bryd?**

**Ydynt…**     Faint o aelodau o'r teulu sy'n byw yma gyda chi? ........................

- Beth yw oedran eich plant? ................................................................

**Nac ydynt…**     A ydych yn bwriadu dod â'ch teulu yma yn y dyfodol? ..................

**A6. Sut byddech yn disgrifio eich gallu i gyfathrebu yn Saesneg?**

Rwy'n gwybod rhai geiriau
Rwy'n gallu siarad a deall brawddegau sylfaenol
Rwy'n gallu cyfathrebu'n eithaf da
Rwy'n rhugl

**A7. A ydych chi wedi dysgu unrhyw Gymraeg ers i chi fod yn byw yma?**

**Ydw**…Faint? ychydig o eiriau; brawddegau sylfaenol; gallu cyfathrebu'n eithaf da; rhugl

**Nac ydw**

## B. DOD I FYW YN Y DU

**B1. Ble rydych yn byw ar hyn o bryd?**

Enw'r dref/pentref hwn/cod post...................................................................................

**B2. Am faint rydych chi wedi byw yno?**
Misoedd/blynyddoedd.........................................................................................................

**B3. Pryd gwnaethoch gyrraedd yn y DU gyntaf?** Blwyddyn...............................................................

Beth oeddech chi'n gwneud yn ystod y 12 mis cyn cyrraedd yn y DU? (*E.e. myfyriwr; gweithio mewn gwlad arall*)..............................................................................................

**B4. Pam gwnaethoch chi ddewis dod i'r rhan hon o Gymru?**

Swydd wedi'i threfnu ymlaen llaw
Clywais fod swyddi ar gael
I ymuno â theulu neu ffrindiau
Atyniadau lleol
Wedi ymweld yn flaenorol
Arall... (nodwch)

*Hoffwn i chi ddweud ychydig wrthyf am y lle roeddech yn arfer byw ynddo yn eich mamwlad, a'r ffyrdd rydych yn cadw mewn cysylltiad â'r lle hwnnw.*

**B6. Ble roeddech yn byw yn eich mamwlad cyn gadael?**
Enw'r dref/pentref/dinas a rhanbarth………..............................................................
Ydych chi yn dal i feddwl am y lle hwn fel eich 'cartref'? Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**B7. Beth oedd y prif resymau dros benderfynu gadael eich mamwlad?**

..................................................................................................................................................................................
..............................................................................................

**B8. A ydych wedi dychwelyd i'ch mamwlad ers byw yn y DU?**
**Ydw…** Sawl gwaith? .................. Am beth? ....................................................
**Nac ydw**

**B9. A ydych yn rhoi cymorth ariannol i unrhyw aelodau o'r teulu yn ôl yn eich mamwlad?**
Ydw / Nac Ydw

**B10. Ym mha ffyrdd rydych yn cynnal cysylltiadau â'ch mamwlad?** [Ticiwch bob un sy'n berthnasol]
Siarad â ffrindiau / teulu dros y ffôn neu Skype
Defnyddio e-bost, Facebook neu gyfryngau cymdeithasol eraill
Darllen papurau newydd, gwylio teledu neu ffilmiau o fy mamwlad
Dilyn tîm/timau chwaraeon yn fy mamwlad
Mynediad i fwyd / diod o fy mamwlad
Arall? (Esboniwch)..........................................................................................

**Ydy hyn yn bwysig i chi?** ..........................................................................................
.................................................................................................................................

**C. GWEITHIO YNG NGHYMRU**

**C1. A ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd?**
**Ydw / Nac Ydw**

- A oes gennych fwy nag un swydd? Faint?

**C2. Beth yw eich galwedigaeth?** ……………………………………………………………………………………

**C3. A ydych wedi gweithio mewn swyddi blaenorol yn y DU?**
**Ydw…** A oeddent yn yr un math o waith?

**Nac ydw**

**C4. A wnaethoch ddod o hyd i'ch swydd gyntaf yn y DU pan oeddech yn:**

Eich mamwlad? Sut?.........................................................................................

Yn y DU? Sut?................................................................................................

*[Holwch y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r prif waith; h.y. lle rydych yn ennill yr arian mwyaf]:*

**C4. Pryd y gwnaethoch ddechrau eich swydd bresennol?**
Mis/Blwyddyn

**C5. Pwy yw eich cyflogwr?**
Cyflogwyd drwy asiantaeth (enw)………………………………………………………..

Cyflogwyd yn uniongyrchol gan fusnes / sefydliad (enw)……………………………..

Hunangyflogedig

**C6. Ble mae eich gweithle?** (Enw'r dref/trefi) ……………………………………………………………….

**C7. A oes gennych gontract cyflogaeth sefydlog?**
**Oes** Am ba mor hir: dyddiadau dechrau a gorffen?

**Nac oes**

**C8. Sawl awr yr wythnos rydych yn gweithio yma ar gyfartaledd?**

O ran oriau a fyddai'n well gennych gael mwy / llai / oriau gwahanol?
……………………………………………………………………

A ydych yn teimlo bod eich oriau yn arferol am y gwaith rydych yn ei wneud?……………………………………………………….

**C9. A yw eich swydd bresennol y math o swydd roeddech yn fedrus/gymwys ynddi yn eich mamwlad?**
**Ydy**

**Nac ydy….** A fyddai gennych ddiddordeb mewn dod o hyd i waith yn eich maes hyfforddi?
A gawsoch unrhyw anawsterau dod o hyd i'r math o swydd roeddech yn chwilio amdani yn yr ardal hon?

**C10. A ydych yn aelod o undeb llafur ar hyn o bryd?**
**Ydw…** Pa un?

**Nac ydw**

**C11. A wyddoch am bobl o'ch mamwlad sydd wedi dechrau eu busnes eu hunain yng Nghymru? (Math o fusnes, lleoliad)**
…………………………………………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………………………………………

**C12. A ydych wedi wynebu unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y DU, yn eich swydd bresennol neu flaenorol?**

*Ysgogiadau posibl: problemau gydag asiantaethau/cyflogwyr; sgiliau iaith; problemau iechyd; cyflog gwyliau a chymryd gwyliau; cam-drin geiriol; deall gwaith papur*

…………………………………………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………………………………………

## Ch. TAI

**Ch1. Sut byddech yn disgrifio eich llety presennol?**

Tŷ/ Fflat/ Fflat un ystafell/ Hostel/ Carafán/ Arall

**Ch2. Am faint rydych chi wedi byw yno?** …………………………………

**Ch3. A ydych yn rhentu'r llety hwn neu'n berchen arno?** ...........................................

**Ch4. Os ydych yn rhentu, a ydych yn rhentu drwy:**

Landlord preifat
Asiantaeth gosod tai
Eich cyflogwr
Y cyngor lleol
Gweithwyr tramor eraill
Arall

**Ch5. Pwy sy'n byw yn eich cartref?** Nodwch nifer: Aelodau o'r teulu ............
Ffrindiau…………………………
Cyd-weithwyr .....................
Eraill………………………….

**Ch6. A ydych wedi cael unrhyw anawsterau o ran dod o hyd i rywle i fyw yma yng Nghymru, neu o ran safon eich llety?**
**Nac ydw**
**Ydw**…….Esboniwch yr anawsterau? ………………………………………………………………………………..

A yw ffrindiau/teulu wedi wynebu problemau tebyg? ...............................

**Ch7. A ydych wedi cael unrhyw help neu gyngor i ddod o hyd i lety yng Nghymru?**
**Nac ydw**

**Ydw**… gan bwy? ...... Cyflogwr
Elusen / canolfan gynghori (e.e. Cyngor ar Bopeth)
Ffrindiau / teulu
Pobl leol

**Ch8. A oes gennych fynediad i'r Rhyngrwyd?**
**Nac oes**

**Oes**…ble? ……………………………………………………………………………………………

## D. GWASANAETHAU AC IECHYD

**D1. A ydych wedi cofrestru gyda meddyg lleol (meddyg teulu)?**
Ydw / Nac Ydw (Pam – unrhyw anawsterau?)

**D2. A ydych wedi cofrestru gyda deintydd lleol?**
Ydw / Nac Ydw (Pam – unrhyw anawsterau?)

**D3. A yw eich iechyd chi a'ch teulu yn dda?** Ydy / Nac ydy…………………………………

**D4. A ydych wedi ceisio cymorth neu gyngor gan unrhyw sefydliad am fyw a gweithio yng Nghymru?**
**Ydw…**Pa rai? Am beth? A oedd hyn yn ddefnyddiol?
……………………………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………………………
**Nac ydw**

**D5. A ddywedwyd wrthych am gyfreithiau lleol (e.e. trwyddedau gyrru, teledu) pan gyrhaeddoch yn y DU/ Cymru?**
**Naddo**

**Do**…Gan bwy? ……………………………………………………………………………………………

**D6. A oes unrhyw beth a fyddai'n ei gwneud yn haws i chi a'ch teulu fyw yn yr ardal hon?** (E.e. mwy o ddosbarthiadau iaith; mwy o siopau; gwell cludiant cyhoeddus ...)
……………………………………………………………………………………………………………………

## Dd. YSGOL AC ADDYSG

*[Holwch gwestiynau F1-F5 os gwnaethant ateb <u>oes</u> o ran bod plant ganddynt yn y DU]*

**Dd1. A yw eich plant mewn ysgol leol?**

**Ydynt**

**Nac ydynt**…Enw?

**Dd2. A ydych yn fodlon ar safon yr addysg y maent yn ei derbyn**? ............................
…………………………………………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………………………………

**Dd3. A ydynt wedi wynebu unrhyw anawsterau yn yr ysgol?**

**Nac ydynt**

**Ydynt**– beth? (Iaith, gwneud ffrindiau/integreiddio, cyrhaeddiad)

**Dd4. A ydynt yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch/clybiau y tu allan i'r ysgol?**

Nac ydynt

Ydynt – beth? Chwaraeon, cymdeithasol

**Dd5. A ydych wedi mynd i unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau yn yr ysgol?**

**Ydw...** Cyngherddau / dramâu

Nosweithiau rhieni

Cyfarfodydd llywodraethwyr ysgolion

Gweithgareddau cymdeithasol neu ddosbarthiadau i oedolion

Arall

**Nac ydw...** Unrhyw reswm dros beidio? ……………………………………………………………………….

## E. Y GYMUNED A BYWYD CYMDEITHASOL

**E1. Beth rydych yn ei hoffi/ddim yn ei hoffi am fyw yn yr ardal hon?**

Hoffi: …………………………………………………………………………………………………………

Ddim yn ei hoffi: ………………………………………………………………………………………………..

**E2. Faint o ffrindiau mynwesol / teulu sydd gennych yn byw o fewn 10 milltir (15 cilomedr)?**
.......................................................................................................................................

**E3. Pa gyfran (neu nifer) o'ch ffrindiau sy'n byw yn agos atoch:**

Sydd o'ch gwlad chi? …….

A oeddech yn adnabod y rhain pan oeddech yn byw yn eich mamwlad? ..........................

Sy'n 'drigolion lleol'? …………

**E4. A ydych wedi cael croeso yma yng Nghymru?** Rhowch enghreifftiau.
…………………………………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………………………………..

**E5. A ydych wedi wynebu gwahaniaethu o unrhyw fath ers i chi fyw yma yng Nghymru?**

Os ydych, ym mha ystyr? ..........................................................................................

A yw gwahaniaethu yn beth cyffredin? ……………………………………………………………………….

**E6. A ydych yn teimlo bod ymdeimlad cryf o gymuned ymhlith gweithwyr mudol a theuluoedd mudol eraill yn eich ardal?**

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Gwrthodwyd / ddim yn gwybod

**E7. A ydych yn teimlo ymdeimlad cryf o gymuned gyda phobl eraill sy'n byw yn eich ardal?**

- Cytuno'n gryf
- Tueddu i gytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Tueddu i anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Gwrthodwyd / ddim yn gwybod

**E8. A ydych yn arfer crefydd?**

Nac ydw

Ydw…Pa grefydd?

**E9. Os ydych, a ydych yn arfer eich crefydd yma yng Nghymru?**

**Ydw…**Pa wasanaeth, ble mae'r gwasanaeth? ………………………………………………………………………..
**Nac ydw…**Esboniwch y rhesymau pam ……………………………………………………………………….

**E10. Y tu allan i'r gwaith, a ydych yn cymdeithasu â phobl eraill o'ch mamwlad?**
Pa mor aml ac ym mha fath o leoedd, e.e. siopau Pwylaidd? ....................................................
…………………………………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………………………………

**E11. Ac a ydych yn cymdeithasu gyda phobl 'leol' yma yng Nghymru?**
Pa mor aml, pa fath o leoedd / gweithgareddau? ........................................................................
…………………………………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………………………………

**E13. A oes unrhyw beth wedi eich atal rhag gwneud ffrindiau ers dod i fyw yma?** (Iaith, hiliaeth, arian, oriau gwaith…)

…………………………………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………………………………

**E14. Yn eich barn chi, beth yw'r prif gyfraniadau y gall pobl o'ch gwlad chi eu gwneud i fywyd yma yng Nghymru?**
(*Anogaeth: economaidd, cymdeithasol, diwylliannol*)
…………………………………………………………………………………………………………………………
…………………………………………………………………………………………………………………………

## F. CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

**F1. Yn eich barn chi, beth yw'r prif fanteision i chi drwy weithio yng Nghymru?**
…………………………………………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………………………………..

**F2. Mewn termau ariannol, a fyddech yn dweud eich bod bellach ar eich ennill, ar eich colled neu rywbeth yn debyg o gymharu â'ch sefyllfa pan oeddech yn byw yn eich mamwlad?**

Ar fy ennill [ ]　　　　Ar fy ngholled [ ]　　　　Rhywbeth yn debyg [ ]

**F3. Ac a fyddech yn dweud bod ansawdd eich bywyd yn well neu'n waeth na phan oeddech yn byw yn eich mamwlad?**

Ar fy ennill [ ]　　　　Ar fy ngholled [ ]　　　　Rhywbeth yn debyg [ ]

Pam rydych chi'n dweud hynny?
…………………………………………………………………………………………………………………………

**F4. Am ba mor hir rydych yn bwriadu aros yn y DU?** …………………………………………………

**F5. Beth yw'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar hyd yr amser y byddwch yn aros yn byw ac yn gweithio yn y DU?**
………………………………………………………………………………………………
……………………………………………………………………………………………………………………

**F6. A ydych yn meddwl y byddwch yn parhau i fyw yn yr un lle?**

Ydw...Pam?

Nac ydw...Pam?

# ATODIAD 4: Data Ymdeimlad o Gymuned

**Tabl A1: Ymdeimlad o gymuned gyda gweithwyr mudol eraill**

| **A ydych yn teimlo bod ymdeimlad cryf o gymuned ymhlith gweithwyr mudol a theuluoedd mudol eraill yn eich ardal?** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n Gryf** | **Tueddu i Gytuno** | **Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno** | **Tueddu i anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** | **Gwrthodwyd / ddim yn gwybod** |
| | % | % | % | % | % | % |
| Merthyr - Pwylaidd | 0 | 0 | 0 | 73 | 13 | 13 |
| Merthyr - Portiwgeaidd | 25 | 0 | 13 | 38 | 25 | 0 |
| Merthyr - Ffilipinaidd | 40 | 40 | 20 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Cymru | 5 | 26 | 32 | 16 | 21 | 0 |
| Llanelli | 0 | 20 | 30 | 20 | 10 | 20 |
| Llanybydder/ Llanbedr Pont Steffan | 7 | 11 | 43 | 14 | 14 | 11 |
| Y Trallwng | 21 | 21 | 21 | 36 | 0 | 0 |

**Tabl A2: Ymdeimlad o gymuned gyda phobl eraill sy'n byw yn eich ardal**

| **G7. A ydych yn teimlo ymdeimlad cryf o gymuned gyda phobl eraill sy'n byw yn eich ardal?** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n Gryf** | **Tueddu i Gytuno** | **Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno** | **Tueddu i anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** | **Gwrthodwyd / ddim yn gwybod** |
| | % | % | % | % | % | % |
| Merthyr - Pwylaidd | 7 | 33 | 7 | 53 | 0 | 0 |
| Merthyr - Portiwgeaidd | 13 | 50 | | 13 | 25 | 0 |
| Merthyr - Ffilipinaidd | 20 | 80 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gogledd Cymru | 17 | 61 | 17 | 6 | 0 | 0 |
| Llanelli | 5 | 10 | 35 | 30 | 0 | 20 |
| Llanybydder/ Llanbedr Pont Steffan | 7 | 39 | 25 | 11 | 11 | 7 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Trallwng | 14 | 29 | 29 | 14 | 14 | 0 |

# ATODIAD 5: Canolfan Ddiwylliant y Bont

**<u>Enghraifft o arfer da:</u>**

**Canolfan Ddiwylliant y Bont - Gwneud Cysylltiadau rhwng Pobl, Sefydliadau a Thechnolegau**

Nod cyffredinol y Bont yw datblygu lle a fydd yn galluogi aelodau o amrywiaeth eang o gefndir diwylliannol i integreiddio yng nghymdeithas leol Merthyr Tudful a'r ardal o'i hamgylch ac felly cynyddu cydlyniant cymunedol drwy ddatblygu ymagwedd gyfunol sy'n defnyddio celf, diwylliant a thechnoleg.

**Trosolwg o'r Prosiect:**

- Nod y Bont yw grymuso unigolion a chynorthwyo sefydliadau gyda'r nod o feithrin cydlyniant cymunedol, cyfranogiad cymunedol a datblygu mwy o oddefgarwch a dealltwriaeth yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Cenhadaeth y prosiect yw datblygu lle yng nghanol y dref y gellir ei ddefnyddio fel adnodd i deuluoedd ac unigolion o gymunedau diwylliannol gwahanol a chyhoedd Merthyr Tudful. Datblygu yn y lle hwnnw amrywiaeth o wasanaethau a chynnyrch a fydd yn grymuso pawb sy'n ei ddefnyddio. Mae'r enw, y Bont, yn dynodi'r rôl y bydd y lle a'r gwaith yn ei chwarae o ran creu cysylltiadau rhwng pobl, cymunedau a sefydliadau.
- Yn benodol, bydd y Bont yn darparu gwasanaeth cymorth a chyfeirio at unigolion o amrywiaeth eang o gefndir diwylliannol, yn datblygu technoleg a fydd yn cynorthwyo eu hintegreiddio â chymdeithas ac yn darparu dysgu diwylliannol seiliedig ar gelf. Felly bydd y Bont yn galluogi unigolion i; fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau, cael mynediad i wasanaethau, a chymryd rhan mewn dysgu, hyfforddiant, profiad gwaith a gweithgarwch seiliedig ar y celfyddydau. Y nod tymor hwy yw creu cyfleoedd i wirfoddoli, cyflogaeth a phrofiad gwaith.
- I ddechrau, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar Ferthyr Tudful ond gobeithio y bydd yn tyfu i fod o fudd i unigolion ledled pedair o ardaloedd awdurdodau lleol, Cymru a thu hwnt. Bydd y prosiect yn cynorthwyo nid yn unig unigolion fel buddiolwyr, ond hefyd sefydliadau yn uniongyrchol (e.e. mae Merthyr Valleys Homes (MVH) yn beilot ar gyfer datblygiadau technolegol newydd) ac yn anuniongyrchol (e.e. ysgolion â myfyrwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn cael adnoddau dwyieithog).

**Gweledigaeth 5 mlynedd:**

Ymhen pum mlynedd, bydd y Bont yn symud o fod yn fenter gymdeithasol yn ei dyddiau cynnar sy'n cynhyrchu 15% o'n hincwm o fasnachu, i fenter gymdeithasol sy'n dod i'r amlwg a fydd yn cynhyrchu 30% o'n hincwm o fasnachu. Bydd yr incwm hwnnw'n cael ei gynhyrchu drwy ddatblygu a gwerthu meddalwedd a thechnolegau eraill a fydd yn hwyluso ymgysylltu rhwng unigolion a sefydliadau. Ymhen pum mlynedd byddwn wedi ymgysylltu â 2,000 o gyfranogwyr y prosiect drwy weithgarwch i godi ymwybyddiaeth o addysg a diwylliant. Yn ogystal, byddwn wedi darparu cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith i 50 o unigolion. Byddwn wedi gwerthu'r feddalwedd i 10 o sefydliadau yn y DU ac yn rhyngwladol ac wedi datblygu technolegau eraill wedi eu hanelu at sefydliadau a'r cyhoedd.

**Canlyniad Bwriadedig:**

- Bydd gan fuddiolwyr wybodaeth well am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt ac yn teimlo'n fwy hyderus o ran cael mynediad i'r gwasanaethau hyn - heb ddefnyddio pobl ifanc fel cyfieithwyr.
- Bydd gan sefydliadau sy'n gweithio i gynnwys y cymunedau hyn gynnyrch technolegol newydd i hwyluso ymgysylltu a dulliau data newydd i ymgysylltu â chyllidwyr, rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Bydd buddiolwyr yn teimlo eu bod yn fwy integredig; bydd ganddynt well sgiliau Saesneg, mwy o wybodaeth am gyfleoedd swyddi a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfleoedd hynny.
- Bydd y gymuned ehangach yn dysgu am ddiwylliannau gwahanol ac felly bydd cydlyniant cymunedol yn cynyddu.

**Enghreifftiau o Weithgarwch** (*yn dibynnu ar gael y cyllid angenrheidiol):

- Datblygu lle penodedig y gellir ei ddefnyddio gan unigolion o amrywiaeth eang o gymunedau diwylliannol a'r cyhoedd
- Defnyddio technolegau i hwyluso dysgu ac ymgysylltu. Er enghraifft, bydd ystafelloedd dosbarth ar-lein yn hwyluso dysgu i weithwyr sifftiau a'r rhai nad ydych yn gallu mynychu dosbarthiadau traddodiadol Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

- Cynnal cymorthfeydd galw heibio, llinell gyngor dros y ffôn ac e-bost a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd amrywiol
- Dosbarthiadau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill gyda dinasyddiaeth drwy wasanaethau byw a rhyngweithiol
- Cyfleoedd gwirfoddoli ochr yn ochr â darparu hyfforddiant a chyngor gyrfaoedd
- Digwyddiadau Diwylliannol a Chymdeithasol seiliedig ar gelf